

Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr

Photo redacted due to third party rights or other legal issues



Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr

- Cynulleidfa** Athrawon ac uwch reolwyr ysgolion uwchradd; awdurdodau lleol; a chyrrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn cynnig cymorth i athrawon adnabod a hybu uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu yn benodol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae'n cynnwys esiamplau o waith dysgwyr sy'n dangos nodweddion o Lefelau 7 i Berfformiad Eithriadol y cwricwlwm cenedlaethol mewn darllen ac ysgrifennu. Mae sylwebaeth a syniadau ar osod tasgau yn cyd-fynd â'r esiamplau.
- Mae'r deunyddiau hyn yn seiliedig ar arfer dda mewn adrannau Cymraeg ysgolion. Gallan nhw hefyd gefnogi addysgu, dysgu ac asesu llythrennedd ar draws y cwricwlwm.
- Camau i'w cymryd** Gofynnir i uwch reolwyr ac arweinwyr pwnc ysgolion, ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol dynnu sylw adrannau ysgolion at yr adnodd newydd hwn, ac annog athrawon i ddefnyddio'r deunyddiau i gefnogi eu ffocws ar gadarnhau a gwella sgiliau llythrennedd dysgwyr.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
- Copiâu ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Adnabod, cynllunio, hyrwyddo	6
Disgrifiadau lefel	8
Deunydd llenyddol	11
1. Adolygiad o nofel (nodweddion o Lefel 7)	12
2. Adolygiad o nofel (nodweddion o Lefel 8)	20
3. Cymharu dwy gerdd (nodweddion o Lefel 8)	29
4. Cymharu dwy gerdd (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	33
5. Cymharu dwy gerdd (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	40
Deunydd anllenyddol	45
6. Deunydd yn trafod hanes Llywelyn a Gwenllian (nodweddion o Lefel 7)	46
7. Deunyddiau amrywiol am foddi Tryweryn (nodweddion o Lefel 7)	50
8. Ymateb i waith llenyddol, ffeithiol (nodweddion o Lefel 8)	56
9. Tasg asesu: Darllen deunydd am Dryweryn (nodweddion o Lefel 8)	60
10. Trafod erthygl a cherdd (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	65
Ysgrifennu creadigol	71
11. Damwain (nodweddion o Lefel 7)	72
12. Byth eto! (nodweddion o Lefel 8)	75
13. Ffrind? (nodweddion o Lefel 8)	79
14. Dros Ben Llestri (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	84
15. Dros Ben Llestri (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	87
Mynegi barn	91
16. Bwlio (nodweddion o Lefel 7)	92
17. "Mae negeseuon tecst yn lladd y ddawn o sgwrsio" (nodweddion o Lefel 8)	96
18. Araith ar archfarchnadoedd (nodweddion o Lefel 8)	100
19. Llythyr yn ymateb i raglen deledu ar hawliau anifeiliaid (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	103
20. Llythyr yn ymateb i raglen deledu (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)	108



Rhagair

Mae pawb yn ymwybodol mai'r sylfaen i lwyddiant mewn bywyd yw sgiliau llythrennedd da. Maen nhw'n cefnogi dysgu mewn Cymraeg, Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. Maen nhw'n hanfodol i gyfathrebu da, maen nhw'n agor y drws i bleser, cyflogaeth a lles, ac maen nhw'n gymorth i alluogi pobl i chwarae rôl lawn fel dinasyddion yn ein cymdeithas heddiw.

Dros y blynyddoedd, drwy ystod o fentrau gwahanol, rydym wedi gwneud cryn dipyn i gefnogi dysgwyr sydd heb ddatblygu eu sgiliau llythrennedd yn llawn, a rhaid parhau i weithio'n galed er mwyn gwella ar hyn. Hyd yma, ond ychydig o sylw a roddwyd i hybu sgiliau llythrennedd ein disgyblion mwyaf galluog. Mae'r ddogfen hon yn anelu at lenwi'r bwlch hwn.

Mae canlyniadau asesiadau cenedlaethol a rhyngwladol – Cyfnod Allweddol 3, TGAU a PISA yn benodol – yn dangos nad yw myfyrwyr mwyaf galluog Cymru, yn gyffredinol, yn datblygu eu sgiliau llythrennedd i'w llawn potensial. Felly mae'r deunyddiau hyn, sydd wedi eu hanelu at ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, wedi eu datblygu mewn cydweithrediad â nifer o arbenigwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Rydym yn hyderus y bydd ysgolion, drwy ddefnyddio'r deunyddiau, yn medru helpu eu myfyrwyr i gael gwell canlyniadau ar draws ystod o bynciau yn TGAU a thu hwnt.

Mae adborth o'r cyfarfodydd rhanbarthol yn dangos bod athrawon ac awdurdodau lleol yn croesawu'r ffocws ar uwch sgiliau llythrennedd. Mae'n bleser gen i argymhell y deunyddiau hyn i bob ysgol ac i gadarnhau ein bwriad i adeiladu arnyn nhw.

David Hawker
Cyfarwyddwr, APADGOS

Cyflwyniad

Yn y llyfryn hwn ceir enghreifftiau o waith dysgwyr sydd yn dangos nodweddion o Lefelau 7, 8 a Perfformiad Eithriadol (PE) mewn Cymraeg. Casglwyd yr enghreifftiau mewn ysgolion ar hyd ac ar led Cymru ym mis Medi 2008. Canolbwyntir ar dargedau cyrhaeddiad Darllen ac Ysgrifennu.

Dydy dysgwyr ddim bob amser yn cyrraedd yr un safon ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad mewn Cymraeg. Gall rhai dysgwyr ddangos nodweddion o Lefel 8 mewn llafaredd er enghraifft ond bod eu gwaith darllen ac ysgrifennu yn amlygu nodweddion o Lefel 7. Yn yr un modd, gall rhai dysgwyr wneud yn well yn eu hymateb i ddarllen na'u hysgrifennu oherwydd bod eu cywirdeb a'u mynegiant yn wallus. Gan nad enghreifftir yr elfen o lafaredd yma, ni lwyddwyd i enghreifftio'r elfen o ddarllen drwy lafar sydd yn elfen hynod o bwysig wrth gyflawni'r targed cyrhaeddiad hwn.

Pam canolbwyntio ar dysgwyr ar frig yr ystod gallu?

Mae tangyflawni a thangyrraedd yn digwydd ar draws yr ystod gallu ond mae'n bosibl y gellir ei adnabod yn haws yng ngwaith dysgwyr gwan eu gallu. Mae athrawon wedi defnyddio nifer fawr o strategaethau i dargedu 'gweiniaid' mewn dosbarthiadau gallu cymysg, er enghraifft paratoi taflenni gwaith arbenigol a gwahaniaethol ar gyfer dysgwyr sydd yn gweithio ar Lefelau 3 a 4. Nid yw mor gyffredin i athrawon osod gwaith gwahaniaethol i ddysgwyr sydd yn gweithio ar y lefelau uchaf.

Mae'n bwysig fod pob dysgwr yn cael ei ymestyn a'i annog hyd at eithaf ei allu. Mae ymchwil diweddar yn dangos fod yna dueddiad i athrawon ganmol a chlodfori dysgwyr sydd yn cynhyrchu gwaith ar lefelau uchaf y cwricwlwm (Lefelau 7, 8, a PE) ond nad ydyn nhw o reidrwydd yn eu hannog i gynhyrchu gwaith gwell bob amser. Byddan nhw'n ysgrifennu sylwadau fel 'ardderchog', 'gwaith graenus ac aeddfed iawn' ar waelod y gwaith heb gynnig sylwadau ar ffyrdd i wella a chymau y gellid eu cymryd i fireinio'r gwaith ymhellach. Yr eironi yn aml yw mai dyma'r union ddysgwyr fyddai'n gallu dygymod â'r awgrymiadau hyn a gweithredu arny'n nhw.

Adnabod dysgwyr ‘galluog’

Mae rhai dysgwyr yn alluog ym mhob elfen o’r cwricwlwm ysgol. Maen nhw’n dueddol o fod yn hyderus ac o’r herwydd mae’n hawdd i athrawon eu hadnabod a’u targedu.

Mae eraill yn alluog mewn elfen benodol neu mewn un maes, er enghraifft yn eu dealltwriaeth o ddarllen ond mae eu hysgrifennu’n wannach.

Gall rhai dysgwyr galluog fod yn ‘anweledig’ mewn dosbarth. Mae rhai yn aflonydd, yn aml yn tarfu ar wersi, eu cymhelliad yn isel ac o’r herwydd maen nhw’n tangyflawni ac yn tangyrredd. Mae ysgrifen flêr, anodd i’w deall yn gallu llesteirio llwyddiant rhai. Mae swildod a’r awydd i guddio neu berthyn i grŵp yn rhwystro eraill rhag dangos eu gallu.

Cwrdd ag anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr

Isod fe restrir rhai strategaethau y gellid eu defnyddio i sbarduno dysgwyr galluog a thalentog.

- gwahaniaethu – trwy sbardunau neu dasgau gwahanol estynedig, heriol
- cynnig cefnogaeth bersonol
- gosod cwestiynau heriol, amrywiol sy’n gofyn am ddyfnder a dealltwriaeth – nid o reidrwydd ‘mwy’ o gwestiynau
- gosod tasgau penagored sy’n cynnig sialens a her
- gosod tasgau sy’n gofyn iddyn nhw ddadansoddi, cyfosod a gwerthuso.

Adnabod, cynllunio, hyrwyddo

Darllen

Bydd dysgwyr galluog a thalentog yn gwneud mwy o gynnydd mewn darllen os bydd athrawon yn eu hannog i:

- ymateb i gwestiynau heriol a fydd yn eu sbarduno i blymio'n ddyfnach i adnabod ystyr testun a thrafod syniadau soffistigedig a chymhleth
- dewis testunau fydd yn caniatáu i ddysgwyr weld y tu hwnt i'r llythrennol
- datblygu sgiliau rhagweld a rhagddweud mewn testunau
- cymharu arddull dau destun sydd yn debyg
- cymharu testunau tebyg, e.e. dwy stori ficro
- dadansoddi arddull testun yn fanwl
- cymharu dau destun gan yr un awdur
- cymharu dau destun ar yr un pwnc
- cymharu arddull dau destun sydd yn wrthgyferbyniol
- dod i gasgliad am lwyddiant neu aflwyddiant testun – Oedd e'n ddiddorol? Oedd e'n bwrpasol? Oedd e'n ystrydebol?
- darllen am farn pob eraill am destun arbennig.
- annog dysgwyr i godi cwestiynau am y testun
- trafod themâu eraill yn y testun (is themâu o bosibl)
- cyflwyno'r testun ar ffurf newydd, e.e. ei drawsnewid yn ffilm/drama
- hunanwerthuso'r dasg.

Ysgrifennu

Bydd dysgwyr 'galluog' yn gwneud mwy o gynnydd os bydd athrawon yn eu hannog i:

- ddeall beth yw pwrpas darn o ysgrifennu, e.e. dweud y caiff ei gyhoeddi yng nghylchgrawn yr ysgol, ei anfon at wefan, e.e. www.crawc.co.uk neu y bydd yn cael ei anfon at gystadleuaeth eisteddfodol
- deall beth yw anghenion y gynulleidfa sydd yn mynd i ddarllen y gwaith
- anelu at gynulleidfa ehangach na chynulleidfa 'ysgol' ac 'athro'
- chwarae gyda thestun, e.e. ei weddnewid, ei barodio, ychwanegu ato
- datblygu eu sgiliau TGCh fel y gallan nhw gynllunio, cyflwyno a drafftio'u gwaith yn effeithiol
- defnyddio'u sgiliau ysgrifennu i wneud cysylltiad rhwng ysgolion mewn mannau eraill o Gymru
- tynnu sylw at nodweddion arbennig mewn testun neu genre
- ail-ddrafftio darn o waith os oes angen a gofyn iddyn nhw eu hunain ac eraill sut y gellid gwella'r gwaith cyn symud ymlaen
- ymchwilio cyn ysgrifennu
- ysgrifennu ar destun fydd o ddiddordeb personol iddyn nhw, e.e. peidio â rhoi'r un testun i bawb yn y dosbarth
- defnyddio sbardunau amrywiol, e.e. dewis o luniau/sbardunau fydd naill ai yn eu cythruddo neu yn eu sbarduno
- ysgrifennu'n gryno o dro i dro a phwysleisio nad oes rhaid i bob darn o waith fod yn hir ac yn estynedig i gyrraedd y lefelau uchaf
- hunanwerthuso'r dasg
- amrywio'u cystrawen, eu berfau a'u geirfa
- defnyddio paragraffau i bwrpas
- atalnodi'n gywir, i egluro ystyr ac i greu effaith.

Disgrifiadau lefel

Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd

Lefel 7

Bydd y disgyblion yn addasu eu sgwrs yn bwrpasol ac yn defnyddio iaith briodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cyfathrebu'n eglur a threfnus gan ddangos peth blaengaredd. Byddant yn mynegi barn gan ddethol tystiolaeth i gefnogi eu safbwynt. Mewn trafodaeth, bydd y disgyblion yn gwneud cyfraniadau sensitif a meddylgar wrth werthuso syniadau eraill. Byddant yn dangos gafael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar ac yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau iaith.

Lefel 8

Bydd y disgyblion yn cyfrannu ac yn dangos blaengaredd mewn trafodaeth ar wahanol bynciau gydag ystod o wrandawyr. Byddant yn ymdrin â gwybodaeth o amrywiol ffynonellau ac yn defnyddio tystiolaeth yn gytbwys i gyfiawnhau barn. Byddant yn cyfleu syniadau'n gydlynus ac yn amrywio'u hiaith yn ôl pwrpas a chynulleidfa. Mewn trafodaeth bydd y disgyblion yn gwneud cyfraniadau cynnil a sensitif, gan werthuso syniadau gan eraill cyn gwneud cyfraniadau a fydd yn symud y drafodaeth yn ei blaen. Byddant yn defnyddio iaith lafar gywir a chyfoethog.

Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn cymryd rhan yn hyderus a chydag effeithiolrwydd cyson mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cychwyn a chynnal trafodaeth ar dopigau ymestynnol, gan resymu gyda chanfyddiad a hyder, a chan ddangos meddwl annibynnol ac aeddfed. Byddant yn canolbwyntio wrth wrando cyn ymateb yn groyw ac yn dreiddgar i gyfraniadau cymhleth gan eraill. Bydd gan y disgyblion safon uchel o iaith lafar gywir a chyhyrog, a byddant yn amrywio arddull a chywair yn ôl pwrpas a chynulleidfa.

Targed cyrhaeddiad 2: Darllen

Lefel 7

Wrth ddarllen a thrafod amrywiaeth eang o destunau, bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o'r modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth. Byddant yn mynegi barn yn ddeheuig ar yr hyn a ddarllenant drwy gyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith, iaith ac arddull, a'u dadansoddi. Byddant yn cywain, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn effeithiol.

Lefel 8

Bydd y disgyblion yn ymateb yn feddylgar i amrywiaeth eang o destunau drwy ddadansoddi a gwerthuso'r modd y cyflwynir ystyr. Byddant yn dadansoddi arddull yn fanwl, ac yn ffurfio barn drwy ddefnyddio tystiolaeth yn gytbwys. Byddant yn dethol, yn cyfuno ac yn dadansoddi syniadau a gwybodaeth, gan drafod y modd y cânt eu cyflwyno mewn gwahanol destunau.

Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn ymateb yn hyderus a chydag aeddfedrwydd i destunau heriol drwy ddadansoddi a gwerthuso'r deunydd yn feirniadol a thrwy gyflwyno sylwadau manwl a threiddgar ar y modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth. Byddant yn trafod testunau'n graff gan ystyried y gynulleidfa, y pwrpas, yr arddull a'r ffurf ac yn croesgyfeirio'n effeithiol.

Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu

Lefel 7

Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac yn dewis arddull briodol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau. Byddant yn dangos gallu cyson i ddefnyddio nodweddion a chonfensiynau ysgrifennu naratif ac ysgrifennu ffeithiol. Mewn naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus ac yn gydlynus. Byddant yn cynnal dadleuon gan gynnig tystiolaeth i gefnogi eu barn. Bydd eu defnydd o eirfa a chystrawen gywir, naturiol Gymraeg, yn adlewyrchu gofynion y dasg. Byddant yn sillafu geiriau cymhleth, afreolaidd yn gywir. Bydd y paragraffu, yr atalnodi, a'r gramadeg fel rheol yn gywir ac fe'u defnyddir i wneud y dilyniant yn glir i'r darlennydd. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

Lefel 8

Bydd gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn dangos dyfnder, dawn a gwreiddioldeb. Byddant yn dangos y gallu i ddefnyddio'r mwyafrif o'r ffurfiau creadigol yn effeithiol ac yn hyderus, gan amrywio'r arddull a'r cywair yn ôl pwrpas y dasg. Wrth ysgrifennu naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus, yn gydlynus ac yn gynnil. Byddant yn adeiladu eu dadleuon, gan gynnig tystiolaeth yn gyson. Bydd eu hiaith yn gyfoethog ac yn gywir a bydd ganddynt afael dda ar ramadeg, atalnodi, sillafu a pharagraffu. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n dreiddgar ac yn gynnil gan ddefnyddio ystod o arddulliau a ffurfiau yn ddeheuig gan gynnal diddordeb y darlennydd. Byddant yn datblygu ac yn cynnal eu syniadau a'u dadleuon yn rhesymegol ac yn eglur, ac yn trin testunau dychmygus a ffeithiol ar dopigau ymestynnol mewn dull manwl a threfnus. Dangosant gyfoeth o adnoddau iaith a ddefnyddir yn gywir a chydag aeddfedrwydd i sicrhau rhuglder eu harddull. Bydd y paragraffau wedi'u strwythuro a'u cysylltu'n ofalus, gan gyfrannu at eglurder a threfn y darn fel cyfanwaith. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

1

Deunydd Ilenyddol

1. Adolygiad o nofel (nodweddion o Lefel 7)

Adolygiad o'r nofel 'Llinyn Trôns' gan Bethan Gwanas

Yn ddiweddar, rydym ni fel dosbarth wedi bod yn darllen y nofel 'Llinyn Trôns' a'i ysgrifennwyd gan Bethan Gwanas. Nofel llawn comedi ydyw er bod elfennau o dristwch wedi cael eu cynnwys ynddi. Mae'n trafod llawer iawn am broblemau pobl yn eu harddegau. Mae'n cynnig blas o sut mae pobl ifanc o bedwar ban byd yn ymddwyn. Cenfigen yw un o brif themau y nofel, gyda llawer o enghreifftiau o bobl yn bod yn sarhaus. Bwlio yw un o'r themau eraill, gyda llawer o gasineb yn y llyfr. Un o'r themau arall yw cariad. Yn fy marn i, mae'r nofel wedi ei anelu at bobl sydd yn eu harddegau cynnar e.e. o dair ar ddeg i un ar bymtheg. Tybiaf hyn oherwydd bod y llyfr yn gallu perthnasu â bobl yr oed hyn. Mae elfennau o fywydau bobl yn eu harddegau wedi cael eu cynnwys yn y nofel. Mae fel petai bod y llyfr yn gadael iddynt gyfleu eu hunain. Mae'r nofel wedi ei hanelu at fechgyn. Teimlaf hyn oherwydd bod y llyfr yn sôn mwy am bethau fuasai'n ddiddorol i fechgyn.

Cynllun y nofel oedd bod criw o bobl yn eu harddegau yn mynd ar gwrs antur i ganolfan awyr yng nghanol Eryri. Maen nhw yno am dri diwrnod ac y maen nhw'n disgwyl am eu canlyniadau TGAU ym mis Awst. Stori am fachgen sydd yn ei arddegau sydd yn isel o ran hyder yw hon. Mae'n sôn am daith rhai o'i ffrindiau a'i elynion ac mae'n dangos faint o effaith mae tri diwrnod yn gallu wneud i fywyd rhywun.

Y prif gymeriad yn y nofel yw Llion Jones neu 'Llinyn Trons'. Llion ei hun sydd yn adrodd y naratif, felly'r person cyntaf sydd yn adrodd y naratif, eithaf tebyg i ymson. Cymeriad swil yw Llion yn nechrau y nofel. Mae'n berson sydd yn hoffi cwmpeini ei hun. Dyma ddyfyniad sydd yn profi hyn.

"Ond dyma fo, hogyn tawel ydw i, yn hapus efo 'nghwmni fy hun a'r cyfrifiadur."

Mae'n cyfleu sut mae Llion yn teimlo oherwydd ei fod yn amlwg yn fachgen unig. Mae yna ran yn nechrau y llyfr lle mae Llion yn sôn am ei dad a'i effaith arno. Roedd hi'n amlwg ei fod wedi cael ei drin yn wael gan ei dad. Mae fel petai bod Llion yn siomiant i'w dad.

"Mae dad yn fy nghasáu i. Dwi'n rhy fyr, rhy denau, rhy wan a rhy ddiog at ei ddant o."

Mae'r effaith mae'r ailadrodd y 'rhy' yn ei gael ar y frawddeg yn amlwg. Mae'r ailadrodd wedi rhoi mwy o bwyslais ar sut mae tad Llion yn teimlo tuag at Llion. Mae ei gymeriad yn dechrau newid wrth i'r llyfr fynd yn ei flaen wrth ei fod yn mynd yn llawer mwy hyderus. Dyma ddyfyniad o'r nofel sydd yn rhoi tystiolaeth o hyn.

"Sut mae'r biceps heddiw, Llinyn Trôns? O sori! 'Sgen ti ddim nac oes!" Mae o mor ddoniol!"

Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos ei fod yn gallu bod yn sarhaus. Mae hyn yn dangos fod ganddo hyder, felly mae'n dangos ei fod wedi cael mwy o hyder. Yng nghanol y nofel, mae'n amlwg bod Llion wedi syrthio mewn cariad â un o'r cymeriadau eraill, sef Gwenan.

"Ti'n iawn, Gwenan?" Roedd hynny'n amlwg yn gwestiwn gwirion, gan fod y greadures yn goch ac yn tuchan fel dafad."

Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos tystiolaeth bod Llion yn meddwl y byd o Gwenan e.e. mae'r gair 'greadures' yn creu delwedd o Llion wedi disgyn mewn cariad gyda Gwenan.

Yn o gystal â hynny, mae Llion yn cynnig ychydig o'i farn o tuag at y cymeriadau eraill. Mae'n disgrifio Dei yn y dyfyniad yma.

"mae o'n anferth, fel rhyw blancmange mawr, ac yn fy ngwasgu i yn erbyn y ffenest."

Mae'r dyfyniad canlynol yn creu delwedd i'r darllenwyr bod Dei eithaf tew, ac mae'n amlwg bod Llion yn meddwl hynny. Mae un o'r brif gymeriadau, sef Gags, yn dechrau newid wrth i'r nofel fynd yn ei flaen. Dyma ddyfyniad yn nechrau y nofel, lle mae'n amlwg llawn hyder.

"Chi?" holodd Gags wedyn. "Chi sy'n mynd i'n dysgu ni i ganwio a dringo?"

Mae'r dyfyniad uchod yn dangos ei fod yn rhywiaethol. Er fod ganddo Gwenan fel cariad, mae'n bod yn rhywiaethol tuag at nifer o'r merched yn y nofel. Dyma ddyfyniad o ychydig yn ddiweddarach yn y nofel, lle mae Gags wedi dechrau cael diffyg hyder ac yn dechrau colli amynedd.

"Asu, dyro'r gorau iddi!" meddai Gags yn flin. "Ti'm di gneud dim byd ond cwmpo yr holl ffordd!"

Yn y dyfyniad mae Gags yn cyfeirio tuag at Gwenan ac mae'n dangos ei fod wedi newid. Erbyn hyn, doedd Gags ddim yn cael llawer o hwyl, ond yn nechrau y nofel roedd hi'n amlwg ei fod yn cael hwyl trwy'r amser. Ysgrifennwyd y dyfyniad yma tuag at diwedd y nofel.

“Gawson ni noson reit braf am fod Gags a Nobl mor dawel.” Dangosir y dyfyniad yma bod hyder Gags i gyd wedi ei adael ac ei fod yn ofnadwy o unig.

Roeddwn i wedi casau Llion yn nechrau y nofel, ond wrth i'r naratif fynd yn ei flaen, roedd datblygiad Llion wedi gwneud i chi fod yn hoff ohono. Roedd cymeriad Gags yn un hoffus yn nechra y llyfr, ac oherwydd hynny roeddech yn dechrau cydymdeimlo â chymeriad Gags. Hoffais gymeriad Dei drwy gydol y llyfr, yn enwedig pan ddatblygodd ei gymeriad yng nghanol y nofel.

Y digwyddiad mwyaf diddorol yn fy marn i oedd pan wrthododd Gags abseilio lawr ochr y mynydd. Roedd ei gymeriad wedi bod yn gymeriad hyderus yn nechrau y nofel, ond roedd hi'n amlwg ei fod wedi colli ei hunan hyder, felly roedd ei gymeriad wedi gwanhau. Bu'r ffaith bod Llion yn fodlon gwneud yr abseilio, yn dangos ei fod wedi cryfhau o ran cymeriad. Felly, roedd y gwahaniaeth ym mhob un cymeriad yn enfawr. Roeddwn yn hoffi'r digwyddiad yma oherwydd bod y nofel wedi cael ei thrawsnewid, gyda'r pobl cryf o ran personoliaeth yn gwanhau, a'r cymeriadau gwan yn cryfhau. Dyma'r dyfyniad am Gags.

“Na, stwffio fo, dw i'm isio,” atebodd o'n swta ac eistedd wrth ochr Gwenan cyn cymryd ei ffag oddi arni a thynnu'n dwfn.’

Mae'r digwyddiad yma yn dangos bod Gags wedi colli ei hyder. Newidiodd ei bersonoliaeth yn syth. Roedd o'n fachgen a oedd yn hoffi bod yn ymlaciol, ond erbyn y digwyddiad hyn, roedd o wedi troi'n flin a chas tuag at pawb. Digwyddiad arall mi hoffais yn y llyfr oedd yn nechrau pan roedd Llion yn disgrifio'r cymeriadau eraill. Roeddech chi'n cael syniad sut fath o gymeriadau oedd Gags a.y.y.b. yn syth. Gwelwyd elfennau o hiwmor yn y olygfa hon. Cafwyd iaith lafar da ynddi, felly roedd pobl yn eu harddegau yn gallu ei ddeall. Dyma ddyfyniad yn rhoi tystiolaeth o hyn.

“Mae o'n anferth, fel rhyw blancmange mawr, ac yn fy ngwasgu i yn erbyn y ffenest. Fydda i wedi mygu toc.”

Roedd y disgrifia 'blancmange', yn cynnig elfen o hiwmor yn y dyfyniad canlynol, sydd yn gwneud i bobl eu harddegau gael mwy o hwyl yn ei ddarllen. Mae'r ffaith bod yr awdures wedi sôn am hyn yn nechrau y llyfr yn effeithiol. Bydd pobl yn gallu ei ddarllen, a'i hoffi yn syth. Y rhan fwyaf doniol yn y llyfr i mi oedd

pan ddaeth Gags a Nobi i fewn i ystafell Llion, a'i gyhuddo o wlychu'i wely. Roedd hyn yn ddoniol oherwydd bod y bechgyn yn gwneud pethau fuasai plant bach yn ei wneud. Ni allwch beidio chwervthin wrth ddarllen y rhan yma o'r nofel. Mae yna lawer o hiwmor wedi cael ei gynnwys yn y rhan yma o'r nofel. Yn fy marn i, mae'r darn yma yn cyfleu llai o hiwmor oherwydd bod Gags a Nobi yn ymddwyn fel plant nid pobl yn eu harddegau. Dyma ddyfyniad sydd yn profi hynny.

“Roedd fy nhraed i fel concrit. Yna tynnodd Nobi'r cwrlid yn ôl a dechrau chwervthin yn uchel.”

Mae'r dyfyniad canlynol yn profi bod gwely Llion yn wlyb a bod Nobi yn yr ystafell. Felly mae'n amlwg fod Nobi a Gags yn euog. Yn fy marn i, y digwyddiad pwysicaf ym mhlot y nofel oedd pan roedd y grŵp yn cael trafodaeth am eu hamser yn y gwersyll. Mae'n amlwg fod Llion a Dei wedi mwynhau eu hamser yn y gwersyll, felly mae eu cymeriad wedi cryfhau. Er hynny, mae'r cymeriadau eraill heb fwynhau eu hamser. Felly, mae'r naratif wedi ei weddnewid.

Ysgrifennwyd y nofel yma rhan fwyaf o'r amser o ran y person cyntaf, o ran y prif gymeriad Llion. Mae o fel petai bod Llion yn ceisio sgwrsio â ni y darllenwyr. Mae effaith hyn yn gwneud i'r nofel fod fel ymson a dyddiadur. Mae'n effeithiol oherwydd bod o'n rhoi safbwynt pobl sydd yn eu harddegau.. Yn ogystal â hynny, mae'r ffaith bod Llion yn adrodd y stori, yn meddwl bod ei deimladau yn gallu cael eu cyfleu llawer mwy eglur. Fedrwn weld hefyd, bod Llion yn mynegi ei farn am y cymeriadau eraill, sydd yn gwneud hi'n haws i ni ddeall awyrgylch yr olygfa, ac yn gyfle i ni gael dysgu am y cymeriadau. Mae hyn hefyd yn gwneud i chi ddeall ei feddyliau. Yn fy marn i, mae'r ffaith fod y naratif wedi cael ei hysgrifennu yn y person cyntaf yn gwneud y nofel yn well, a llawer fwy doniol.

Roedd iaith y nofel yn gallu bod yn eithaf anodd ar adegau. Defnyddiwyd llawer iawn o iaith lafar, yn enwedig gan ei fod yn nofel arbennig ar gyfer pobl yn eu harddegau. Roedd y frawddeg cyntaf yn y nofel wedi cael ei hysgrifennu gyda iaith llafar. Dyma'r dyfyniad o'r frawddeg honno.

“Dw i'm isio mynd, mwy na chic yn fy nhin.”

Mae'r dyfyniad yno yn addas gan ei fod yn cyflwyno'r person sydd yn mynd i adrodd naratif a'n cyflwyno ni i'r prif gymeriad,

Llion Jones. Fe ddefnyddiwyd llawer iawn o eiriau llafar yn y nofel. Dyma enghreifftiau o'r geiriau hynny a cafodd eu defnyddio. Defnyddiwyd geiriau fel "stido", "snichyn", "ffustio" a "gythgiam o serth."

Yn ogystal â hynny, fe ddefnyddiwyd llawer o eiriau Saesneg a oedd wedi Cymreigio. Roedd hi'n dda bod yr awdures wedi defnyddio geirfa fel yma, gan fod pobl yn eu harddegau yn dueddol o ddefnyddio geiriau sydd wedi'i cyfieithu o'r Saesneg. Dyma enghreifftiau o eirfa fel hyn. Defnyddiwyd geiriau fel "tortois", "nacyrd", "boncyr", "siriys", "garantid", "conffiwsd" a "ffrinj".

Mi ddefnyddiodd Llion lawer iawn o lysenwau am ei gyd-gymeriadau. Mae'r ffaith ei fod yn gwneud hyn yn disgrifio personoliaethau y cymeriadau eraill. Roedd Llion yn galw ei dad yn Hitler, sydd yn cynnig y syniad fod ei dad yn greulon ag ef. Fe alwodd Llion y cymeriad Dei yn Dei Dwy Dunnall, sydd yn cynnig y syniad bod Dei eithaf tew.

Er mai mewn iaith llafar ysgrifennwyd llawer iawn o'r nofel, mi ddefnyddiodd yr awdures fymryn o idiomau. Felly, mae hi wedi defnyddio ychydig o elfennau Cymreigaidd, ond wrth ddefnyddio geiriau wedi ei Cymreigio ar adegau. Dyma enghreifftiau o'r geiriau hynny. Defnyddiwyd geiriau fel "llawn llathen", "piso chwerthin", "gwneud fy ngorau glas", "rhyngddi hi a'i photes", "doedd gen i ddim clem", "ar bigau'r drain" a "rhwbio'r halen i'r briw".

Mae'r ffaith bod yr awdures wedi defnyddio idiomau yn dangos ei bod hi'n defnyddio iaith dda, er ei bod hi wedi defnyddio geiriau llafar. Yn ogystal â hynny, fydd pobl ifanc yn hoffi'r elfennau o hiwmor sydd wedi cael eu cynnwys yn yr idiomau. Defnyddiwyd llawer iawn o cyffelybiaethau yn y nofel, enwedig yn y dechrau. Roedd yr awdures yn defnyddio cyffelybiaeth i ddisgrifio nifer o'r cymeriadau. Dyma ddisgrifiad a wnaeth Llion am un o'i athrawon, Tecs Pecs.

"fel tarw ar steroids".

Roedd y gyffelybiaeth uchod yn disgrifio Tecs fel petai'n berson milain. Yn nhudalen wyth, bu cyffelybiaeth am gwyneb ei athrawes Saesneg.

"fel pen ôl dafad wedi bod mewn sment micsar."

Mae'n gyffelybiaeth dda oherwydd ei fod yn cynnig elfen o hiwmor, sydd yn dda i gysidro ei fod yn nechrau y nofel. Cafwyd cyffelybiaeth arall yn nhudalen un ar bymtheg am Alun yn chwyrnu.

"fatha arth efo annwyd".

Mae'n gyffelybiaeth dda oherwydd ei fod yn cynnig y syniad fod Alun yn chwyrnu yn uchel. Defnyddiwyd cyffelybiaeth arall yn nhudalen deunaw.

"wedi cyrlio fel Swis Rôl, rhyw wen hyll, gas, fel Frankenstein yn dysgu gwenu am y tro cyntaf."

Mae hon yn gyffelybiaeth dda oherwydd bod Llion wedi defnyddio nifer o gyffelybiaethau doniol yn y frawddeg. Cafwyd cyffelybiaeth arall yn nhudalen tri deg chwech, lle ddaeth hi'n amlwg fod Llion wedi colli mymryn o gariad tuag at Gwenan. Dywedwyd yr cyffelybiaeth hyn pan roedden nhw'n canwio.

"fel hadog wedi marw."

Roedd hon yn gyffelybiaeth dda oherwydd fod Llion wedi dechrau cyfleu mymryn o gryfder yn ei gymeriad, ac wedi dechrau colli teimpladau tuag at Gwenan, sydd yn amlwg yn y dyfyniad. Roedd yna gyffelybiaeth arall yn y dudalen honno, am Llion.

"fatha runner bean."

Mae'r gyffelybiaeth hon yn dda oherwydd bod yr awdures yn defnyddio gair Saesneg, sydd yn gwneud i berson yn eu harddegau fod eisiau darllen y nofel. Mae o hefyd yn un ddoniol..

Gan mai llyfr ar gyfer pobl yn eu harddegau yw hon, bu cryn dipyn o ddefnyddio iaith lliwgar a chryf yn y nofel. Dyma enghreifftiau ohonynt.

"Syniad coc", yn nhudalen chwech a "bastads" yn nhudalen cant ac un.

Nad ydwyf yn meddwl ei bod hi'n addas i gynnwys iaith fel yma, oherwydd er mae bobl ifanc yn ei fwynhau, mae eu rhieni am fod yn erbyn hyn. Fydd hyn hefyd yn arwain i bobl ifanc ddefnyddio iaith fel yma yn aml.

Cafwyd defnydd da o drosiadau yn y nofel, enwedig yn y dechrau. Roedd rhai o'r trosiadau a ddefnyddiwyd yn rhai anghyffredin. Dyma ran o dudalennau chwech a saith.

"Y goedwig o ddwylo yn yr awyr", pan mae pawb eisiau ateb cwestiwn yr athro a

"ond crempog goch o waed a gyts ac ambell splintar o asgwrn a dannedd",

pan mae Dei yn gwisgo Llion yn y drws.

Mae rhain yn drosiadau da oherwydd eu bod nhw yn rhai anghyffredin a gwreiddiol.

Bu nifer o enghreifftiau o hiwmor mewn disgrifiadau yn y nofel. Dyma enghreifftiau o dudalennau dwy ar bymtheg a pedwar deg un.

“tydi Dei Dwy Dunnall mewn trôns ddim yn olygfa rhy braf y peth cyntaf yn y bore”, a
“steering wedi cocio fyny neu rwbath.”

Mae rhain yn enghreifftiau da oherwydd eu bod nhw mor ddoniol a hefyd mae llawer ohono yn iaith llafar.

Yn fy marn i, mae'r nofel yma yn un doniol a diddorol. Buaswn i yn argymhell y nofel hon i bobl eraill oherwydd ei fod yn mor ddiddorol. Mae'n lyfr ardderchog ac roedd hi'n eithaf hawdd i'w ddarllen. Un peth a oedd yn fy nharo i, oedd bod y llyfr yn gredadwy. Erbyn diwedd y nofel, mi ddaeth y nofel yn raddol yn llai credadwy. Yn ogystal â hynny, roedd y nofel yma yn addas ar gyfer bobl ifanc, oherwydd bod y llyfr wedi cael ei hysgrifennu fel petai'n siarad â'r darllenwyr.

Roeddwn i wedi mwynhau darllen y nofel yma oherwydd ei fod mor unigryw a mor ddoniol. Roedd yna gymaint o hiwmor yn y nofel, roedd hi'n anodd colli diddordeb yn y naratif. Yn ogystal â hynny, fyddai pobl ifanc yn gallu cydymdeimlo a Llion oherwydd eu bod nhw'n mynd trwy'r cyfnod hwnnw.

Sylwebaeth

Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Dadansoddi'r cymeriadau yn fanwl a thrafod y newid a ddigwydd iddynt gan ddyfynnu i gefnogi barn**, e.e. 'Gags . . . Roedd ei gymeriad wedi bod yn gymeriad hyderus . . . ond roedd hi'n amlwg ei fod wedi colli ei hunan hyder, felly roedd ei gymeriad wedi gwanhau. Bu'r ffaith bod Llion yn fodlon gwneud yr abseilio, yn dangos ei fod wedi cryfhau o ran cymeriad'.
- **Nodi'r themâu a geir yn y nofel megis bwlio, cenfigen, casineb, cariad.**
- **Dadansoddi'r modd y defnyddir iaith ac arddull ar gyfer gwahanol ddibenion megis agwedd un cymeriad at y llall**, e.e. Mae'r ailadrodd wedi rhoi mwy o bwyslais ar sut mae tad Llion yn teimlo tuag at Llion a barn Llion ar Dei, ' "mae o'n anferth, fel rhyw blancmange mawr . . ." Mae'r dyfyniad canlynol yn creu delwedd i'r darllenwyr bod Dei eithaf tew, ac mae'n amlwg bod Llion yn meddwl hynny'.
- **Dyfynnu sawl cymhariaeth a dadansoddi ambell un**, e.e. "'fatha arth efo annwyd". Mae'n gyffelybiaeth dda oherwydd ei fod yn cynnig y syniad fod Alun yn chwyrnu yn uchel'.
- **Gwerthfawrogi'r hiwmor sydd yn y nofel.**

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Dadansoddi'r arddull a'r iaith yn fanylach, trafodaeth mwy meddylgar a llawnach, dadansoddiad o'r themâu ac o adeiladwaith y nofel.

2. Adolygiad o nofel (nodweddion o Lefel 8)

Adolygiad o 'Creadyn' gan Gwion Hallam

Yn ddiweddar bum yn darllen y llyfr 'Creadyn' gan Gwion Hallam. Mae'n nofel gyffrous gyda nifer o ddigwyddiadau gafaengar, ac yn addas iawn ar gyfer pobl ifanc tua pedair ar ddeg oed. Yn sicr mae'r nofel yn mynd i ddal sylw'r darllenwr gyda'r elfennau o ffantasi sydd ganddi, yn ogystal â digrifwch, tristwch, antur a llawer mwy. Er hyn mae'n nofel ddifrifol iawn ac yn trafod problemau pobl ifanc e.e. bwlio, colli aelod o deulu, cael cariad a.y.y.b. yn dda, ac efallai mai dyna'r rheswm am lwyddiant y llyfr. Wrth edrych ar y clawr am y tro cyntaf, daliodd fy sylw yn nyth gan iddo edrych fel nofel, mae'r lluniau arno'n cyfleu digwyddiadau'r llyfr yn syth ac yn effeithiol dros ben, e.e. y llaw a'r pry copyn – ond ni ddywedaf fwy ar y funud! Yn bersonol, er i'r clawr ddal fy llygad nid oedd yn apelio dim ataf gan iddo edrych fel nofel amwys, tywyll ar gyfer bechgyn. Credaf felly fod clawr y llyfr yn naturiol am ddenu fwy o fechgyn i'w ddarllen na merched.

Stori yw'r llyfr am fachgen go wahanol i bawb arall yn symud o'r wlad i'r ddinas sef Huw Dafis. Mae'n mynychu ysgol Glantagfa ac yn byw gyda'i dad sef Cliff Oswyn Hughes, symudodd Huw a'i dad i'r ddinas ar ôl marwolaeth y fam mewn damwain car erchyll. Yn y nofel cawn ddilyn hanes Huw yn tyfu i fyny o fod yn blentyn i oedolyn neu hyd yn oed greadyn! Nid yw Huw'n fachgen poblogaidd iawn yn yr ysgol gan iddo fod yn gymeriad go ryfedd a gwahanol. Dechreuodd y nofel wrth ailadrodd hunllef Huw Dafis sy'n datblygu trwy gydol y nofel. Ym mhantomeim Nadolig yr ysgol roedd Huw wedi meddwi ar y llwyfan ar ôl i rhywun gynnig diod iddo oedd yn cynnwys alcohol – credai Huw mai dwr ydoedd. Ni wyddai Huw pwy gynigiodd y diod iddo cyn mynd ar y llwyfan gan iddo fod oddi tan y wisg ceffyl ond sylwodd fod gan y person bry copyn ar ei law. Y digwyddiad yma felly a ddechreuodd yr holl ffws a ffwdan i Huw druan, wrth iddo geisio darganfod llaw pwy oedd gyda'r pryf copyn. Ar ôl cael ei ddiarddel o'r ysgol, roedd rhaid dychwelyd i'r ysgol lle nad oedd ganddo'r un ffrind na'r un cysur. Rhaid iddo wynebu Lee Wheelan – y bwli, Katrin Kidd – cariad Lee a'r ferch roedd Huw'n ei ffansio, a Gwyn Goch sef ei unig ffrind trwy'r nofel yn ogystal a Kat. Yn ôl yn yr ysgol, cafodd Huw frathiad gan ddraenog a dechreuodd Huw droi'n fwy blewog gan sylwi ei fod yn troi'n greadyn!!

Aeth pethau o ddrwg i waeth, cafodd Kat ei tharo lawr gan gar, a chyhuddwyd Huw o'i tharo tra gwyddai Huw'n iawn mai Lee oedd wedi gwneud ond gwadodd y cwbl. Ar ôl amau Kat wrth weld corryn ar ei llaw tra'n ei hymweld yn yr ysbyty, sylweddolodd Huw mai Lee a feddwodd ef yn y panto wedi'r cwbleth cryn dipyn o drafferth rhwng Lee a Huw ar ôl y draffordd, ond llwyddodd Huw i'w osgoi diolch byth, ond yna darganfyddodd Huw fod Gwyn Goch yn troi'n wiwer fel yr oedd ef yn troi'n ddraenog! Dyna felly prif ddirgwyddiadau gwallgo'r llyfr!!

Credaf fod y nofel yn ceisio trafod problemau pobl ifanc o ddydd i ddydd ac i ryw raddau, teimlaf ei bod yn llwyddo. Mae'n trafod yr effaith mae colli rhiant yn ei gael ar blentyn yn sensitif wrth ddisgrifio sut oedd Huw'n teimlo ar ôl colli ei fam, a sut oedd Kat yn teimlo pan oedd ei mam yn wael yn yr ysbyty. Gwelir yn tud. 36 yr hiraeth oedd gan Huw am ei fam –

“Gafael amdanaf i, Mam,” meddai gan estyn ei freichiau i'w chyffwrdd.”

“Sut wyt ti'n gwybod beth yw colli anrheg gefaist ti gan fam yr wyt ti wedi colli am byth.”

Yn ogystal â thrafod yr effaith o farwolaeth ar blant mae'n trafod bwlio. Credaf fod hyn yn dda i blant sy'n wahanol ac yn cael eu bwlio oherwydd mae'n rhoi cyfle iddynt sylweddoli fod bwlio'n digwydd i lawer, ac nad ydynt ar ben eu hunain. Mae hefyd yn gyfle i blant sydd **yn** bwlio sylweddoli gymaint o effaith mae bod yn gas yn ei gael ar bobl a pha mor isel mae plant yn teimlo pan mae hyn yn digwydd. Credaf fod yr awdur wedi llwyddo i ddangos sut blant sy'n cael eu targedu i'w bwlio, er enghraifft Huw a Gwyn Goch, sy'n gymeriadau od a gwahanol. Dengys yr awdur ddealltwriaeth dda hefyd o sut mae pobl ifanc dan bwysau i fod yn rhan o'r criw; sef fel yn y nofel yma plant poblogaidd fel Lee Wheelan. Gwelir yng nghanol y nofel nad yw Huw eisiau bod yn ffrindiau gyda Gwyn Goch gan nad yw ef yn boblogaidd nag yn 'ran o'r criw'. (Gwelir tud. 67)

“Dere mlân yn ni'n dou ishe cwmni.” (Gwyn yn siarad)

“Ma gin i ffrindie Gwyn Jinj” meddai Huw dros ei ysgwydd.

Elfen arall mae'r llyfr yn trafod sy'n poeni pobl ifanc yw cariad – yn yr achos yma, Katrin Kidd yw'r ferch mae Lee a Huw'n ffraeo drosti. Wrth gwrs, mae Lee yn gariad i Katrin yn y nofel ond credaf yn ddistaw bach fod Huw wedi syrthio mewn cariad gyda Kat. Yn bersonol, credaf fod yr awdur wedi llwyddo i drafod problemau pobl ifanc yn dda.

Nawr fy mod wedi esbonio wrthyfych be sy'n digwydd yn y nofel rwyf am drafod y cymeriadau. Wrth gwrs, prif gymeriad y nofel a'r cymeriad mae'r nofel yn cylchdroi oddi amgylch yw Huw Dafis. Mae'n gymeriad gymysglyd, a chredaf nad ydyw wedi darganfod pwy ydyw go iawn nes diwedd y nofel. Credaf ei fod wedi cael bywyd caled yn colli ei fam, symud ysgol, symud ardal, bod heb ffrindiau a wynebu'r ffaith ei fod yn wahanol.

Roedd colli ei fam wedi cael dylanwad mawr arno gan iddo feio'u hyn am y ddamwain –

“Byddai'n disgwyl amdani am byth, ac yn feio ei hunan am byth.”

“Yn ffordd greulon o'i atgoffa am y ddamwain a'r 'joy-rider' yn y car arall a yrrodd fel ffwl ac a drawodd ei fam. Roedd blwyddyn ers hynny, ond roedd cofio'n brifo o hyd.”

Mae Huw yn berson od, gwahanol a rhyfedd iawn i blant eraill gan iddo wneud pethau rhyfedd fel cysgu o dan ei wely rhag i'r nenfwd ddisgyn ar ei ben. Ofnau Huw yw'r bwlis fel Lee Wheelan gan iddo fod wedi cael ei fwlio trwy gydol ei fywyd. Mae hefyd yn ofn cael ei daro gan gar fel ddigwyddodd i'w fam.

“A gorfod wynebu'r plant eraill i gyd, y plant a fyddai weithiau'n ei alw'n Huw ffarm, neu weithiau'n Huw tawel, neu weithiau'n Huw hyll, ond byth yn ddim ond Huw fel yr hoffai.”

Mae Huw'n gymeriad amlochrog ac yn gymysgfa o dda a drwg. Enghraifft o hyn yw, yng nghanol y nofel mae Huw'n dechrau bod yn gas gyda Gwyn Goch neu hyd yn oed yn ei fwlio fel mae pawb arall yn gwneud, dyna beth a gredaf sy'n ei arwain i fod yn gas. Nid yw Huw eisiau bod yn ffrindiau â Gwyn –

“Ma gin i ffrindia Gwyn Jinj.”

Nid wyf yn credu fod Huw'n gymeriad credadwy o gwbl, mae'n gymeriad o fyd ffantasi sy'n afreal iawn. Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n troi'n greadyn?? Mae'r bwlio, ofnau'r bwllis a'r problemau o ddydd i ddydd yn ei wneud yn gredadwy ond nid yr wyf yn meddwl y dof ar draws person tebyg i Huw Dafis – gobeithio! Credaf fod cymeriad Huw Dafis yn datblygu yn ystod y nofel gan iddo fod llawer mwy hyderus ac yn gallu wynebu'r bwllis fel Lee Wheelan yn well. Mae'n credu ynddo'i hun fwy ac mae'n berson mwy cymdeithasol gan iddo fod wedi gwneud ffrindiau sef Kat a Gwyn.

“peidio ofni yr un bwll! Dyna ddywedodd 'rhen Ben ac wrth iddo godi i'r parc a rhuthro ymlaen ar yr ysgol dyna'r geiriau a ganai'n ei ben.”

Y cymeriad nesaf rwyf am sôn am yw Lee Wheelan. Mae gan Lee wallt melyn pigog gweler tud. 22 ac mae'n boblogaidd iawn gyda'r merched gan iddo chwarae i'r tîm hoci â “city spiders”. Er hyn, bwllis ydyw yn y bôn ac mae'n targedu Huw a Gwyn –

“Yna trodd Lee ac ychwanegu'n dawel bach yng nghlust Huw – yn naff o gael ei ladd fel ei gath fach bathetig os ddywedith e un gair arall am y flonden.”

Lee yw cariad Katrin Kidd ond ef sy'n ei tharo i lawr ar ddiwedd y nofel ac yn beio Huw. Er hyn, credaf fod Lee'n colli ychydig o'i hyder yn ystod y nofel wrth iddo fod ofn Huw, wrth ei weld yn greadyn – “Wyt ti'n fy ofn i neu beth?” galwodd Huw ar ei ôl. Credaf fod gwrthgyferbyniad rhwng Huw a Lee gan fod y ddau'n gymeriadau hollol wahanol – Lee'n boblogaidd, Huw'n amhoblogaidd. Hefyd, mae Lee'n hyderus ond mae Huw'n hollol ddi-hyder, a swil ar ddechrau'r nofel.

Mae Kat yn ferch annwyl, clên a charedig ac mae disgrifiad ohoni ar dudalen 29 –

“Syllodd ar Katrin gan sylwi unwaith eto ar ei llygaid oedd yn wyrdd ac yn fawr fel rhai cath, a'i gwefusau glas wedi'u lliwio â gofal arbennig.”

Ar ddechrau'r nofel mae mam Katrin yn dioddef o ganser ac erbyn y diwedd mae'n marw –

“Na”, meddai Katrin. Doedd hi ddim eisiau dweud mwy, ond ychwanegodd, “canser.”

Mae Huw a Katrin yn dod ymlaen gyda'i gilydd yn dda gan ei bod hi'n hoffi'r ffaith fod Huw'n wahanol, a chredaf fod Lee sef ei chariad gyda thipyn o genfigen tuag at gyfeillgarwch Huw a Kat.

“Ti’n foi gwahanol Huw, od. A ma hyna’n fwy diddorol na dim.”

Rwy’n credu fod cymeriadau Huw a Kat yn gwrthdaro hefyd ond mae’n amlwg fod y ddau’n dod ymlaen yn dda gyda’i gilydd er i Huw ei digalonni ambell waith e.e. pan fuodd ei mam farw-

“Sut wyt ti’n gwybod beth yw colli anrheg gefaist gan fam yr wyt wedi’i cholli am byth.”

“Mwy na ti’n feddwl,” meddai Katrin a’r dagrau fel gwydr yn ei llais.

Erbyn diwedd y nofel mae Kat yn yr ysbyty ar ôl i Lee Wheelan ei tharo hi lawr.

Y cymeriad olaf rwyf am sôn am yw Gwyn Goch, sef ffrind Huw. Mae’r ddau’n debyg iawn i’w gilydd, yn gymeriadau od a rhyfedd ac yn ddau greadyn! Mae ganddo wallt coch ac mae’n cael ei alw’n Gwyn jinj neu Gwyn ‘frizz-ball’. Gwelai Huw Gwyn yn dipyn o niwsans yn ei ddilyn i bob man fel y disgrifir yn nhudalen 52 –

“Nid oedd dianc rhag Gwyn. Rhag ei help. Rhag ei gwmni. Roedd yno fel cysgod o hyd.”

Sylweddolodd Huw ei fod yn gwneud pethau rhyfedd cyn darganfod ei fod yn troi’n wiwer fel sgipio yn lle cerdded, bwyta llawer o gnau a’r ffordd y gallai ddringo fel pan ddringodd fewn i’r ystafell Gymraeg-

“Ond pan edrychodd Huw dros ei ysgwydd eto, gwelodd fod Gwyn yn eistedd yn ei sedd fel pe bai wedi bod yno ers ddechrau’r wers. Ond sut? Doedd e ddim wedi dod mewn trwy’r drws. O ble ddaeth e? Trwy’r ffenestr? Amhosibl.”

Credaf fod Gwyn yn gymeriad hoffus iawn i’r darllenwr, yn edrych ar ôl Huw drwy’r amser, yn cadw llygad arno, ac yn gymeriad annwyl yn gwneud ddim byd yn anghywir.

Nofel wedi ei hysgrifennu yn y trydydd person yw Creadyn ond ceir newid oddi wrth yr amser gorffennol ddwy waith yn nhudalen 13 a 14 wrth i’r amser symud i’r presennol yn ystod hunllef Huw Dafis. Credaf fod defnyddio llythrennau ‘italics’ yn effeithiol pan adroddir y freuddwyd oherwydd mae’n haws i’r darllenwr ddeall mai breuddwyd ydyw sy’n llai cymysgld. Os na fuasai’r freuddwyd wedi ei hysgrifennu mewn llythrennau ‘italics’ nid wy’n credu y buasai’r darllenwyr yn deall fod yr amser yn symud i’r presennol. Nid yw plot y stori’n gredadwy o gwbl gan

mai nofel ffantasi ydyw, ond rwyf yn hoffi'r syniad o ddigwyddiadau anhygoel hollol wallgof er i fi feddwl ychydig bach ei bod hi'n copïo syniadau o ffilmiau neu lyfrau Americanaidd fel 'Spiderman' neu 'Hulk'. Ar y llaw arall mae'n nofel wahanol yn y Gymraeg ac mae yna brinder o nofelau o'r fath yn y Gymraeg, felly rwy'n hoff o'r syniad. Gwelais y nofel braidd yn hir wyntog gyda'r holl ddigwyddiadau nad oedd eu angen ar y draffordd gyda Huw a Lee. Hoffais y diwedd glo'n fawr wrth i Huw weld yr ystlum yn y nen, sef awgrym mai ei ffrind Ben ydoedd o'r wlad. Rwy'n hoff o'r syniad fod Huw'n troi'n greadyn ac yn dychwelyd i'r wlad ond nid wy'n credu ei fod yn syniad gwreiddiol iawn gan fod llawer o gomics Americanaidd wedi defnyddio'r syniad yma sawl tro o'r blaen.

Mae llawer o ddefnydd deialog yn y nofel sy'n cynnwys tafodiaith o'r de a'r gogledd ac weithiau mewn bratiaith. Enghraifft o dafodiaith o'r gogledd mewn deialog yn y nofel yw –

"Gad fi allan o'r siwt!" (Huw yn siarad)

Buasai person o'r de yn naturiol wedi dweud 'mas' yn lle allan.

Enghraifft o dafodiaith o'r de mewn deialog yn y nofel yw –

"bach o gwmni?" (Miss Malooney'n siarad)

Buasai person o'r Gogledd yn dweud ychydig o gwmni'n lle bach o gwmni.

Enghraifft o fratiaith o'r nofel mewn deialog yn y nofel yw-

"Hey, Miss Malooney, ma' gyda ti toy-boy!"

Rwy'n credu fod defnyddio bratiaith yn y nofel yn gredadwy oherwydd nofel i blant yn eu harddegau yw hi, ac mae'n dangos sut mae plant yn eu harddegau yn siarad o ddydd i ddydd. Ar y llaw arall, nid wyf yn credu fod defnyddio tafodiaith o'r de a'r gogledd yn effeithiol oherwydd nid yw'n dweud yn glir os oes rhai o'r cymeriadau'n dod o'r gogledd neu o'r de, felly mae'n gymysglyd gwybod ble mae'r rhai o'r cymeriadau'n dod, a pha dafodiaith maent yn fod i siarad. Rwy'n sôn yn benodol fan hyn am Huw. Os mai o'r gogledd mae Huw yn dod, dylai'r awdur ddweud y gogledd yn lle'r 'wlad' bob amser.

Mae'r nofel yn cynnwys llawer o enghreifftiau o gymariaethau a throsiadau trawiadol sef arddull ddisgrifiadol. Fy hoff drosiad i o'r llyfr yw –

"angyles mewn du yn dod i'w achub o wê anghyfiawnder."

Yn fan hyn cael breuddwyd mae Huw am y pantomeim unwaith eto, ac mae'n cael breuddwyd am Katrin yn ei achub rhag cael bai am feddwi. Mae'r awdur yn trosi Katrin fel angyles gan fod gan Huw feddwl ohoni, a mae'n ei achub o wê anghyfiawnder oherwydd fod gan y person a feddwodd Huw bryf copyn ar ei law. Fy hoff gymhariaeth o'r nofel yw-

“ystlum a oedd yn ddall fel nos”.

Credaf fod y gymhariaeth yma'n effeithiol gan mai'r ystlum yw Ben, ffrind Huw o'r wlad a oedd yn ddall. Wrth gwrs mae ystlumod yn ddall felly mae'r awdur yn ei gymharu â'r nos oherwydd fod y nos yn dywyll ac yn ddu. Yn y fan hyn mae'r awgrym mai Ben yw'r ystlum. Rwyf yn credu fod cymariaethau a trosiadau yma'n gwneud y nofel yn fwy pwerus oherwydd maent yn gofiadwy dros ben ac yn dal sylw'r darllenwr. Maent yn gwneud y nofel yn fwy diddorol a chredaf mai rhain yw un o gryfderau'r llyfr.

Mae yna lawer o enwau diddorol yn y nofel e.e. ffug enw Huw Dafis sef 'Huw Horse' ar ôl digwyddiad y panto a Gwyn jinj neu Gwyn 'frizz-ball' gan fod iddo wallt coch. Credaf fod y rhain yn effeithiol achos yn aml iawn mae gan blant ffug enwau fel rhain, mae hyn yn gwneud y nofel yn fwy diddorol ac efallai'n fwy doniol i blant ei ddarllen. Mae enw'r ysgol sef ysgol Glantagfa yn rhoi'r awgrym cryf i'r darllenwr mai yng Nghaerdydd mae'r ysgol gan fod ysgol yng Nghaerdydd o'r enw Glantaf sy'n swnio'n debyg iawn i Glantagfa. Credaf fod hyn yn effeithiol. Enw cath Huw yw Blac Belt, rwy'n hoff o'r syniad yma gan fod Huw yn cael gwersi jiwdo yn ôl gorchymyn ei dad ac efallai fod hyn yn ychwanegu rhywbeth at y nofel. Er hyn nid wyf yn gweld dim pwrpas i Katrin Kidd gael ei sillafu gyda 'K' oherwydd yn sicr ni wnaeth hyn ychwanegu dim iddo wrth ddarllen y nofel. Mae hyn yn wir hefyd am sillafu dinas fel "Y Ddinas' gyda 'DD' fawr bob amser. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y nofel gwnaeth hyn i mi feddwl beth oedd pwrpas hyn, yn lle beth oedd yn digwydd yn y nofel.

Mi fydd y llyfr yma'n apelio at rai bobl ifanc ond nid wyf yn credu y bydd yn apelio at bawb gan fod pawb yn hoffi mathau gwahanol o lyfrau. Ni chredaf am funud fod y plot wedi symud yn gyflym gan iddo gollu fy niddordeb yn llwyr mewn rhai llefydd yn enwedig gyda'r digwyddiadau yn y twnnel ac ar y draffordd. Ar y llaw arall, mi fwynheais ddarnau eraill o'r llyfr yn fawr.

Mi oedd yna densiwn mewn rhai darnau o'r llyfr gan eich bod eisiau gwybod beth oedd yn digwydd nesaf trwy'r amser. Credaf mai gwendid y llyfr oedd ei fod braidd yn hirwyntog ar adegau, oedd yn colli fy niddordeb fel darllenwr.

Ni allaf ddweud os bydd y llyfr yn boblogaidd gan nad yw'r math yma o lyfrau at ddant pawb. Yn sicr, credaf y bydd yn plesio pobl sy'n hoff o lyfrau ffantasi'n fawr gan fod gymaint o ddigwyddiadau gwallgof ynddi a'r ffaith ei bod yn trafod problemau pobl ifanc yn llwyddiannus.

Ar y cyfan, mwynheais y nofel a byddaf yn ei hargymell i eraill os y buaswn yn meddwl eu bod am ei mwynhau! Rhoddaf chwech a hanner allan o ddeg i'r llyfr!!

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Cyflwyno cynnwys y nofel yn ddiwastraff gan fynegi barn yn gryno**, e.e. 'Dyna felly priif ddigwyddiadau gwallgo'r llyfr!!'.
- **Cefnogi barn â thystiolaeth yn gyson tra'n trafod y plot**, e.e. 'Gwelais y nofel braidd yn hir wyntog gyda'r holl ddigwyddiadau nad oedd eu angen ar y draffordd gyda Huw a Lee . . . Hoffais y diweddglon fawr . . .'
- **Mynegi barn yn aeddfed ar themâu'r nofel**, e.e. '. . . yn gyfle i blant sydd yn bwlio sylweddoli gymaint o effaith mae bod yn gas yn ei gael ar bobl a pha mor isel mae plant yn teimlo pan mae hyn yn digwydd. Credaf fod yr awdur wedi llwyddo i ddangos sut blant sy'n cael eu targedu i'w bwlio, er enghraifft Huw a Gwyn Goch, sy'n gymeriadau od a gwahanol.'
- **Dadansoddi'r cymeriadau mewn dyfnder gan fynegi barn arnyn nhw**, e.e. 'Nid wyf yn credu fod Huw'n gymeriad credadwy o gwbl, mae'n gymeriad o fyd ffantasi sy'n afreal iawn.', **a thrafod yn fanwl gymhlethdod eu personoliaethau**, e.e. 'Mae Huw'n gymeriad amlochrog ac yn gymysgfa o dda a drwg. Enghraifft o hyn yw . . .'
- **Trafod eu cydberthynas â'i gilydd**, e.e. 'Mae Huw a Katrin yn dod ymlaen gyda'i gilydd yn dda gan ei bod hi'n hoffi'r ffaith fod Huw'n wahanol . . . Lee . . . thipyn o genfigen . . . cymeriadau Huw a Kat yn gwrthdaro'.
- **Trafod effeithlonrwydd ac addasrwydd elfennau o iaith ac arddull**, e.e. y drafodaeth ar 'ystlum a oedd yn ddall fel y nos'.

I gyrraedd lefel uwch disgwylid:

Sylwadau manylach a mwy treiddgar ar y modd y cyflwynir ystyr yn ogystal â chroesgyfeirio.

3. Cymharu dwy gerdd (nodweddion o Lefel 8)

Cymharu 'Twm Tatws' gan Eleri Llewelyn Morris a 'F'ewyrth' gan Gwynne Williams

Fel dosbarth, rydym wedi trafod y gerdd 'F'ewyrth', gan Gwynne Williams â'r stori 'Twm Tatws', gan Eleri Llewelyn Morris. Nawr, fe af ati i gymharu y ddau ddarn gan gyfeirio at yr amrywiaeth o dechnegau a ddefnyddir a thrafod y gwahanol nodweddion am y cymeriadau.

Mae y gerdd F'ewyrth gan Gwynne Williams, sydd yn trafod y cymeriad 'F'ewyrth', a'r stori am 'Twm Tatws' gan Eleri Llewelyn Morris yn debyg o ran rhai nodweddion ond yn gwahaniaethu mewn ffyrdd eraill. Tra fo y ddau gymeriad yn ffermwyr, mae Twm Tatws o Ben Llyn tra fod f'ewyrth yn dod o Iwerddon. Caiff y ffaith hyn ei awgrymu gan iddo 'sythu tri o blismyn, yng Ngwylnos Padi Rhydd; mae hyn yn awgrymu fod ganddo gyswllt Gwyddelig.

Er fod y cymeriad Twm Tatws a f'ewyrth yn ffermwyr, yn wahanol i Twm Tatws, mae gan f'ewyrth ddiddordeb penodol mewn marchogaeth a cheffylau, caiff hyn ei fynegi yn aml yn y gerdd, megis yr ymadrodd 'meddyg 'ffylau', a chyfeirir ato yn marchogi 'yr ardal frwynog gyfan' a hynny ar ei ben ei hun, am bedair ugain mlynedd'. Mae hyn, yn ogystal ag iddo allu 'trin stalwyni fel cathod bach' yn dweud wrth y darllenwr ei fod yn un galluog a thalentog. Ar y llaw arall, nid oes sôn i Twm Tatws fod ag unrhyw ddiddordeb na champ arbennig, ond dywedir iddo fod a fferm fach, â gwartheg, ieir a gwyddau.

Tebygrwydd arall rhwng Twm Tatws a f'ewyrth yw eu cyfoeth. Yr un fath yn y ddau ddarn, mae'r awduron yn nodi mai cred pobl o'r ardal yw eu bod yn gyfoethog. Yn f'ewyrth, mae'r ffaith fod y plwyf 'ar bigau'r drain gorfoledd' iddo gyflawni 'y gamp olaf' ac yn 'Twm Tatws', mae ymadrodd yn dweud fod pobl yn meddwl ei fod yn 'berwi mewn arian'. Felly, mae Twm Tatws yn ogystal â f'ewyrth yn cael eu hamau o fod yn gyfoethog.

Yn y stori a'r gerdd, dywedir i'r ddau gymeriad fod yn anghymdeithasol. Yn 'Twm Tatws' caiff y darllenwr ei atgoffa yn aml nad yw Twm yn gymdeithasol, a chred mam Eleri amdano yw nad yw yn hoff o gwmni, 'mae yn hoffi cadw iddo fo ei hun'. Mae yr awdures yn ogystal yn nodi nad yw Twm yn cydymffurfio. Ar yr ochr arall, mae bardd 'f'ewyrth' hefyd yn dweud fod f'ewyrth yn 'ddi-gyfaill a di-wraig drwy 'i oes', sydd fel Twm Tatws o ran natur. Yn wahanol i f'ewyrth, mae y ffaith fod yr awdures yn ei weld fel dyn 'rhyfeddol' a phan fu iddo ei phryfocio drwy ddweud 'dyma fy hogan i, mi gaiff ddod i fyw ata i yng nghlawdd Mieri' yn awgrymu fod Twm yn gyfaill i Eleri. Hefyd, mae arferiad Twm Tatws o fynychu'r siop yn fath o gymdeithasu.

Tra fo f'ewyrth yn ddyn 'pedair llaw ar bymtheg o daldra' ac yn cael ei ddisgrifio fel dyn cryf, nid oes sôn am Twm Tatws ei fod o mewn unrhyw ffordd yn gadarn, sydd eto yn gwahaniaethu y cymeriadau. Tebygrwydd arall rhwng y cymeriadau yw eu diffyg addysg.

Mae'r ddau ddarn hefyd yn debyg gan i Twm Tatws a f'ewyrth gael eu disgrifio yn flin a chas. Yn 'F'ewyrth', mae y plwyf yn ofni ei 'onestrwydd dur, y llygaid oer' tra fo Twm Tatws yn cael ei weld fel un a allai 'droi', gan Mam Eleri. Yn wahanol i f'ewyrth, mae Eleri Llewelyn Morris yn pwysleisio rhyfeddod Twm. Mae amryw o ffeithiau amdano (ei fod yn fudur, yn rhoi sach am ei ben gan gynnwys ei hanes yn ffonio'r ffariar) yn ein gorfodi i feddwl amdano fel un rhyfedd, abnormal, ac mae'r awdures yn ei ddisgrifio fel 'rhyfeddod'.

Wrth edrych ar ddiwedd glo y ddau ddarn, gwelaf fod y ddau gymeriad yn marw. Tra fo f'ewyrth â chwmni, mae absenoldeb Twm Tatws yn y siop yn ddirgelwch.

Wedi edrych ar gynnwys cyfoethog y ddau ddarn, gwelaf fod y gerdd a'r stori yn trafod cymeriadau sydd yn debyg ond yn gwahaniaethu.

Yn y gerdd 'f'ewyrth' gan Gwynne Williams, a'r stori 'Twm Tatws' gan Eleri Llewelyn Morris, defnyddir amrywiaeth o wahanol dechnegau i greu arddull effeithiol. Mae'r ddau ddarn yn debyg ac yn wahanol o ran y defnydd o dechnegau.

Mae 'f'ewyrth' yn dechrau gyda'r ymadrodd 'ceffyl o ddyn' sydd ar unwaith yn taro'r darllenwr gyda darlun o ddyn mawr cadarn. Dyma drosiad addas ar gyfer dechrau'r disgrifiad. Mae Gwynne Williams, yn hytrach, yn rhoi dechreuad effeithiol mewn arddull gwahanol. Dywedir 'fedrai ddim cael Twm Tatws oddi ar fy meddwl' sydd yn syth yn dweud fod y cymeriad yn un trawiadol. Yn wahanol i'r stori, dywedir i f'ewyrth gael ei eni mewn cyfnod penodol. Mae y trosiad, 'cynnyrch y daten fain' yn dweud ei fod yn dod o'r cyfnod.

Techneg a ddefnyddir yn aml yn stori Eleri Llewelyn Morris yw cymariaethau. Mae yr awdures wedi defnyddio cymariaethau effeithiol, sydd yn creu darlun lliwgar o'r cymeriad, Twm Tatws, gan gynnwys yr awyrgylch o'i gwmpas. Enghraifft o hyn yw y gymhariaeth fod Twm yn wahanol i bawb arall. "Fel yr oedd tŷ'r cawr neu'r dewin yn wahanol i dai'r cymdogion mewn straeon tylwyth teg." Ar y llaw arall, dywedir i f'ewyrth allu 'trin stalwyni fel cathod bach' sy'n mynegi ei fod yn gallu trin anifeiliaid mawr fel stalwyni mor hawdd a didrafferth.

Techneg arall y mae Gwynne Williams yn ei ddefnyddio yw cynnwys idiomau, megis fod y plwyf 'ar bigau'r drain' am y gamp olaf. Mae hyn yn datgelu fod pobl yn ysu i f'ewyrth farw, iddynt gael ei arian, mae hyn hefyd yn awgrymu ei fod yn gyfoethog. Yn 'Twm Tatws' yn ogystal, mae yr idiom fod Twm yn 'berwi mewn arian' hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr un sefyllfa, ei fod yn gyfoethog.

Yn y gerdd a'r stori, mae amrywiaeth o wahanol ansoddeiriau effeithiol yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn rhoi golwg manylach, mwy diddorol o'r cymeriadau. Tra bo Eleri Llewelyn Morris yn defnyddio yr ymadrodd 'da da gwyn gwynion' i bwysleisio fod y melysion yn wyn, mae Gwynne Williams wedi defnyddio ansoddeiriau fel 'llygaid oer' sydd yn dweud fod f'ewyrth yn berson caled a fyddai'n fodlon dweud y gwir heb flewyn ar ei dafod.

Wrth edrych ar y gerdd â'r stori, gwelaf fod y dechneg o restru yn cael ei ddefnyddio. Dywedir i Twm Tatws fynd i'r siop ar 'ddydd Llun, Mawrth, Iau, Gwener a Sadwrn, tra fo Williams yn rhestru fod f'ewyrth yn 'bencampwr yr arad, cybydd, meddyg 'ffylau' sydd yn pwysleisio ei fod yn amaethwr gweithgar. Techneg arall a ddefnyddir yn y dda ddarn yw ailadrodd. Yn 'f'ewyrth', nodir aml i

waith iddo fod farchogwr pen ei gamp, megis ei fod yn 'feddyg 'ffylau'. Ar y llaw arall, mae awdures 'Twm Tatws' yn ailadrodd yn yr ymadrodd 'Mae o wedi marw ers naw mlynedd bellach, naw mlynedd union i heddiw'. Mae hyn yn rhoi yr argraff i'r darllenwr nad yw yr awdures yn gallu coelio'r ffaith.

Wedi edrych ar 'Twm Tatws' a 'F'ewyrth' gwelaf fod arddull y ddau ddarn yn amrywio yn gryno o ran technegau ond yn aml yn debyg. Mae y bardd a'r awdures yn rhoi disgrifiadau manwl o fywyd a phersonoliaeth y ddau gymeriad drwy ddefnyddio technegau effeithiol. Gan bod 'Twm Tatws' ar ffurf stori yn hytrach na cherdd, yn amlwg y caiff mwy o dechnegau eu defnyddio. Dyma ddau ddarn hynod o ddiddorol sydd yn debyg ag annhebyg o ran cynnwys ac arddull.

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Croesgyfeirio yn gyson rhwng y ddau destun gan gefnogi casgliad â thystiolaeth**, e.e. 'Tra fo y ddau gymeriad yn ffermwyr, mae Twm Tatws o Ben Llyn tra fod f'ewyrth yn dod o lwerddon. Caiff y ffaith hyn ei awgrymu gan iddo 'sythu tri o blismyn, yng ngwynos Padi Rhydd . . .'
- **Trafod cymhlethdod y cymeriadau mewn dyfnder**, e.e. Twm 'yn hoffi cadw iddo fo ei hun' ond eto 'mae y ffaith fod yr awdures yn ei weld fel dyn 'rhyfeddol' a phan fu iddo ei phryfocio drwy ddweud 'dyma fy hogan i, mi gaiff ddod i fyw ata i yng nghlawdd Mieri' yn awgrymu fod Twm yn gyfaill i Eleri.'
- **Cyflwyno gwybodaeth lawn am y cymeriadau ar ffurf dystiolaeth wrth drafod a chymharu eu nodweddion.**
- **Dadansoddi'r arddull yn fanwl**, e.e. . . . dywedir i f'ewyrth allu 'trin stalwyni fel cathod bach' sy'n mynegi ei fod yn gallu trin anifeiliaid mawr fel stalwyni mor hawdd a didrafferth.

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Sylwadau mwy treiddgar ar y modd y cyflwynir ystyr, ystyried y pwrpas a'r gynulleidfa yn ogystal â mwy o aeddfedrwydd wrth resymu.

4. Cymharu dwy gerdd (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Cymharwch y ddwy gerdd 'Damwain' gan Gwyn Thomas ac 'Er cof am Kelly' gan Menna Elfyn gan sôn am agweddau eu mesur, cynnwys ac arddull

Y ddwy gerdd y buom yn edrych arnynt oedd "Damwain" gan Gwyn Thomas ac "Er cof am Kelly" gan Menna Elfyn. Cerdd sy'n sôn am ddyn ifanc o'r enw Arwyn a gaiff ei ladd mewn damwain car ydi "Damwain". Ar y llaw arall mae "Er cof am Kelly" yn sôn am eneth naw oed sy'n cael ei saethu'n farw gan filwr yng Ngogledd Iwerddon.

Un peth sy'n debyg yn y ddwy gerdd ydi'r mesur. Mae'r beirdd yn y ddwy gerdd wedi defnyddio'r mesur penrhydd a chredaf eu bod eu dau wedi gwneud defnydd effeithiol ohono. Gwelwn hyn yn "Damwain" wrth i'r awdur gymryd mantais o'i ryddid gan amrywio gosodiad y gerdd. Mae'n gosod dwy linell ar wahân i'r gweddill, ac yn y llinellau hynny (mae'n dweud) ar ôl i'r cyflwynydd newyddion sôn am y ddamwain mae'n dweud

"Clywsom ninnau hefyd,
A gwelsom."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'r ddwy linell yma'n golygu llawer yn y gerdd ac mae eu gosod mewn darn llai, ar wahân i'r gweddill yn eu gwneud yn haws i'w deall ac i sylweddoli eu harwyddocâd. Mae rhywbeth tebyg iawn yn digwydd yn "Er cof am Kelly" lle mae'r bardd, yn union fel yn "Damwain" yn amrywio gosodiad y gerdd gan osod dwy linell ar wahân sy'n disgrifio Kelly yn mynd

"... ar elor
angau, - ei noson hwyraf allan."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd, fel yn "Damwain" mae'n gwneud y rhan arbennig yma yn hawdd i sylwi ar ei arwyddocâd.

Un peth sy'n debyg am deitl y ddwy gerdd ydi bod y ddau deitl yn awgrymu bod y cynnwys yn mynd i fod yn drist. Mae "Damwain" yn syth yn awgrymu rhywbeth fel damwain car ond does dim sicrwydd beth yw canlyniad hyn, ond ar y llaw arall mae "Er cof am Kelly" yn cyfleu yn syth fod marwolaeth wedi digwydd a bod y gerdd hon yn mynd i fod yn deyrnged i Kelly. Credaf mai teitl "Er cof am Kelly" yw'r mwyaf effeithiol oherwydd mae'n fwy pendant ac mae'n ennyn ein chwylfrydedd a gwneud i ni ysu am gael gwybod pwy oedd Kelly a sut y bu farw.

Un peth sy'n annhebyg am gefndir y cerddi yw'r lleoliad. Mae "Damwain" wedi'i lleoli yng nghefn gwlad Cymru ond ar y llaw arall mae "Er cof am Kelly" wedi'i lleoli ar strydoedd Belffast yng nghanol trafferthion gwleidyddol Gogledd Iwerddon. Ar y llaw arall un o'r pethau tebyg am gefndir y cerddi ydi bod y ddwy yn sôn am farwolaeth person ifanc gydag Arwyn yn "Damwain" yn cael ei ddieithrio "gan angau" a Kelly yn y gerdd arall yn mynd "ar elor angau." Rhywbeth arall annhebyg yn y cerddi ydi achosion y marwolaethau. Mae marwolaeth Arwyn yn "Damwain" yn cael ei achosi fwy na thebyg (er nad ydym yn gwybod yn sicr) wrth i Arwyn or-yrru a cholli rheolaeth o'r car. Mae hyn yn amlwg yn gamgymeriad personol. Ond ar y llaw arall, yn "Er cof am Kelly", cam-gymeriad gan rywun arall, sef y "glas-filwr", yw'r farwolaeth wrth iddo fo gam-gymryd y botel lefrith yn llaw Kelly, am fom betrol fel y rhai oedd yr IRA'n eu defnyddio yn y cyfnod yma.

Yn agoriad "Damwain" mae'r ddamwain wedi digwydd yn barod a'r olygfa'n dilyn hyn sy'n cael ei ddisgrifio i ni; y

"gwaed yn goch ar y modur gwyn

Ac Arwyn yn wastraff ar hyd y ffordd"

a gweddill yr erchyllbeth yma. Drwy'r pennill cyntaf gosodir Arwyn a'r car gyda'i gilydd fel

"Ar y metel yn grafion mae darnau o groen" a

"phicellau gwydr a gwythiennau."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod y ddamwain mor ddifrifol nes bod Arwyn a'r car bellach yn un gybolfa farwaidd. Yn wahanol i hyn yn "Er cof am Kelly" mae'r agoriad yn ddigon diniwed gyda

"Geneth naw mlwydd

ar gymwynas daith"

i nôl peint o laeth. Ond yna, gwelir y drychineb yn digwydd gyda mam Kelly yn

"ei gweld yn cerdded

a chwympo"

gyda "bwled wedi'i bwrw." Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n pwysleisio breuder bywyd. Mae un eiliad yn gallu newid bywyd pawb – roedd Kelly am fynd â'r llaeth i'r cymydog ac yna mynd yn ôl adref, ac ni fyddai hyn yn unrhyw beth arbennig. Ond ar yr un eiliad, yr un foment fach y penderfynodd y milwr saethu, rhoddwyd diwedd di-symwth i fywyd Kelly.

Un peth sy'n annhebyg rhwng canol y ddwy gerdd ydi bod un â llawer iawn mwy'n digwydd ynddi. Yn "Damwain" disgrifir diwedd bywyd Arwyn, wrth iddo gael ei rwygo ar

"hyd y tar macadam

A'r haearn a'r maen."

a thywalltwyd ef "ar y ddaear" a "daeth adnabod i ben yn y deugain llath" ble llusgwyd ef ar hyd y llawr. Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n pwysleisio bod bywyd yn fregus iawn gan mae dim ond deugain llath gymrodd hi Arwyn beidio bodoli ac mae'n ein taro y gallai hynny ddigwydd i ni yn eithaf hawdd. Yn wahanol i hyn, yn "Er cof am Kelly" mae'n llawer mwy cynhyrfus wrth i ni gael ymatebion y bobl oedd o gwmpas wrth i'r drychineb ddigwydd. Yn gyntaf mae'r "glas-filwr" a saethodd Kelly yn sylwi ar beth a wnaeth ac mae'n gweiddi "my God it's only a little girl" ac yna

"Moesymgrymodd.

Meidrolodd.

Ei mwytho yn ei gledrau."

Teimlaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae milwyr fel arfer yn cael eu darlunio fel pobl ddi-dostur, ddi-gydymdeimlad. Ond yma, mae symudiadau'r milwr yma'n dangos ei fod yn teimlo'n euog am ei gamgymeriad a'i fod yn tosturio a chydymdeimlo gyda Kelly a'i fod yn fod dynol fel chi a fi. Ymateb y cymydog i'r digwyddiad oedd gweiddi mewn cynddaredd:

"get your dirty hands off".

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos gwylltineb y cymydog tuag at y milwr gan iddo saethu merch fach ddiniwed. Hefyd mae'n dangos efallai bod y cymydog yn teimlo euogrwydd oherwydd petai o heb ofyn i Kelly fynd "ar gymwynas daith" yna fyddai dim o hyn wedi digwydd ac mae'n ddigon posib ei fod yn beio'i hun am y farwolaeth. Mae ymateb mam Kelly'n ddiddorol oherwydd yn hytrach na gweiddi ar y milwr mae hi'n

"ymbil am ei gymorth cyntaf – olaf."

Credaf fod hyn yn drawiadol oherwydd er ei bod hi'n sicr ei bod yn flin gyda'r milwr, mae hi'n neidio ar unrhyw obaith i achub ei merch. Hefyd mae'n effeithiol oherwydd mae'r gair "olaf" yn awgrymu nid yn unig mai dyma'r cymorth olaf mae hi am i'r milwr ei roi i Kelly, awgryma hefyd mai dyma'r cymorth olaf y bydd ei angen byth.

Un peth sy'n annhebyg am ddiweddglo'r cerddi ydi bod peth amser yn mynd heibio cyn y pennill olaf yn un gerdd tra bod ond ychydig oriau'n mynd heibio cyn pennill olaf y llall. Yn "Damwain" dim ond ychydig oriau sydd wedi mynd heibio gyda'r newyddion am y ddamwain yn cael ei adrodd ar y newyddion.

Mae'r cyflwynydd yn dweud

"fod damwain wedi digwydd heddiw

Ar y ffordd yn y fan-a'r-fan

Pan aeth cerbyd hwn-a-hwn o'r lle-a'r-lle

I wrthdrawiad â'r clawdd"

Ychwanegir wedyn

"Clywsom ninnau hefyd

A gwelsom."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos nad ydi'r cyflwynydd newyddion wir yn poeni am y stori mae o'n ei hadrodd. Doedd o ddim yn adnabod y person a laddwyd a dydi'r digwyddiad ddim yn effeithio arno fo o gwbl. Ond mae'r ddwy linell ar y diwedd yn llawer mwy personol gan ei bod yn dod gan deulu a ffrindiau a theulu Arwyn gan eu bod nhw'n gweld a chlywed y dioddefaint a achoswyd gan y ddamwain. Ar y llaw arall, yn "Er cof am Kelly" mae dyddiau wedi mynd heibio ers y saethu a mae hi bellach yn ddiwrnod yr angladd:

"Gwisgodd amdani ei ffrog pen-blwydd

dodi losin yn ei harch

y tedi budr a anwesodd o'i chrud,

ac aeth ar elor

angau, - ei noson hwyrall allan."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'r pethau a roir yn ei harch yn dangos fod Kelly yn union yr un peth ag unrhyw ferch arall ym Melffast, ond mae hyn i gyd yn chwalu pan gaiff ei saethu ac mae hyn yn dangos eto pa mor frau yw bywyd. Hefyd, mae'r ddwy linell olaf yn dweud na ddaw Kelly byth yn ôl a'i bod hi wedi mynd ar ei noson hwyrall un.

Rhywbeth sy'n debyg am arddull y ddwy gerdd yw bod yna gymariaethau yn y ddwy. Un gymhariaeth yn y gerdd "Damwain" ydi

"Cerrig wal, a'r car arnynt fel sgrech."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd yn union fel mae sgrech go iawn yn torri ar draws distawrwydd, roedd y ddamwain yn torri ar draws distawrwydd a llonyddwch ei lleoliad. Hefyd, mae'r bardd yn cyfodod Arwyn a'r car unwaith eto gan gofio am sgrech y teiars, y brêcs ac Arwyn ei hun. Enghraifft o gymhariaeth yn "Er cof am Kelly" ydi ar ôl i Kelly gael ei saethu mae

"gwydr fel ei chnawd yn deilchion"

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd, fel sy'n digwydd dro ar ôl tro yn y gerdd, pwysleisir fod bywyd, fel gwydr, yn hawdd ei dorri.

Rhywbeth arall tebyg am arddull y ddwy gerdd ydi bod yma gyflythrennu yn y ddwy. Un enghraifft o gyflythrennu yn "Damwain" ydi wrth ddisgrifio'r car dywed y bardd

"Ar y metel yn grafion mae darnau o groen."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'r "yr" yn gwneud sŵn anghynnes sy'n gweddu i'r olygfa i'r dim. Enghraifft arall o gyflythrennu yn "Damwain" ydi wrth ddisgrifio diwedd bywyd disgrifir Arwyn fel

"bachgen byw."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n disgrifio personoliaeth fywiog Arwyn ac mae'r cyflythrennu yn tynnu sylw at y personoliaeth ganmoladwy yma ac yn gwneud yn siŵr nad ydi'r sôn amdano yn mynd ar goll yng nghanol pob dim arall.

Enghraifft o gyflythrennu yn "Er cof am Kelly" ydi pan mae'r bardd yn sôn am Kelly'i hun mae'n dweud fod "bwled wedi'i bwrw". Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae "b" yn lythyren lonydd, ddi-gynnwrf, ddi-fywyd – sef yn union fel mae Kelly'n awr.

Enghraifft arall o gyflythrennu ydi wrth i'r milwr sylwi ar ei gamgymeriad

"Moesymgrymodd

Meidrolodd."

Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'r llythyren "m" yn cysylltu'r geiriau ac felly'n cysylltu symudiadau'r milwr gan eu cadw'n fyr ac yn gryno.

Mae yna hefyd ansoddeiriau effeithiol yn y ddwy gerdd. Gwelwn hyn yn "Damwain" wrth i'r bardd ddweud fod y

"meclin yn llithrig gan einioes."

Credaf fod hyn yn drawiadol oherwydd gwaed Arwyn sydd yn gwneud y meclin yn llithrig go iawn, ac mae hynny'n dangos unwaith eto erchylltra'r ddamwain gan byddai rhaid iddi fod yn eithaf difrifol i waed Arwyn ddod allan o'r car ac ar hyd y cerrig.

Enghraifft o ansoddair yn "Er cof am Kelly" ydi wrth ddisgrifio'r milwr mae'r bardd yn ei alw'n "las-filwr." Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dweud fod y milwr yn ifanc ac yn awgrymu nad ydi o'n ddigon aeddfed a phrofiadol i wasanaethu mewn lle treisgar fel Gogledd Iwerddon lle mae o'n siŵr o weld pethau graffig anaddas i fachgen sydd wedi cael ei hudo i'r fyddin oherwydd diflastod bro ei febyd.

Enghraifft arall o ansoddeiriau yn "Er cof am Kelly" ydi pan mae'r cymydog yn gweiddi ar y milwr:

"get your dirty hands off."

Mae'r ansoddair "budr" hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio "y tedi budr a anwesodd (Kelly) o'i chrud."

Credaf fod y ddau enghraifft angen y llall i'w wneud yn effeithiol er mwyn iddynt gyferbynnu â'i gilydd. Mae'r enghraifft cyntaf yn awgrymu'r math o fryntni "budur" na fyddech chi'n hoffi iddo'ch cyffwrdd. Ond mae'r ail enghraifft yn golygu "budur" mewn ffordd mwy annwyl gan ei fod yn dangos cariad Kelly tuag at y tedi gan na fyddai hi'n ei ollwng o'i gafael er mwyn iddo gael ei olchi rhag iddi'i golli.

Sylwebaeth

Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Mynegi syniadau yn aeddfed tu hwnt**, e.e. 'Drwy'r pennill cyntaf gosodir Arwyn a'r car gyda'i gilydd fel . . .' "Ar y metel yn grafion mae darnau o groen" a "phicellau gwydr a gwythiennau". Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod y ddamwain mor ddifrifol nes bod Arwyn a'r car bellach yn un gybolfa farwaidd.'
- **Deallusrwydd arbennig o'r hyn sydd ymhlyg mewn testun**, e.e. pan drafodir elfennau haniaethol fel euogrwydd y milwr a'r cymydog, cydymdeimlad, gwylltineb, tristwch.
- **Treiddgarwch wrth ddadansoddi arddull**, e.e. y 'glas filwr' 'Credaf fod hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dweud fod y milwr yn ifanc ac yn awgrymu nad ydi o'n ddigon aeddfed a phrofiadol i wasanaethu mewn lle treisgar fel Gogledd Iwerddon.'
- **Craffter**, e.e. pan drafodir y defnydd o 'dirty' a 'budr'.
- **Croesgyfeirio yn gyson mewn dull sy'n llifo**, e.e. 'Un peth sy'n debyg; ond ar y llaw arall . . .'
- **Mynegi dealltwriaeth lawn o bwrpas y cerddi a'u heffaith ar y gynulleidfa.**

5. Cymharu dwy gerdd (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Cymharu'r ddwy gerdd 'Hiroshima Ddoe a Heddiw', Emrys Roberts a 'Croeso i Irac,' Rhys Iorwerth.

Cymharu dwy gerdd

Pwnc y cerddi hyn yw effaith rhyfel ar bobl yr orddal. Mae'r gerdd 'Hiroshima Ddoe a Heddiw' efn am ddigwyddiad fynyddoedd yn 31 yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac adrodda 'Croeso i Irac' hanes y wlad heddiw. Yn dechrau'r gerdd, mae Emrys Roberts yn rhoi cymdeby o beth ddigwyddodd yn Hiroshima ar Awst 6, 1945, cyn symud ymlaen i ddisgrifio'r bom atomig erchyll yn y gerdd. Yn fy marn i, mae hyn yn effeithiol oherwydd mae'n goad yr alysfafn syth fel ein bod ni'n deall beth sydd digwydd cwn dechrau darllen y gerdd. Yn yr ail gerdd, nid y Rhys Iorwerth yn rhoi cymdeby o'r sefyllfa, ond y mynd yn syth i mesur i'r gerdd a disgrifio'r rhyfel yn Irac.

Mae mesurau'r ddwy gerdd yn hollol wahanol. Cerdd yw 'Hiroshima Ddoe a Heddiw'. Nid oes rheolau pendant iddi, felly mae'n llifo'n rhywydd iawn. Mae 'Croeso i Irac' yn gerdd goeth, ac yn gwydd guda seith sillaf ym mhob llinell. Mae yna ~~gynghanedd~~ cynghanedd yn y gerdd yma: yr un crau yn fy marn i yw "ludw'n llond darllediad". Mae'r bardd yn aiddesu'r llythrennau "ll" a "d" i roi naws cas a ~~ffurfiol~~ ffurfiol. Un arall yw "Chrys a mwg a lluch a sment". Y llythrennau pwysig yn y llinell yma yw 'ch', 's' a 'm'. Mae rhain befyd yn cael naws erchyll, yn enwedig y sŵn 'ch'.

Rhannir 'Hiroshima Ddoe a Heddiw' yn dduu ran yn y disgrifio ddoe ar lall yn son am heddiw. Yn y rhan gyntaf, mae'r bardd yn trafod yr effeithiau ar y pyd er eghraiffe "Cawod fel re o radioactif ludw".

yn boer a luch mân" Yna a ymlaen i drafod yr effeithiau hir-dymor yn yr ail ran "Heddiw unwaith y flwyddyn, i law yr afen honno daw garumdaeth hir a lantemier kwgrnas" Mae hyn yn dechreu dda yn fy marn i, oherwydd efallai na all ein cenhedlaeth ni gysylltu â'r rhai guntaf oherwydd ei fod yn ein berthnes and ddiwydddarllen yr ail ran, gallwn gydymdeall gyda'r holl bobl sy'n dal i ddirodded heddiw.

Egyr Emrys Roberts er gerdd a linell ddramatig iawn. "Ddce, parchyswyd y ddceas" Mae hyn yn rhoi sgrinad i nia syth o'r effaith a gafodd y bom atomig yma ar y byd llyth ddefnyddio'r gair "parchyswyd" mae rhoi'r argraff fod pawb wedi stopio, ac nid pobl Japan yn unig, and y ddcear i godd. Nid yw Rhys Iorwerth wedi dechrau ei gerdd yn ddramatig iawn, felly ar ôl darllen dim and ddiwydddarllen guntaf y ddiwydd gerdd, Hiraethima, Ddce a Heddiw' sy'n guntaf i mi ysu am gael darllen ymlaen.

Defnyddia Emrys Roberts gyffelybiaethau i ddefnyddio ei ddatganiadau; disgrifio'r amwyl a fel "modarch anferth wedi'r sport o'r chwertin". Nid yw Rhys Iorwerth yn defnyddio gyffelybiaethau yn "Croeso i Irac", and mae yna ambell drosiad ynddi, yr un onau yn fy marn i ydy'r sgarbwd yn cor arall yn fud ar ôl herio'r Fall. Mae hon yn arddercheg oherwydd mae'n dangos mai dim and adferion y cor sydd ar ôl pan gânt eu targedu gan hunan-fomyr. Ond mae'r fraiddiaeg yma hefyd yn oferia at y dirodded yn yr arddercheg yma. Dim and sgarbwd ydynt hwy erbyn hyn gan fod y brais wedi cipio eu heneidiau. Mae'r gair "y fall" yn cael ei ddefnyddio yma, sy'n ddiwydddarllen fod y bobl yn Irac yn byw mewn uffern, ac nad oes ganddynt ddiwydddarllen a fynydd hapus. Y trosiad yn apelio fwyaf ataf

yw "y lludw yn ambarel uwch mawnt" oherwydd mae'n creu darnau byw yn ei meddyliau o'r corff du ~~oed~~ yn gorchuddio'r adings, and hefyd mae yna eironi gald, gan mai amodiffyn pobl fuad ambarel fel arfer. Defnydd arall o eironi yn y gerad yma yw "A hithawr afon, lle nafia'r plant yn llan ei lli, yn gelanedd chwyddedig i'w glannas" y peth eironig ondani yw fod y plant yn dderf mwyndha chwarae yn yr afon yma, and nawr mae'n llawn o'u corff lla. Aren gfflythrenu gyda geiriau byr a sioc yn dechrau gyda "i" mae Emrys Roberts yn cyfnewt plenigred, and mae "i" hefyd yn medru bod yn "llin" oae, felly mae'n swmia'n fflythiologr an pnd Enghraifff arall o gfflythrenu yn "Hirashima Dobe a Heddiu" yw "y du dawelwch diadeidat". Mae'r llinell yma efferthol oherwydd mae ganddi rhythm, ac mae'n adreid y stori i gyd mewn tri gair. Yn gyntaf deith y mawnt set y "du" yma'r "dowelwch" pan ~~oed~~ pawb mewn soc a ddim yn gwybod beth i'w wess, ac yma'r "diadeidat" doed dim ar ol yno papeth wed ei adinistria gan y "ffym a daddodd prag".

Y Echygrwydd rhwng y ddwy gerdd gair cyfeirio ac grefydd, mae'r ddau fardd yn disgrifio'r ollyfa ~~ollyfa~~ fel moment oherwydd fod pawb wedi marw. Sonia Emrys Roberts am "oedfa'r brotest" yn ei gerdd ynta, oherwydd fod pawb yn mynd yno i dafro ac i weddio fel syn diwydd mewn capel.

Mae gan y ddau fardd agwedd wahanol at drais a rhyfel. Yn "Hirashima Dobe a Heddiu" mae Emrys Roberts yn son am sut mae pobl Japan wedi madda i America am chwahu en bywyddau a'u bod yn dysgu eu plant i gasau rhyfel "lle bu atgasedd, taer ydyr' wedd, a geiriau ~~o~~

am hedd yw gŵyn eiddoer eu henyn cri ar ifanc rhag
rhyfel. Mae tŷgation Hiroshima yn ceisio gadael
hyn y tu ôl iddynt ond gŵyn y bardd na fyddan
byth yn ei anghofio. Cannoedd ifanc a'u cannyll
yn blisio eto i'r union fan lle gwaredodd yr afon
fawr. Mae hyn yn eu hatgoffa o'r hall waed a
gollwyd yn 1945. Ar y llaw arall, mae Rhys Iorwerth
yn dderbyddio ei gerdd 'Croeso i Irac' i Fynegi ei
ddicter am y sefyllfa yno. Yn y ddiwedd bennill gytat
maen ddrif olygfa i ni ac ynd yn y bennill olaf
maen gwneud i ni deimlo cwilydd am nad ydym
yn gwneud digon dros y dioddefwyr yn y Dwyrain.
Yna'n ôl o'r llych awn ni i'n bynyddau heb boeni.
Mae hyn yn berffalith wir, rydym ni'n cyweld yr hall
streich or y neyddion ac yn y papurau am y
bynyddau erchyll, mae pobl Irac yn eu bys, ac yna
mynd yn ôl i'n bynyddau moethus heb boeni dim.
Yr hyn sy'n gwneud 'Hiroshima, Ddoe a
Heddiw' yn effeithiol yw trafod yr effeithiau byr a
hir dymor. Mae'r bardd yn dderbyddio nifer o
eiriau dramatig fel 'parlysiwyd', 'Anwydrodd' a 'bundel
di-siap o waed'. Sy'n effeithiol gan mai rhyfel yw'r
tostun. Ond yna mae'r gerffyn yn dawel gyda "ar
ll, mor llygar a fflant", sy'n gyrru tŷs oer i lawr
ochr oer. Mae 'Croeso i Irac' yn apelio ataf yn fawr
cherwydd mai dim ond cywydd fach fair bennill
ydy hi, mae'n dalgen hir i drasglwyddolr neges
cowsig yn ôl Llywodraeth mwyaf y gerdd, yn fy
nagm i yw'r diwedd. Mae mor suml, ond eto mor
effeithiol. Felly er mai 'Hiroshima, Ddoe a Heddiw'
sydd â'r disgrifiadau a'r nodweddion arddull geraw, y
gerdd orau a mwyaf effeithiol yw 'Croeso i Irac'.
Cherwydd y cyfnder â'r neges ardderchog sydd y tu ôl iddi.

Sylwebaeth


Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ymateb yn aeddfed i destunau heriol**, e.e. 'Rhannir 'Hiroshima, Ddoe a Heddiw' yn ddwy ran, un yn disgrifio ddoe a'r llall yn sôn am heddiw . . . Mae hyn yn dechneg dda yn fy marn i, oherwydd efallai na all ein cenhedlaeth ni gysylltu â'r rhan gyntaf oherwydd ei fod cyn ein hamser, ond drwy ddarllen yr ail ran, gallwn gydymdeimlo gyda'r holl bobl sy'n dal i ddiodeff heddiw.'
- **Treiddgarwch wrth fanylu ar effeithiolrwydd technegau arddull**, e.e. . . . 'Croeso i Irac' . . . "a sgerbwd un car arall yn fud ar ôl herio'r fall". Mae hon yn ardderchog, oherwydd mae'n dangos mai dim ond adfeilion y ceir sydd ar ôl pan gânt eu targedu gan hunan-fomwyr. Ond mae'r frawddeg yma hefyd yn cyfeirio at y dioddefwyr yn yr ardaloedd yma. Dim ond sgerbydau ydynt hwy erbyn hyn, gan fod y trais wedi cipio eu heneidiau. 'Eir ymlaen i fanylu, 'Mae'r gair "y fall" yn cael ei ddefnyddio yma sy'n dweud wrthym fod y bobl yn Irac yn byw mewn uffern, ac nad oes ganddynt obaith o fywyd hapus.'
- **Dealltwriaeth lawn o effaith a phwrpas eironi.**
- **Trafod agweddau'r beirdd yn hyderus a'r effaith ar y gynulleidfa**, e.e. ' . . . mae'n gwneud i ni deimlo cywilydd am nad ydym yn gwneud digon dros y dioddefwyr yn y Dwyrain . . . mynd yn ôl i'n bywydau moethus heb boeni dim.'
- **Croesgyfeirio wrth drafod pob agwedd.**

2

Deunydd anllenyddol

6. Deunydd yn trafod hanes Llywelyn a Gwenllian (nodweddion o Lefel 7)



3. Yn fy nam i, y digwyddiad hysbaf yn hanes Llywelyn ap Gruffudd a Gwerllian oedd ~~o~~ manwlaetho Eflwr cle Montfort. Yn yr erthygl mae'n dweud:

Hanes byrionebus ym hanes o'r mawrdd cyntaf yn, part fu farw o'm mam ar ei genedigaeth.

Geddf, bod hyn wedi effeithio ar Gwerllian ac ar Llywelyn. Ond nid roddd y bistrach yn ddefnydd i Gwerllian. Fe bladdwyd ei thad yn Rhugbyr 1282 gan gwmni o filwyr Edward. Dorr And yn hanner mlynedd oed.

4. Yn yr erthygl "Y Dwygwyn Goll", mae modd adnabod beth ydych chi agwedd yr awdur at ei destun gyda'r arddeduriau mae'n ddefnyddio. Rydych chi'n gweld yn cyth bod yr awdur yn hysbaf dros Gwerllian a'is hanes. I gyho mae'n cyfrio at hanes Gwerllian fel tomali nus, byrdinebus a hyst. Mae hysbaf yn ~~o~~ caemod yr enw Gwerllian. Mae'n dweud bod yr enw yn hysbaf. Mae'n hysbaf i gyfrio i'r goll Gwerllian. Ond, mae hysbaf yn dangos agwedd hollol wahanol hysbaf at Edward I.

Yn ymair awdur, hysbaf personaf Edward I oedd i Gwerllian hysbaf mawr fel eu hysbaf, Llywelyn ap Gruffudd. Mae awdur yn cyfrio at Edward I^o fel hysbaf. Mae'n dweud ymair yn dangos agwedd yr awdur hysbaf at y brenn hysbaf ymair.

Aquedid olaf yr awduer yw ei ddiwladu
hwy at y ddeug wlad, Gyron a Dvegr. Mae
awduer yn cyfeirio at ddiwlad Dvegr fel gwestaddd
arwiddod. Ond nid yw'r awduer yn meddwl yr
wr peth am Gyron. Mae awduer yn cyfeirio at
ei wlad fel "myrddodded cadarn" Mae ddiwlddi
craf hyn yn awgrymu mai gwestaddd yw'r awduer.

5. Ffurf 'Uyrdlyn Eir Dvegr Olaf' yw ffurf i ffurtau
Rydlyn yn gwestaddd hyn ddiwlddi nid yw pob gwestaddd
mewn brawddeg llawn. Mae darn hyn yn ddiwlddi
ffurtau. Defyd, mae'r awduer hanes Uyrdlyn ap Gwestaddd
yn gyron. Mae'r llawer a wyloddath wedi i gyfnewid.

Ffurf brawddeg yw 'Dyddiau Gyron i Gyron'.
Rydlyn yn gwestaddd hyn ddiwlddi mae'r awduer
gwestaddd hyn brawddegau llawn. Mae hwyd
yn ddiwlddi gwestaddd a ffurf gwestaddd brawddeg.
Berfwr sydd ar flaen pob gwestaddd brawddeg. Rhaid
cael berfwr ar gyfnewid pob gwestaddd brawddeg ar
mewn awduer's gwestaddd ee.

Symul ymlaen: awduer's
awduer's brawddeg

Mae berfwrwr yn brawddeg ddiwlddi purpas yr awduer
odd dangos gwestaddd ddiwlddi yr hyn mae
berfwrwr yn a wneud.

Ffurf y darn olaf yw erthygl. Rydlyn yn
gwestaddd hyn ddiwlddi mae awduer's ddiwlddi yr
cael eu gyronys. Mae'r ddiwlddi awduer's ond
cyfnewid ffurtau ac wyloddath mae awduer's hyn bod
diiwlddi yr cyfnewid hanes. Ar gyfnewid y awduer's
mae hysaw sy'n cyfnewid y ddiwlddi ee.

Gwestaddd i diwlddi ddiwlddi.

Purpas yr awduer yw purpas ddiwlddi i
gyfnewid gwestaddd ddiwlddi.

Sylwebaeth

Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Dangos dealltwriaeth o'r modd y cyflëir ystyr**, e.e. 'Yn yr erthygl "Y Dywysoges Goll", mae modd adnabod beth yw agwedd yr awdur at ei destun gyda'r ansoddeiriau mae'n ddefnyddio. Rydych yn gweld yn syth bod yr awdur yn tosturio dros Gwenllian a'i hanes. I gychwyn mae'n cyfeirio at hanes Gwenllian fel torcalonus, trychinebus a trist. Mae hefyd yn canmol yr enw Gwenllian . . . Mae'n trio eich perswadio i gydymdeimlo gyda Gwenllian. Ond, mae hefyd yn dangos agwedd hollol wahanol tuag at Edward I.'
- **Mynegi barn yn ddeheuig drwy gyfeirio at gynnwys, iaith ac arddull**, e.e. 'Ffurf 'Llywelyn Ein Llyw Olaf' yw ffeil o ffeithiau . . . Mae'r darn hwn yn rhestru ffeithiau. Hefyd, mae'n adrodd hanes Llywelyn ap Gruffydd yn gryno. Mae'n llawn o wybodaeth wedi i grynhoi. Ffurf traethawd yw 'Dyddiau Gwych i Gymru' . . . Mae hefyd yn rhestru gwybodaeth ar ffurf pwynt bwled. Berfenw sydd ar flaen pob pwynt bwled . . . e.e. ' . . . Symud ymlaen i oresgyn' a 'meddiannu tiroedd.' Mae'r berfenwau yn bwysig oherwydd pwrpas yr awdur oedd dangos gweithredoedd Llywelyn . . . Ffurf y darn olaf yw erthygl . . . Mae'n debyg iawn i araith . . . Ar gychwyn y cwestiynau mae berfau sy'n cyfarch y darllenwyr, e.e. 'Gadewch i ni ddychmygu.' Pwrpas yr awdur yw perswadio'r darllenwr i gytuno gyda'i deimladau.'
- **Cywain, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol**, e.e. 'Rydym yn dysgu llawer am Llywelyn ap Gruffydd a'i deulu. Roedd ei deulu yn deulu pwysig iawn, yn brwydro er mwyn ceisio creu Cymru annibynnol . . . Yn 1267 fe arwyddodd Llywelyn ap Gruffydd gytundeb Trefaldwyn . . . Yn fy marn i, y digwyddiad tristaf yn hanes Llywelyn ap Gruffydd a Gwenllian oedd marwolaeth Eleanor de Monfort . . . Ond nid oedd y tristwch yn darhod i Gwenllian. Fe laddwyd ei thad yn Rhagfyr 1282 gan gwmni o filwyr Edward.'

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Mwy o enghreifftiau o gefnogi barn â thystiolaeth o'r testun a chynnwys mwy o fanylion wrth ddadansoddi.

7. Deunyddiau amrywiol am foddi Tryweryn (nodweddion o Lefel 7)

Ymateb i ddarllen anllenyddol – deunyddiau amrywiol am foddi Tryweryn

1. Rwyf newydd orffen darllen 'Chwalfa Tryweryn' a'r araith 'Cofiwch Dryweryn' gan ddau berson gwahanol. Mae'r ddau sef yr erthygl a'r araith yn rhoi eu barn ar foddi Cwm Celyn er mwyn gwneud cronfa ddŵr i Lerpwl yn yr 1960au.

Mae awduron y ddau ddarn yn erbyn boddi cwm Tryweryn, a byddaf yn gyntaf yn edrych ar eu rhesymau dros fod yn erbyn yr ymgyrch yma. Yn yr erthygl 'Chwalfa Tryweryn' mae'r awdur Elwyn Edwards yn edrych yn ôl ar ei blentyndod pan glywodd am y tro cyntaf fod cartref ei daid – Capel Celyn yn cael ei foddi. Ar y dechrau, ni gredai'r awdur fod y sibrydion o foddi'r cwm yn wir wrth iddo ddweud;

“Ni chymerais y sibrydion hyn o ddifri ar y pryd gan na feddyliais y byddai'r fath ddinistr yn bosibl ond yr hyn y sylweddolwn oedd mai cenedl wedi ei chaethiwo oedden ni.”

Credaf fod ei farn yn fan hyn yn hollol wir gan fod Cymru, sef gwlad fychan iawn yn cael ei chaethiwo gan Lloegr sef gwlad fawr iawn. Cred yr awdur ein bod yn cael ein rheoli gan Lloegr ac nad yw ein barn ni fel Cymry'n bwysig o gwbl. Mae hyn yn dal i fod yn wir hyd heddiw a credaf fod ei bwynt yn un da a chryf iawn.

Gwyddwn fod Elwyn Edwards gyda barn cryf iawn yn erbyn boddi'r cwm wrth iddo ddweud ei hanes yn colli diwrnod o ysgol er mwyn mynd i Lerpwl i brotestio –

“Penderfynais beidio â mynd i'r ysgol y diwrnod hwnnw a bod yn rhaid i mi fynd i Lerpwl i brotestio yn erbyn eu cynllun gwallgo.”

Fel llawer o bobl eraill a fu'n protestio, cred y mwyafrif o Gymry fel yr awdur, fod y syniad hwn o foddi Cwm Cymreig oedd gyda hanes, diwylliant a Chymreictod yn wallgof ac yn syniad hollol wirion. Gwylltiodd Elwyn Edwards fwy wrth iddo gael andros o ffrae gan y prifathro am golli diwrnod o ysgol er mwyn mynd i Lerpwl i brotestio –

(prifathro'n siarad yn Saesneg) “golli'r ysgol i fynd i Lerpwl i wastraffu amser ac i brotestio yn erbyn boddi rhyw hen le sâl fel Cwm Celyn.”

Yn fan hyn teimlodd yr awdur yn gryf na fyddai gansen honno a gafodd gan y prif yn gwneud ei gariad at ei wlad ai bobl byth yn gorffen. Yn wir, roedd gan Elwyn Edwards farn cryf iawn ynglŷn a boddi Cwm Celyn a oedd yn gwm gyda llawer o hanes yn perthyn iddi.

Rwyf nawr am siarad am yr araith – ‘Cofiwch Dryweryn’. Wrth ddarllen brawddeg agoriadol yr araith gwyddwn yn syth fod barn yr awdur yn un eithriadol o gryf wrth iddo ddweud –

“Rydw i yma heddiw i drafod y gwaith hwnnw yn ein hanes fel Cymry, sef boddi Tryweryn.”

Wrth ddefnyddio'r gair 'gwarth' sy'n eithaf pwerus, gwyddwn yn syth ei fod yn erbyn boddi Tryweryn. Credaf fod dechrau'r araith ganddo yn un afaelgar iawn sy'n dal sylw'r gynulleidfa'n syth. Mae'r awdur wedyn yn mynd ymlaen i ddweud pwynt cryf iawn sef –

“boddi cymuned cwbl Gymreig a hynny am fod dinas Lerpwl eisiau cronfa ychwanegol o ddŵr.”

Rwy'n cytuno gyda barn yr awdur yn hollol fan hyn wrth iddo esbonio fod cymuned fechan Gymreig oedd yn cynnwys ysgol, capel, siop, llythyrdy a ffermydd wedi cael eu boddi a'r cwbl oherwydd fod angen cronfa ddŵr i ddinas Lerpwl. Mae'r awdur wedyn yn mynd ymlaen i ofyn cwestiynau i'r gynulleidfa e.e. –

“Meddylwch o ddifri, oedd hi wirioneddol yn argyfwng dwr ar y ddinas?”

Ei farn felly mewn gwirionedd oedd nad oedd wir angen cronfa ddŵr ar ddinas Lerpwl gan iddo gredu nad oeddent mewn argyfwng o gwbl. Mae'r awdur yn teimlo'n gryf am hyn gan roi barn gadarn iawn wrth iddo ddweud –

“Roedd hen ddigon o ddŵr gan Lerpwl yn 1965 i gyflawni anghenion y ddinas.”

Mae'r awdur dal i feddwl hyd heddiw nad yw dinas Lerpwl yn defnyddio dwr Tryweryn i gyd ac nad oedd wir angen boddi'r cwm –

“Mwy o ddŵr na fydd ar Lerpwl fyth ei angen.”

Rhaid dweud, rwy'n cytuno gyda barn yr awdur wrth iddo ddweud nad oes ganddon ni fel cenedl fychan ddigon o bŵer i rwystro pethau fel hyn rhag digwydd –

“Do, fe brotestion ni, ond doedd ganddon ni ddim pŵer. Ond pwy oedden ni? Cenedl fach yn ceisio cael cenedl fawr i wrando arni.”

Roedd ei farn fan hyn yn debyg iawn i farn Elwyn Edwards wrth iddo ddweud ein bod ni fel cenedl yn cael ei chaethiwo.

Y pwynt nesaf mae'r awdur yn ei godi yw nad oedd boddi Tryweryn i gyd yn ofer. Ceisia'r awdur egluro fod boddi Tryweryn wedi'n deffro ni fel Cymry ac i raddau rwy'n cytuno gyda beth mae'n ddweud. Dyweda'r awdur –

“Ond fe ddeffrodd boddi Tryweryn ni fel cenedl o'n hirgwsg tawel. Ar ôl y boddi fe sylweddoloni ni fod yn rhaid i ni sefyll dros ein hawliau fel gwlad.”

Barn yr awdur yw os na fyddai boddi Tryweryn wedi digwydd ni buasan ni heddiw wedi sylweddoli gymaint o angen sydd i'r Cymry sefyll dros ein hawliau. Dyna felly farn awduron yr araith a'r erthygl dros foddi Tryweryn.

Yn fy marn i yr araith “Cofiwch Dryweryn” sydd fwyaf effeithiol gan i'r awdur ddweud ei farn yn glir a ganddo rywsut farn mwy clir na Elwyn Hughes a ysgrifennwyd “Chwalfa Tryweryn”. Roedd y pwyntiau a godwyd yn yr araith yn rhai da a chadarn iawn. Cytunaf fwy gyda barn awdur yr araith na barn awdur yr erthygl. Credaf fod yr araith yn dal sylw'r darllenwr yn well.

2. Ym mharagraff olaf ‘Chwalfa Tryweryn’ credaf fod yna awyrgylch trist ac emosiynol iawn. Cofia'r awdur y tro olaf iddo ymweld â Cwm Celyn a sut mae'r atgof yna wedi glynu yn ei gof. Disgrifia'r awdur y distawrwydd llethol drwy'r holl gwm ar y diwrnod hwnnw sy'n dweud yn syth wrth y darllenwr nad oedd yr awyrgylch yn y cwm yn un pleserus iawn. Disgrifia'r awdur yr awyrgylch drwy ddweud:

“Roedd y lle i gyd fel powlen enfawr a'r distawrwydd yn frawychus.”

Gwyddom felly fod yr awyrgylch wedi bod yn un distaw a phoenus iawn i drigolion Cwm Celyn. Gallaf ddychmygu fod yr adeg hwnnw'n un anodd iawn i bawb drwy Gymru gyfan. Disgrifiad arall da sydd gan yr awdur o'r awyrgylch yw –

“dim ond tawelwch ffrwydrol drwy'r holl gwm fel pe bai angau wedi ysgubo drwyddo a difa popeth o'i flaen.”

Credaf fod y disgrifiad yma o'r awyrgylch yn hynod o effeithiol drwy i'r awdur ddweud fod y distawrwydd yn ffrwydrol drwy'r holl gwm, a teimla'r awdur y diwrnod hwnnw fel bod popeth wedi marw. Mae'n siŵr i'r diwrnod hwnnw fod yn anodd iawn i Elwyn Edwards wrth iddo fynd yn ôl am y tro olaf i weld ei wreiddiau.

3. Mae awdur yr araith wedi defnyddio dulliau arddull effeithiol iawn er mwyn mynegi ei farn ar foddi Tryweryn. Sylwais yn y paragraff cyntaf ei fod wedi ailadrodd y gair 'boddi' sawl gwaith sy'n hynod effeithiol. Enghreifftiau o hyn yw –

"sef boddi Tryweryn" a

"Boddi pentref bychan Cwm Celyn er mwyn rhoi dwr i ddinas fawr Lerpwl"

"boddi ysgol, boddi capel, boddi siop a llythyrdy, boddi pentref, boddi deuddeg fferm fechan, boddi cymuned cwbl Gymreig a hynny am fod dinas Lerpwl eisiau cronfa ychwanegol o ddŵr."

Mae ail adrodd y gair 'boddi' yn effeithiol gan i'r awdur ailadrodd y gair frawddeg ar ôl brawddeg yn y baragraff cyntaf er mwyn ceisio pwysleisio ar y gair. Credaf ei fod yn llwyddo i wneud hyn. Mae'r gair boddi yn bwysig yn yr araith gan dyna wnaeth dinas Lerpwl i Tryweryn yn yr 1960au a thrwy ail adrodd y gair mae'n dal sylw'r gynulleidfa.

Gair arall y mae'r awdur yn ail adrodd yw'r gair dŵr. Mae'n ceisio gwneud pwynt nad oedd wir angen dŵr ar ddinas Lerpwl drwy ddweud –

"Oedd hi wirioneddol yn argyfwng dŵr ar y ddinas?"

"Oedd plant bach Lerpwl yn gorfod mynd heb ddŵr glân?"

"Cronfa wrth gefn cronfa Tryweryn, cronfa rhag ofn y byddai'r ddinas angen y dwr – rhywdro."

Dim ond ychydig enghreifftiau yw rhain o ailadrodd y gair 'dŵr'.

Credaf fod ailadrodd y gair 'dwr' yn effeithiol am yr un rhesymau ac ailadrodd y gair 'boddi'. Y rheswm mae'r arddull ailadrodd yn effeithiol yw oherwydd fod y geiriau 'dwr' a 'boddi' yn bwysig iawn yn hanes boddi Tryweryn, ac felly mae'r awdur yn defnyddio cwestiynau rhethregol er mwyn cael effaith. Enghraifft o hyn yw –

"Oedd ei phobl yn sychedig a'u hiechyd yn dioddef?" a

"Oedd plant bach Lerpwl yn gorfod mynd heb ddŵr glân?"

Mae rhain yn gwestiynau rhethregol gan nad yw'r awdur yn disgwyl i'r gynulleidfa ateb ac maent yn gallu bod yn effeithiol iawn. Credaf eu bod yn effeithiol gan eu bod yn gwneud i'r gynulleidfa feddwl am beth mae'r awdur yn ei ddweud. Wrth i fi ddarllen y cwestiynau rhethregol yn yr araith cawsant effaith arnaf i fel darllenwr, oherwydd gwnaeth i mi feddwl mwy am pam foddwyd Tryweryn ac os oedd wir angen boddi'r cwm.

Mae'r cwestiynau rhethregol yn cael effaith ar y gynulleidfa gan i'r awdur ei defnyddio i ddal sylw'r gynulleidfa ac efallai newid eu barn.

Dull arddull arall mae'r awdur yn ei ddefnyddio yw defnyddio ffurf gorchmynnol y ferf. Enghraifft o hyn yw –

“Meddyliwch o ddifri.”

Nid yw'n gweld hyn mor effeithiol a hynny ond ar y llaw arall mae awdur yr araith yn siarad gyda'r gynulleidfa drwy ddefnyddio'r dull yma. Mae hyn yn gwneud yr araith yn fwy diddorol i'r gynulleidfa wrando arno ac yn dal ei sylw.

Ceir rhai trosiadau yn yr araith ac yr un mwyaf effeithiol i mi yn bersonol oedd –

“brwynen yn ceisio gwrthsefyll corwynt”.

Yn y fan hyn mae'r awdur yn trosi Cymru sef cenedl fach i frwynen gan ei fod yn wan fel Cymru yn yr achos yma. Mae hyn yn effeithiol iawn gan iddo drosi Lloegr sef gwlad fawr gyda phŵer i gorwynt. Yr hyn sy'n ei wneud yn effeithiol yw ei fod yn cyferbynnu'r brwynen ar corwynt wrth iddo esbonio na all brwynen wrthsefyll corwynt. Credaf fod beth mae'r awdur yn ei ddweud yn hollol wir hyd heddiw – sef fod Cymru ddim yn mynd i allu wrthsefyll cenedl fawr, pwerus fel Lloegr.

Sylwebaeth

Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Mynegi barn yn ddeheuig drwy gyfeirio at gynnwys,** e.e. 'Cred yr awdur ein bod yn cael ein rheoli gan Lloegr ac nad yw ein barn ni fel Cymry'n bwysig o gwbl . . . Mae'r awdur wedyn yn mynd ymlaen i ofyn cwestiynau i'r gynulleidfa e.e. – "Meddylwch o ddifri, oedd hi wirioneddol yn argyfwng dwr ar y ddinas?" Ei farn felly mewn gwirionedd oed nad oedd wir angen cronfa ddŵr ar ddinas Lerpwl gan iddo gredu nad oeddent mewn argyfwng o gwbl. Mae'r awdur yn teimlo'n gryf am hyn gan roi barn gadarn iawn wrth iddo ddweud – "Roedd hen ddigon o ddŵr gan Lerpwl yn 1965 i gyflawni anghenion y ddinas." . . . Rhaid dweud, rwy'n cytuno gyda barn yr awdur wrth iddo ddweud nad oes ganddon ni fel cenedl fychan ddigon o bŵer i rwystro pethau fel hyn rhag digwydd.'
- **Mynegi barn a dadansoddi arddull yn ddeheuig,** e.e. 'Sylwais yn y paragraff cyntaf ei fod wedi ailadrodd y gair 'boddi' sawl gwaith sy'n hynod effeithiol . . . er mwyn ceisio pwysleisio ar y gair . . . Mae'r cwestiynau rhethregol yn cael effaith ar y gynulleidfa gan i'r awdur ei defnyddio i ddal sylw'r gynulleidfa ac efallai newid eu barn. Dull arddull arall mae'r awdur yn ei ddefnyddio yw defnyddio ffurf gorchmynnol y ferf. Enghraifft o hyn yw – "Meddylwch o ddifri" . . . mae awdur . . . yn siarad gyda'r gynulleidfa drwy ddefnyddio'r dull yma . . . Ceir rhai trosiadau yn yr araith . . . "brwynen yn ceisio gwrthsefyll corwynt." Yn y fan hyn mae'r awdur yn trosi Cymru sef cenedl fach i frwynen gan ei fod yn wan fel Cymru yn yr achos yma.'
- **Cywain, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol,** e.e. 'Mae awduron y ddau ddarn yn erbyn boddi cwm Tryweryn . . . Ar y dechrau, ni gredai'r awdur fod y sibrydion o foddier cwm yn wir wrth iddo ddweud; "Ni chymerias y sibrydion hyn o ddifri . . ." Gwyddwn fod Elwyn Edwards gyda barn cryf iawn yn erbyn boddi'r cwm wrth iddo ddweud ei hanes yn colli diwrnod o ysgol er mwyn mynd i Lerpwl i brotestio – "Penderfynais beidio â mynd i'r ysgol . . ."

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Dewis a dethol yn fwy gofalus gan gyfuno'r wybodaeth.

8. Ymateb i waith llenyddol, ffeithiol (nodweddion o Lefel 8)

Llywelyn a Gwenllian

1. Wedi darllen y darn 'Llywelyn Ein Llyw Olaf', gwelaf fod Llywelyn ap Gruffydd yn wŷr i Llywelyn Fawr ac felly yn perthyn i deulu brenhinol Gwynedd. Roedd ganddo ddau o frodyr, sef Dafydd ac Owain, bu iddo briodi Elenor de Montford, merch Simon de Montford ac roedd yn dad i'w unig ferch, Gwenllian. Sylwaf fod teulu Llywelyn yn dilyn hanes trychinebus a thrist. Nid yn unig y bu i Gwenllian gael ei gadael yn blentyn amddifad, yn dilyn marwolaeth ei mam ar ei genedigaeth a marwolaeth trist Llywelyn wedi hynny, ond roedd rhyfela parhaus ymysg y teulu. Bu i Dafydd ac Owain frwydro yn erbyn Llywelyn i geisio ennill etifeddiaeth fel Tywysog Cymru. Hefyd, gan fod teulu Eleanor de Montfort yn elynion i Edward y cyntaf, roedd eu bywyd priodasol yn galed, gwnâi Edward ei orau i rwystro'r briodas, gan gynnwys her i gipio Eleanor. Dyma deulu hynod o ddiddorol â hanes lliwgar iawn iddo.
2. Wrth ystyried holl orchestion a buddugoliaethau Llywelyn, byddwn yn crynhoi ei yrfa fel Tywysog Cymru yn un 'lwyddiannus' ar y cyfan. Yr oedd yn arweinydd pen i gamp, a pharchwyd ef yn fawr gan y Cymry – roedd arwyddo Cytundeb Trefaldwyn yn uchelgais a oedd yn symboleiddio ffydd Edward y cyntaf ynddo i reoli Cymru. Bu i Llywelyn fod yn fuddugol mewn niferoedd o frwydrai, enillodd diroedd gan ennill ffyddlondeb gan lawer. Cafodd ei gydnabod yn Or-arglwydd sydd yn dweud y cyfan am ei arweinyddiad a'i frwdfrydedd. Crwydrodd ledled Cymru gan feddiannu tiroedd megis Ceredigion a thiroedd Brenin Lloegr yn Llanbadarn. Yn ogystal, meddiannodd diroedd cyn-arglwyddi Normanaidd a Phowys. Roedd Llywelyn yn arweinydd brwd ac edmygwyd ef gan lawer.
3. Wedi darllen y dogfennau 'Llywelyn ein Llyw Olaf' a 'Y Dywysoges Goll', teimlaf yn gryf fod hanes Llywelyn a Gwenllian yn un trist a thorcalonnus. Yn amlwg, bu i'r teulu wynebu sawl trychineb. Tra fo Llywelyn yn y cwestiwn, teimlaf fod marwolaeth ei wraig yn ddigwyddiad trist, pan fu iddi farw ar enedigaeth eu merch, gadawyd Llywelyn mewn galar, gyda'r

cyfrifoldeb o fagu ei ferch yn unigol. Yn ogystal â hyn, teimlaf i'r ffaith i ben Llywelyn gael ei arddangos wedi ei farwolaeth yn hynod o warthus ac amharchus. Mae modd teimlo tristwch ynglŷn a'r ffaith i'r Brenin Edward godi y fath gywilydd nid yn unig ar Llywelyn, ond i'r Cymry. Yn dilyn hyn, teimlaf fod hanes bywyd Gwenllian yn eithriadol o drist. Dyma'r hanes mwyaf torcalonnus yn bendant. Wedi i'w rhieni farw pan yr oedd mor ifanc, colodd adnabod ar ei bywyd yn gyfangwbl, ni wyddai yr eneth am ei chenedl nag ei pherthynas i dywysog urddasol sydd yn ddychrynlyd, roedd ei hanwybodaeth o sillafiad ei henw yn eithriad i'r tristwch hynny. Mae hanes Llywelyn a Gwenllian yn un hynod o drist.

4. Yn y darn 'Y dywysoges Goll' mae modd adnabod agwedd yr awdur at yr hanes trist. Gwelir yn amlwg fod yr awdur yn tueddu i gydymdeimlo â'r eneth, gan ddangos emosiwn a chryfder i'w barn. Mae'r darn wedi ei ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa effeithiol, sy'n mynegi yn gryf beth yw teimladau yr awdur am yr hanes, sef gwylltineb, cydymdeimlad a thristwch. Defnyddir ansoddeiriau effeithiol, megis 'torcalonnus' a 'thrychinebus' i ddangos y tristwch y mae'r awdur yn ei deimlo. Defnyddir yn ogystal y cwestiwn rhethregol 'a beth fu tynged yr eneth fach meddech chi?' gan gynnwys y frawddeg wawdlyd 'wrth gwrs, o'i garedigrwydd mawr, talai Edward y swm anrhydeddus o £20 y flwyddyn...' i ddangos barn pur benderfynol yr awdur ar anhegwch bywyd Gwenllian. Gellir teimlo oerni a phŵer y darn tra yn ei ddarllen, sydd yn eich perswadio i gytuno â barn yr awdur. Dyma ddarn hynod o effeithiol a phersonol sydd yn dwyn eich cydymdeimlad. Daw y darn at ei deitl, 'Y dywysoges Goll' gan i'r dywysoges Gwenllian gael ei magu yn ddigon pell o Gymru, yn anymwybodol am gefndir ei theulu a'i chenedl. Mae y darn yn dechrau yn effeithiol gyda arysgrif ei chofeb, sy'n cyflwyno hanes oeraidd yn deimladwy a phwerus, i ddangos parch i'r eneth druan.
5. Mae y ddwy ddogfen 'Llywelyn Ein Llyw Olaf', 'Dyddiau Gwych i Gymru' a'r paragraff sy'n dechrau gyda'r geiriau 'Gadewch i ni ddychmygu am funud o'r darn y Dywysoges Goll' yn cywain gwybodaeth ar fywydau Llywelyn a Gwenllian. Mae y tri darn ar ffurfiau gwahanol, ac yn amrywio o ran eu nodweddion i addasu o ran math o lenyddiaeth.

Mae y darn 'Llywelyn Ein Llyw Olaf' yn ddogfen ffeithiol wedi ei rannu i benawdau ar ffurf ffeil-ffeithiau. Ceir brawddegau byr a cheir bytiau byr o wybodaeth yn unig, nid yw y darn yn fanwl iawn o ran gwybodaeth, er fod sawl ffaith ar fywyd Llywelyn gan gynnwys ei lwyddiant. Mae y wybodaeth yn cael ei gyflwyno fesul pwnc, megis ei lwyddiant, priodas a marwolaeth. Mae yr awdur wedi defnyddio iaith syml sy'n addas ar gyfer ffeil-o-ffaith. Ni cheir ansoddeiriau yn yr arddull ac nid yw'r iaith yn gyfoethog, gan nad yw'r ddogfen i bwrpas disgrifiadol, nid oes modd defnyddio technegau megis cymariaethau, idiomau na throsiadau ac ati. Mae y darn yn crynhoi bywyd Llywelyn yn fyr.

Yn y darn 'Dyddiau Gwych i Gymru', caiff buddugoliaethau Llywelyn eu cyflwyno mewn pwyntiau bwled. Yma eto, ceir brawddegau byr, ffeithiol, sy'n cyflwyno buddugoliaethau Llywelyn yn gronolegol. Caiff hyn ei awgrymu gan i'r pwyntiau bwled ddechrau â geiriau fel 'symud ymlaen', 'crwydro wedyn'. Yn y pwyntiau bwled, ni cheir disgrifiadau manwl, mae y iaith yn syml a phlaen, er y ceir geirfa hanesyddol megis 'meddiannu' gan gynnwys ambell air pwerus megis 'Or-arglwydd' sy'n argyhoeddi'r darllenwr am bwysigrwyd Llywelyn. Nid yw'r awdur wedi defnyddio llawer o dechnegau gan nad oes modd manylu yn ormodol mewn darnau o ffeithiau.

Ar y llaw arall, mae y baragraff sy'n dechrau â'r frawddeg 'Gadewch i ni ddychmygu am funud...' o'r ddogfen 'Y Dywysoges Goll' yn sôn am dristwch bywyd y dywysoges Gwenllian ar ffurf hanes personol. Mae y paragraff yn dechrau yn effeithiol gyda'r frawddeg 'Gadewch i ni ddychmygu...' sydd ar unwaith yn tanio meddwl y darllenwr i feddwl, i drugarhau am golled yr eneth. I wneud i un feddwl am y gwahaniaeth enfawr a fydda yn ei bywyd, pe bai ei rhieni 'wedi cael byw'. Yn y frawddeg hon, defnyddir amrywiaeth o dechnegau, sy'n ei wneud mor deimladwy a lliwgar. Gwelir i'r awdur geisio annog y darllenwr i gytuno â'i barn fod yr hanes yn hunllef, o'r deunydd o eirfa megis 'tristwch' a 'enw erchyll' i bwysleisio ar eu barn. Caiff un frawddeg ei dechrau â'r gair 'meddyliwch' i annog y darllenwr i feddwl am yr eneth a themlo drosti. Mae yr iaith yn hynod o gyfoethog gan i'r hanes gael ei ddisgrifio mewn manylder. Defnyddir sawl ansoddair effeithiol megis 'hyfryd', 'erchyll', 'urddasol' sydd yn creu darlun manwl o olwg yr awdur.

Yn fy marn i, y darn hwn yw y mwyaf effeithiol o bell ffordd gan ei fod yn bersonol, yn cynnwys barn ei awdur yn ogystal ag arddull hynod o drawiadol.

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ymateb yn feddylgar drwy ddadansoddi a gwerthuso'r modd y cyflwynir ystyr.**
- **Dadansoddi arddull yn fanwl**, e.e. 'Defnyddir yn ogystal y cwestiwn rhethregol 'a beth fu tynged yr eneth fach meddech chi?' gan gynnwys y frawddeg wawdlyd 'wrth gwrs, o'i garedigrwydd mawr, talai Edward y swm anrhydeddus o £20 y flwyddyn . . .' i ddangos barn pur benderfynol yr awdur ar anhegwch bywyd Gwenllian.'
- **Ffurio barn drwy ddefnyddio tystiolaeth yn gytbwys**, e.e. 'Wedi darllen y dogfennau 'Llywelyn ein Llyw Olaf' a 'Y Dywysoges Goll', teimlaf yn gryf fod hanes Llywelyn a Gwenllian yn un trist a thorcalonnus. Yn amlwg, bu i'r teulu wynebu sawl trychineb.'
- **Dethol gwybodaeth, gan drafod y modd y caiff ei gyflwyno mewn gwahanol destunau**, e.e. 'Yma eto, ceir brawddegau byr, ffeithiol, sy'n cyflwyno buddugoliaethau Llywelyn yn gronolegol.'
- **Dadansoddi syniadau yn gytbwys**, e.e. 'Yn y darn 'Y dywysoges Goll' mae modd adnabod agwedd yr awdur at yr hanes trist. Gwelir yn amlwg fod yr awdur yn tueddu i gydymdeimlo â'r eneth, gan ddangos emosiwn a chryfder i'w barn.'

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Mwy o aeddfedrwydd a threiddgarwch wrth ddadansoddi yn ogystal â gwerthuso'r deunydd yn feirniadol.

9. Tasg asesu: Darllen deunydd am Dryweryn (nodweddion o Lefel 8)

Chwalfa Tryweryn

1. Beth yw barn yr awdur am foddi Tryweryn yn yr ysgrif?

Credaf nad yw'r awdur yn hapus am foddi Tryweryn; mae o yn chwerw ac yn cyhuddo dinas Lerpwl o 'daflu llwch i lygaid a chynllwynio yn erbyn Cymru'. Mae o yn gweld y cynllun yn un afresymol 'eu cynllun gwallgo'. Credaf ei fod yn teimlo ei fod wedi ei fradychu. Roedd yn ddig gan ei fod wedi cael ei dwyllo gan bod Lerpwl yn honni mai cwm arall yr oeddynt am ei foddi. Mae'r ffaith ei fod o wedi protestio ac wedi mynd yr holl ffordd i Lerpwl i wneud hynny yn dangos fod ganddo farn gref am y sefyllfa, mae'r ffaith bod y Prifathro wedi rhoi y gansen iddo yn atgyfnerthu hyn. Mae yr awdur yn defnyddio geiriau cryf i ddadlau ei bwynt, mae'n galw y Cymry yn 'genedl wedi ei chaethiwo' sydd yn dangos ei fod yn teimlo anobaith bron. Roedd o yn credu na fyddai y fath beth yn gallu digwydd ac y buasai y cwm yn saff, ond buan iawn a newidiodd ei gân. Cred ei fod o dal yn ddig am beth a ddigwyddodd.

2. Sut ddarlun a gawn ni o'r ysgol ac o'r Prifathro?

Maen amlwg i mi fod yr ysgol yma yn un ddisgybledig; yn gyntaf maent yn cael gwasanaeth bob bore, nid oes fawr ddim o sôn am yr ysgol ei hun wedyn ond cawn weld sut le ydyw drwy ddisgrifiad yr awdur o'r Prifathro. Mae o yn ddyn sydd yn chwyrn ac yn hoff yn fy nhyb i o gosbi plant, mae'r Prifathro yn dod i fewn yn 'chwifio ei gansen' yn lle ei dal yn llonydd, a chredaf ei fod yn taflu ei bwysau i geisio dychryn yr awdur.

Mae o amlwg yn ffoenuchel a Seisnigaidd, ac nid yw yn poeni dim am Gwm Celyn, mae'n galw y brotest yn 'wastraff amser' ac yn galw Cwm Celyn, lle tybiaf ble yr oedd rhai o'i ddisgyblion yn dod, yn 'hen le sâl'. Credaf ei fod yn hen deyrn o ddyn, heb ddim parch at y wlad ble oedd o yn byw ynddi. Mae'r prifathro yn siarad Saesneg mewn ysgol a ddylsai fod yn Gymraeg. Mae o yn cosbi plentyn am rywbeth y dylsai fod yn falch ohono. Credaf os buasai Lerpwl wedi bygwth boddi popeth ond ei furiau o, ni fuasai o wedi gwrthwynebu. Efallai fod gan yr awdur le i ddiolch i'r teyrn di-drugaredd yma hefyd, gan mai y fo wnaeth danio ei gariad dros ei wlad, ac yn sgil hynny mae'r awdur hyd y gwn i yn dal yn wladgarwr.

3. Sut awyrgylch sy'n cael ei greu yn y paragraff olaf?

Mae'r paragraff olaf yn un teimladwy a thrist iawn, mae'r awdur yn hel atgofion am y gorffennol, ac mae o yn ailadrodd i bwysleisio y distawrwydd 'dim symudiad o'r fath yn y byd, yr un brefiad, yr un aderyn yn canu.' Mae'n cymharu y cwm â phowlen, un i'w llenwi a dŵr efallai? Mae o yn disgrifio y distawrwydd fel un 'ffrwydrol', mae hyn yn effeithiol dros ben, gan nad yw tawelwch yn beth ffrwydrol, mae o yn dweud fod yr holl gwm wedi ei sgubo ag angau, mae o yn dweud bob y cwm wedi ei 'ddifetha', mae o yn cael ei ddychryn gan y tawelwch, yn fy marn i, mae'n debyg fel bod bom atomig wedi ffrwydro yno.

Credaf ei fod yn hiraethus am Gwm Celyn, a bod y ffaith ei fod wedi cael profiad uniongyrchol o'r peth yn halltu'r briw. Mae ei holl fywyd wedi ei dorri i lawr, i foncyffion a llyn oer, oer, a does dim yn mynd i newid hynny.

Araith – Cofiwch Dryweryn

1. Beth yw barn yr awdures yn yr arraith?

Credaf bod yr awdures yma yn flin ac nid yw ei barn yn bositif yn y dechrau beth bynnag. Mae hi yn teimlo yn o gryf am y boddi, mae hi yn galw y digwyddiad yn 'warth', ac yn cymharu ein cenedl i frwynen. Mae hi yn ailadrodd y golled i bwysleisio ei phwynt. 'Boddi ysgol, boddi capel, boddi siop a llythyrdy, boddi pentref, boddi deuddeg fferm fechan, boddi cymuned cwbl Gymreig...' Mae pob 'boddi' yn gyrru y drychineb yn ddyfnach i'n meddwl. Mae hi'n cyhuddo Lerpwl o wastraffu y dŵr 'tydy Lerpwl ddim yn defnyddio dŵr Tryweryn. Bu llawer o brotestio o'r chwedegau ymlaen i gael arwyddion ffyrdd Cymraeg, addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, Sianel Deledu Gymraeg, a'r cynulliad. Mae'r awdures yn edrych ar ddwy ochr o'r geiniog, yn lle rhoi un barn, besimistaidd drist, credaf fod yr arraith hon yn fwy goleuedig na gwaith Elwyn Edwards.

2. Trafodwch arddull yr arraith.

Mae'r arraith hon yn effeithiol dros ben, mae hi'n dechrau ar nodyn trist ac yn sôn am beth wnaeth dinas Lerpwl. Mae'r areithwraig yn ailadrodd i bwrpas, sydd yn effeithiol ac yn pwysleisio'r weithred a'r effaith ar y gymdeithas gyfan 'Boddi

ysgol, boddi capel, boddi siop a llythyrdy, boddi pentref, boddi deuddeg fferm fechan, boddi cymuned gwawl Gymreig' credaf bod hyn yn creu darlun yn eich meddwl o'r golled enfawr. Gwneir defnydd o gwestiynau rhethregol, mae'r rhain yn cael eu rhestru ar ôl ei gilydd yn yr ail baragraff ac yn gwneud i'r gwrandawyr feddwl am y testun, ac yn eu tynnu i sylweddoli fod nelo'r boddi â hwy. Mae ffurf gorchmynnol y ferf yn un o dechnegau yr awdur, maen denu sylw y gynulleidfa ac fel y rhestru uchod yn llwyddo i ddarbwylllo perthnasedd y boddi iddynt hwy, mae'r awdur yn edrych ar ddwy ochr o'r geiniog drwy gyferbynnu 'y gwarth hwnnw' sy'n negatiff ac 'nad oedd boddi Tryweryn i gyd yn ofer' sy'n agwedd positif. Mae'r awdur yn llwyddo i bersonoli hefyd, mae'n troi y llyn i anghenfil sydd yn 'mygu pentref marw Cwm Celyn'. Mae yr awdur yn cymharu y protestiadau i 'Frwynen yn ceisio gwrthsefyll corwynt'. Trosiad grymus i gyfleu pa mor ddiymadferth oedd trigolion y cwm o gymharu â chyngor Lerpwl. Yr eironi yw, onid brwyn bellach a welir o amgylch tirwedd gwlyb Tryweryn?

3. Pa ddarn yn eich barn chi yw'r mwyaf effeithiol i 'gofio' Tryweryn?

Tra bod yr ysgrif yn un o brofiad personol llygad dyst, ac yn sôn am y drychineb fel ac yr oedd hi, credaf bod yr araith yn well am gynddeiriogi y gynulleidfa gan ei bod yn taflu ffeithiau noeth atoch, un ar ôl y llall, nes bod eich gwaed yn berwi. Rydych yn cael mwy o wybodaeth yn yr araith, a faint o warth a gwastraff oedd y boddi. Mae awdur yr ysgrif fodd bynnag yn hel atgofion, neu'n chwalu atgofion am y chwalu, ac yn sôn am ei brofiad personol ac uniongyrchol o'r hanes, oherwydd hyn credaf fod yr ysgrif yn haeddu clod a chanmoliaeth. Mae nifer o'r llygad dystion i'r chwalu hyn yn mynd yn llai, ac mae yr emosiwn yn creu darlun byw, yn enwedig yn y paragraff olaf, ble mae yr holl ing a phoen yn dod i'r wyneb, mae ychydig o ddieter yr awdur yn dylanwadu ar y darllenwr, ond ar y llaw arall, gall yr ysgrif gael ei chysidro yn hir-wyntog braidd o gymharu â'r araith. Mae'r ysgrif yn debyg i ddyddiadur ac wedi ei rannu i bum rhan, mae rhan un yn sôn am y 'cynllwyn' ac am 'daflu llwch' i lygaid y genedl, mae rhan dau yn sôn am brotestio yn Lerpwl, credaf fod rhan tri bron yn ddibwys gan mai cyfeirio at yr ysgol y mae o, mae'r ddwy ran olaf yn llawn emosiwn a rhain yw y darnau gorau yn fy marn i. Llwyddai ennill cydymdeimlad y darlennydd heb os.

Mae'r araith yn un danllyd ac yn cwestiynu popeth bron, mae yr araith yn cychwyn yn chwyrn ac yn rhestru y golled. Sylweddolais o ddarllen yr araith hon, maint y golled ar Gymru gyfan. Mae'r cwestiynu rhethregol yn effeithiol ac yn pigo os nad crafu cydwybod. Mae'r araith yn edrych yn ôl, ydi, yn hiraethus o ddi, ond eto'n edrych ymlaen yn obeithiol. Gwêl yr areithwraig, sut y gall y 'chwalfa' fod yn fodd i danio cenedl. Ni wneir hyn yn yr ysgrif. Mae ffurf gorchmynnol y ferf yn cipio sylw ac yn gwneud i ni feddwl, oherwydd y technegau arddull megis ail-adrodd a chwestiynu ymholgar. I gloi felly, mae'r araith heb os nac oni bai yn well i danio y genedl, ac i greu dicter, ond credaf ei bod hi yn bwysig i ddarllen profiadau uniongyrchol yn hytrach na ffeithiau moel hanesyddol, dyna pam fod yn well darllen yr ysgrif na'r araith, yn fy marn i, gan bod profiad yn unigryw, tra bod digon o ffeithiau ar gael.

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ffurio barn drwy ddefnyddio tystiolaeth yn gytbwys**, e.e. 'Credaf nad yw'r awdur yn hapus am foddi Tryweryn; mae o yn chwerw ac yn cyhuddo dinas Lerpwl o 'daflu llwch i lygaid a chynllwynio yn erbyn Cymru' . . . mae'n galw y Cymry yn 'genedl wedi ei chaethiwo' sydd yn dangos ei fod yn teimlo anobaith bron.'
- **Ymateb yn feddylgar drwy ddadansoddi a gwerthuso'r modd y cyflwynir ystyr**, e.e. 'Credaf bod yr awdures yma yn flin ac nid yw ei barn yn bositif . . . Mae hi yn teimlo yn o gryf am y boddi, mae hi yn galw y digwyddiad yn 'warth', ac yn cymharu ein cenedl i frwynen. Mae hi yn ailadrodd y golled i bwysleisio ei phwynt.'
- **Dadansoddi arddull yn fanwl**, e.e. 'Mae'r paragraff olaf yn un teimladwy a thrist iawn, mae'r awdur yn hel atgofion am y gorffennol, ac mae o yn ailadrodd i bwysleisio y distawrwydd 'dim symudiad o'r fath yn y byd, yr un brefiad, yr un aderyn yn canu.' Mae'n cymharu y cwm â phowlen, un i'w llenwi a dŵr efallai? Mae o yn disgrifio y distawrwydd fel un 'ffrwydrol', mae hyn yn effeithiol dros ben, gan nad yw tawelwch yn beth ffrwydrol.'
- **Dethol, cyfuno a dadansoddi syniadau a gwybodaeth, gan drafod y modd y cant eu cyflwyno mewn gwahanol destunau**, e.e. 'Tra bod yr ysgrif yn un o brofiad personol llygad dyst . . . credaf bod yr araith yn well am gynddeiriogi y gynulleidfa gan ei bod yn taflu ffeithiau noeth atoch . . .'

I gyrraedd lefel uwch disgwylid:

Mwy o aeddfedrwydd a threiddgarwch wrth ddadansoddi gan werthuso'r deunydd yn fwy beirniadol.

10. Trafod erthygl a cherdd (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Trafod erthygl ar 'Aberfan' a cherdd 'Trychineb Aberfan' gan Bobi Jones.

Trychineb Aberfan

1. Am chwarter wedi naw y 21ain o Hydref 1966 cafodd 116 o blant ysgol, 5 o athrawon ynghyd a 23 o bobl Aberfan eu lladd mewn damwain trychinebus a ddenodd sylw y byd i gyd. Roedd tomen lo wedi ei chodi mewn lle peryglus, ar ben mynydd ger ysgol. I wneud y sefyllfa yn waeth roedd y domen wedi ei chodi ar ben ffynnon. Roedd maint tomen lo rhif 7 bum gwaith yn fwy na' beth roedd y gyfraith yn caniatáu. Ar ôi glaw trwm mi wnaeth y slwaj du lithro dros bentref Aberfan gan orchuddio'r ysgol i gyd a i 8 o dal. Am oriau mawr tyrral gwragedd, plant hyn ysgol uwchradd, y gweithwyr glo a'r rhieni i'r ysgol i gloddio i geisio darganfod eu plant yn y gobaith eu bod dal yn fyw. Mae'n ffaith na chafodd neb ei ddarganfod yn fyw ar ôi 11 y bore. Roedd degau o newyddiadurwyr yno yn teimlo'n euog yn gwneud eu gwaith gan ofyn cwestiynau i'r bobl ac yn osgoi'r demtasiwn o helpu'r holl bobl trist. Am bedwar o'r gloch y prynhawn cyrhaeddodd Ysgrifennydd Cwladol Cymru, Cledwyn Hughes, ac yn hwyrach cyrhaeddodd y Prif Weinidog, Harold Wilson. Roedd hi'n dod yn amlwg bod pobl Prydain i gyd yn dechrau sylweddoli maint y drasiedi yn y pentref bach yng nghymoedd y de.
2. Yn ôi pobl Aberfan, bai y Bwrdd Glo Cwladol ydoedd oherwydd roedd y domen bum gwaith yn fwy nag a ganiateir gan y gyfraith ac nad oedd y gweithwyr yn dilyn y rheolau. Peth ddi arall oedd adelladu'r pwll ar ben ffynnon. Cafodd y Bwrdd Glo sawl rhybudd, oherwydd roedd y domen wedi lithro o'r blaen ond ni chymerodd y bwrdd glo ddim sylw a talodd y bobl y pris. I ychwanegu at hyn roedd dynion anghymwys i'w swyddi anaddas sydd yn hollol warthus ac annerbyniol. Dwi'n cytuno gyda'r bobl lleol yn rhoi'r bai ar y Bwrdd Glo Cwladol am y rhesymau amlwg. Rhywbeth arall oedd yn cythruddo'r bobl lleol oedd agwedd pennaeth y Bwrdd Glo sef yr Arghwydd Robens nad oedd yn poeni dim am golled y gymuned a'i fod wedi gwaredu cenhedlaeth o blant ifanc drwy drachwant.

3. Plant Aberfan cyn i'r drychineb daro yn chwarae yw'r cowbois a'r tywosogesau yn y gerdd. Mae'r bardd yn sôn am y plant fel hyn oherwydd mae nhw'n defnyddio eu dychymyg a thrwy hynny maent yn gallu bod yn bwy bynnag y mynnont. Yn ogystal a hyn mae'n cyflwyno eifen o chwarae plant a byd tylwyth teg gan law'r plant wnaeth ddirodded-dim y bobl achosodd y ddamwain.
4. Y cwestiwn mawr gafodd ei ofyn oedd "Pwy oedd ar fai?" a "Pam mae hyn wedi digwydd?" Mae'r bardd wedi ysgrifennu hyn oherwydd mae plant bach yn llawn cwestiynau ond y rhieni sydd sy'n gofyn cwestiynau mawr nawr. Mae hyn yn gweithio'n dda ac yn gwneud i'r darllenwyr ystyried beth maent yn ei ddarllen.
5. "Mewn cist o bentref, perlau'r dyfodol" yw un trosiad. Mae'r bardd yn sôn am y pentref fel cist sy'n llawn trysorau sef wrth gwrs y plant, perlau'r dyfodol. Mae'r plant yn cael eu disgrifio fel perlau yn y trydydd pennill oherwydd eu gwerth a'r ffaith bod pob perl yn unigryw. Yr ail rwyf am sôn amdano yw "cysgant dan wanc a'i flanced." Mae hyn yn sôn am wanc y bwrdd glo yn celsio gwneud cynaint o arian â phosib a'r plant wedi eu gorchuddio mewn blanced o wastraff glo.
6. Pwrpas yr ail adrodd yn y pennill olaf yw creu effaith a phwysleisio tristwch y digwyddiad a'r ffaith nad yw "Y blaidd" sef y Bwrdd Glo yn poeni am y plant. Techneg effelthiol lawn yw hwn. Gan law dechrau'r ddwy linell mae'r bardd wedi alladrodd mae'n creu effaith oeraidd. Mae'r dechneg yn gweithio'n dda gan ei bod yn dod ar ddiwedd y gerdd lle mae'r bardd am gloi'r darn ar nodyn emoslynol.
7. Mae'r bardd yn disgrifio'r Bwrdd Glo fel blaidd oherwydd bod y bwrdd glo yn farus lawn fel blaidd yn y stori Hugaran Coch Fach. Mae'r ddiwedd yn un effelthiol lawn oherwydd mae'r awdur yn disgrifio'r stori fel un tylwyth teg. Fel yn y chwedl mae canlyniad y trachwant yn erchyll.
8. Trist a chrac yw teimladau'r bardd yn y gerdd. Mae e'n ddefnyddio ansoddeiriau crac fel tyll i bwysleisio'i ddrwg deimlad tuag at y Bwrdd Glo. Mae naws hiraethus yn y pennill cyntaf gan ei fod yn sôn am hapuswydd y plant "Ddoe". Yn y gerdd mae'r bardd yn disgrifio gofygia'r drychineb mewn ffordd ddigalon gan nad oes unrhyw gyffro ynddi, dim ond geiriau emoslynol wedi eu gwau gyda'i gilydd.

Cwestiwn 9

Mae'r ddau ddarn yn disgrifio trychineb Aberfan drwy ffurf a safbwynt gwahanol. Swriad gwahanol sydd gan y ddau awdur hefyd. Darn allan o lyfr hanes wedi'i greu fel erthygl papur newydd yw'r darn cyntaf felly bwriad yr awdur yw cyflwyno gwybodaeth. Mae'r awdur yn gwneud hyn yd dda drwy ddyfynnu llawer er enghraifft " Yr oedd un tad wedi mynnu mai wedi'i gladdu'n fyw gan y Swrdd Glo dylid ei nodi fel achos marwolaeth ei blantyn". Mae'r awdur yn hysbysu ffeithiau holl bwysig ac angenrheidiol fel "tua 9.15 y bore dechreuodd y domen lithro" ac "wrth i'r newyddion ledaenu fod 144 o bobl gan gynnwys 116 o blant wedi eu lladd...". Defnyddir berfau cryno ac amherseonol fel "Tafwyd a boddwyd" i gyfleu'r wybodaeth mewn ffordd effeithiol a chlir. Mae'r awdur yn defnyddio ffurflau cryno'r ferf er enghraifft "ymledodd, dechreuodd". Gan taw darn allan o lyfr hanes wedi'i greu fel erthygl papur newydd yw darn Iaith ffurfiol ysgrifenedig sydd ynddo. Ceir geirfa gyfoethog fel "Ymledodd, dirdynnol, ymhlieth ac anghueol". Defnyddir y ferf "Yr oedd" o'r fyddal'n cael ei defnyddio bob dydd. Defnyddia'r awdur ansoddeiriau er mwyn disgrifio'n fawr fel "Cymysgfa drom, ludiog, a hylifol" sy'n dermau technegol fwy neu lai. O gymharu'r darn hwn gyda'r ail ddarn mae'n ffeithiol iawn ac yn disgrifio digwyddiadau yn ddifrifol ac yn gredadwy. Mae'r gerdd yn wahanol oherwydd cafodd ei ysgrifennu mewn iaith lafar a defnyddir eifennau creadigol a dychmygus i greu effaith ac i danlinellu erchyllidra'r digwyddiad. Cerdd yw'r ail ddarn sydd â phatrwm odli llinell 1 a 2 ymhob pennill a trosiad ymhob pennill. Ym mhennill 1 mae'r awdur yn disgrifio'r plant fel " y cowbois a thywysogesau thws". Mae'r trosiad hwn yn addas i'w atgoffa o fyd chwarae plant ac i bwysleisio eu dinweidrwydd. Yn eu dychmyg gall plant fod yn pwy bynnag y maen nhw eisla. Mae'r awdur yn datblygu'r trosiad drwy ddweud eu bod yn "cysgu o dan wanc" y Swrdd Glo sy'n ceisio cael gymaint o artan ag sydd bosib. Mae'n ymestyn y trosiad ymhellach gyda "a'i flanced" sef y gwasatraff glo sy'n gorchuddio'r pentref. Mae elfen o dristwch ym mhennill 2 gan fod yr awdur yn sôn am yr holl gwestynau y mae'r plant

yn eu gofyn sy'n cythruddo rhieni, ond nawr mae'r rhieni yn wir wedi eu cythruddo gan nad yw eu plant yno mwyach. Ym mhennill 3, mae'r awdur yn defnyddio trosiad "mewn cist o bentref, perllau'r dyfodol". Mae'r awdur yn disgrifio'r pentref fel cist am fod cist yn llawn trysorau a pherllau sef y plant oherwydd eu bod yn wernfawr ac yn unigryw. Defnyddia'r bardd ansoddair crac fel "hyll" yn y frawddeg "hyll dan werthoedd ein presennol" sy'n pwysleisio agwedd y bardd tuag at bwysigrwydd arian yn y byd modern o flaen diogelwch. Mae'r awdur yn defnyddio stori blant "Yr Hujan Goch Fach" gan ddisgrifio'r Bwrdd Glo fel y blaidd a'i grafanc yn ceisio cymryd popeth a cheisio gwneud cymaint o arian ag sydd bosibl. Disgrifio'r awdur "hirflew'r blaidd" fel y gwastraff glo sy'n disgyn ar y pentref. Mae llawer o dristwch yn y pennill olaf i glol'r gerdd ac mae'r awdur yn sicr yn creu effaith drwy ailadrodd er eghraifft "Dim ond yr holl gyrff hyn

Dim ond tameitiach o gyrff bach gwyn."

Yn yr ail linell mae'r awdur yn defnyddio'r ansoddair "gwyn" i ddisgrifio'r plant fel glân a diniwed. Mae hyn yn wrthygyferbyniad trawiadol oherwydd mae'r plant yn ddu gyda'r gwastraff glo. Llinell drist a chofiadwy yw'r llinell olaf "Duw a elw eu cofrestr heddiw" i ddatgan bod y plant a'r athrawon dieuog a diniwed yn y nefoedd o ganlyniad diogi a gwanc y Bwrdd Glo.

Cwestiwn 10

Yr ail ddarn yw'r mwyaf effeithiol yn sicr gan fod yr awdur yn defnyddio technegau arddull mwy amrywiol sy'n creu effaith yn wahanol i'r darn cyntaf, sydd fwy neu lai yn rhestr o ffeithiau. Mae'r ail ddarn yn llawer mwy emosiynol a phersonol sy'n gwneud imi gydymdeimio â'r gymdeithas yn Aberfañ. Creodd y bardd ddelweddau a darluniau drwy drosladau cyfoethog fel "mewn cist o bentref, perllau'r dyfodol" sy'n pwysleisio maint y golled i'r gymuned. Wrth ailadrodd

"Dim ond yr holl gyrff hyn

Dim ond tameitiach o gyrff bach gwyn" mae'r bardd yn dangos teimladau chwerw tuag at y Bwrdd Glo. Yn olaf drwy ddefnyddio ansoddeiriau fel "hyll" a "gwyn" mae'r bardd yn pwysleisio ei emosiwn.

Sylwebaeth

Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ymateb yn hyderus a chydag aeddfedrwydd i destunau heriol.**
- **Dadansoddi a gwerthuso'r deunydd yn feirniadol,** e.e. 'Rhywbeth arall oedd yn cythruddo'r bobl lleol oedd agwedd pennaeth y Bwrdd Glo sef yr Arglwydd Robens nad oedd yn poeni dim am golled y gymuned a'i fod wedi gwaredu cenhedlaeth o blant ifanc drwy drachwant.'
- **Cyflwyno syniadau manwl a threiddgar ar y modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth,** e.e. 'Darn allan o lyfr hanes wedi'i greu fel erthygl papur newydd yw darn 1 iaith ffurfiol ysgrifenedig sydd ynddo. Ceir geirfa gyfoethog fel "Ymledodd, dirdynnod, ymhlith ac angheuol" . . . Defnyddia'r awdur ansoddeiriau er mwyn disgrifio'n fanwl fel "cymysgfa drom, ludiog a hylifol" sy'n dermau technegol fwy neu lai.'
- **Trafod y testunau'n graff gan ystyried y pwrpas, yr arddull a'r ffurf,** e.e. wrth ymdrin â'r trosiad "Mewn cist o bentref, perlau'r dyfodol", dywed 'Mae'r bardd yn sôn am y pentref fel cist sy'n llawn trysorau sef wrth gwrs y plant, perlau'r dyfodol . . . oherwydd eu gwerth a'r ffaith bod pob perl yn unigryw.' Gwelir y craffter wrth drafod bwriad yr awdur a ffurf y darnau, e.e. 'Bwriad gwahanol sydd gan y ddau awdur hefyd . . . cyflwyno gwybodaeth . . . dyfynnu llawer . . . hysbysu ffeithiau holl bwysig ac angenrheidiol . . . berfau cryno ac amhersonol . . . iaith ffurfiol ysgrifenedig.'
- **Croesgyfeirio'n effeithiol drwy gydol y darn.**



3

Ysgrifennu creadigol

11. Damwain (nodweddion o Lefel 7)

Damwain

Beth wna i? Dwy ffili credu hyn. Mae fe 'just' yn gorwedd 'na yn ddi-fywyd. Pwy ffonai? Siwt yn y byd mawr ydw i yn mynd i esbonio hyn? Reit, bydd well i fi feddwl yn gloi fyd. 'Wedai – Na gyd wen i'n neud wedd gyrru lawr yr hewl , a 'nath y bachgen yma ar ei feic groesi o'm mlaen i. Ie, ma 'nan swno'n iawn. Na beth yw'r gwir... Dwi ffili symud, rydw i wedi rhewi gyda sioc!

Reit ma'n rhaid i fi symud o'r car ma! Ai mas a gweld os ydyw e'n symud. O, dwy'n crynu fel deilen ar bnawn o Hydref! Dwy'n ei gyffwrdd, a galw helo arno. Dim. Ar unwaith, mae sŵn dychrynlyd yr ambiwlans a'r heddlu yn llenwi fy nghlustiau bregus. Rydw i'n cael fy mwrw i gefn y crowd, clywaf y geiriau, "Clear", a wedyn gwefr o sŵn aruthrol y trydan, y ddau pad bach sydd yn gwneud y penderfyniad olaf, a rhoi bywyd i'r bachgen neu ddim. Beth os dyw e ddim... Be wna i...? Mae'n mhen i yn chwyrlio o gwmpas. Yn gwneud i mi deimlo'n sâl ofnadwy.

Pan yr ydw i'n dechrau mynd ar goll ac yn pendronni ym meddwl fy hun, mae'r geiriau marwol yn bwrw fy nghlustiau. "Where's the driver?" dyn ifanc, hyll yn gweiddi o gorff caled a di-deimlad. Ar unwaith, ar ôl i fi gael fy ngwthio i'r cefn fel esgid hen, rwy'n cael fy ngwthio yn ôl i'r golau llachar. "Yes, that's me..." dywedaf yn llais main, unig. Fel llygoden yn ceisio dweud ei stori yng nghanol sŵ anferth. Mae pawb yn troi rownd, i weld pwy a oedd yn gyfrifol, efallai, hyd yn oed pwy oedd y llofrudd.

Dim ond wedi cael y car ydw i? Pam roedd hyn yn gorfod digwydd i fi? Rwy'n gofyn fy hun yn ddi-amynedd. Rwy'n cael fy nragio fel hen anifail llipa i gewn yr ambiwlans. Maent yn fy nghwestiwnu fel pe tai'n i yn llofrudd. O, efallai fy mod i. Rydw i'n methu darganfod unrhyw eiriau i ddweud. Mae yna gymaint o bethe i ddweud, ofyn, difaru, gwneud? Rwy'n ceisio agor fy men, ond dydy'r cyswllt rhwng fy ymennydd a fy ngeg ddim yn gweithio. Dydy hyn ddim fod i ddigwydd i fi. Pythefnos ar ôl i fi pasio fy mrawf gyrru?!

Maent yn dweud fy mod yn gorfod ateb y cwestiynau, neu fe fydd yn edrych yn ddirgelus. Ar unwaith, rwyf yn gallu rhoi 3 gair gyda'n gilydd. "Odi e'n fyw?" Mae'r cwestiwn yn hala ias lawr fy nghefn. Beth os ydw i wedi ei ladd e? Sut allai fyw gyda fy hun ar ôl hyn? Wastad yn cael fy atgoffa o'r awr hon, lle mae bywyd bachgen bach yn mynd yn agos iawn at ochr y dibyn. Wastad yn ail-fyw y funud hon. Byddai ddim yn gallu delio gyda fe. Beth wnaif i?

"Yes, he is still alive... but only just." Mae'r teimlad bendigedig yn mynd drostaf. Rwy'n ail-ddweud y geiriau hyfryd yn fy mhen, ond dod i'r rhan lle mae'r dyn cadarn yn dweud... "but only just". Mae'r gwefr o hapusrwydd yn cwmpo lawr i fy nhraed. Mae fel tase dwylo yn bachu o amgylch fy nghanol a fy ysgyfaint, ac ddim yn gadael i fi anadlu 'na teimlo dim.

So you mean he could die at any minute? Mae'r geiriau yn gwneud i fi golli bob egni sydd ar ol yn fy nghorff bach main. I ddilyn y 'nod' o ben y polismyn, fe allai i farw, nawr, yn y fan a'r lle. "He's been taken to the hospital now. But his life... hangs in the balance." Mae'r geiriau oeraidd yn llenwi fy ymennydd. "Can I see him in the hospital please?" gofynnaf, rwy eisiau esbonio i'r bachgen, sydd efallai yn mynd i newid fy mywyd yn hollol, fy mod yn sori, o ngwaelod fy nghalon, fy mod yn ... sori.

Sylwebaeth

Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Dangos gafael sicr ar hanfodion ffurf yr ymson wrth gyfleu teimladau gan ddefnyddio brawddegau byrion a chwestiynau i bwrpas**, e.e. 'Beth wna i? Dwy ffili credu hyn. Ma fe 'just' yn gorwedd 'na yn ddi-fywyd. Pwy ffonai? Siwt yn y byd mawr ydw i yn mynd i esbonio hyn?'
- **Manylu ar y digwyddiad gan greu naws y lleoliad ac elfen o realiti**, e.e. 'Reit ma'n rhaid i fi symud o'r car ma! Ai mas a gweld os ydyw e'n symud. O, dwy'n crynu fel deilen ar bnawn o Hydref! Dwy'n ei gyffwrdd, a galw helo arno. Dim. Ar unwaith, mae sŵn dychrynlyd yr ambiwlans a'r heddlu yn llenwi fy nghlustiau bregus.'
- **Cyfleu llais a theimladau mewnol y cymeriad yn effeithiol mewn tafodiaith**, e.e. "Odi e'n fyw?" Mae'r cwestiwn yn hala ias lawr fy nghefn. Beth os ydw i wedi ei ladd e? Sut allai fyw gyda fy hun ar ôl hyn?'
- **Datblygu'r sefyllfa'n drefnus a'r clo yn gynnil, effeithiol**, e.e. 'rwy eisiau esbonio i'r bachgen, sydd efallai yn mynd i newid fy mywyd yn hollol, fy mod yn sori, o ngwaelod fy nghalon, fy mod yn . . . sori.'
- **Defnyddio iaith yn fwriadol sy'n cryfhau effeithiolrwydd y mynegiant**, e.e. disgrifiadau pwrpasol – 'Fel llygoden yn ceisio dweud ei stori yng nghanol sŵ anferth', 'geiriau marwol yn bwrw fy nghlustiau', 'cael fy nragio fel hen anifail llipa'.
- **Dangos gafael gywir ar gystrawen.**

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Mwy eto o sensitifrwydd ynghyd â geirfa ehangach a mwy o ymadroddion a disgrifiadau trawiadol yn ogystal â threiglo mwy cywir.

12. Byth eto! (nodweddion o Lefel 8)

Byth eto!

Agorodd Huw Phillips ddwy oedol y garej. Gwischodd clwynion igam-igam a hen feic rhyddlyd yn drist wrth iddo ei ~~gwisgo~~ wrio i mewn.

Rhaid ond un newydd "mumiodd Huw" torodd yr un na's rhy sydyn. Tafodd y ~~beic~~ beic i gornel y garej, a'i adael yn domo ~~llipa~~ rhyddlyd yn gwichio cŵn drist i'r hug. Aeth y garej yn digwyll wrth i Huw wrio drws i'r gau. Ar ôl ~~iddo~~ adael, troi y gwichio trist yn wicher cas. Dechreuodd y beic syrthio.

Nid oedd Huw Phillips yn uwngyd digon a ofal a'i feician. Aeth drwy ~~tra~~ tra ~~u~~ ugar olwynot bot blwyddyn. Cafodd pot un ei falu rhwng ~~ei~~ adael i rhyd yr y glaw. Roedd Huw Phillips yn tti ei feician fel sbortis.

Aeth Huw i fewn i'r stafell flawn i ~~gwisgo~~ weld ei fab. Alun yn chwarae gyda staphur.

"Dad! Rwy wedi stopain fy mwyd at ei gilyd! maddain gwyfous. Mwyndd Alun am byrbeth i'r uwngd a stopain."

"O Alun! ~~gwisgo~~ Huw," y Gwn Staphur 400, yw lwmra. Mae'n rhaid i mi gael lwmra ar gyfer gwaith yfory!"

Af y cyfamsos / roedd beic Huw wedi daffro. Clisiodd a gwischodd wrth iddo agor drws y garej gyda'i olwynion. Ar ôl ychydig sillodau, mer oedd wedi diaru, yn barad i ddial ar Huw Phillips am ei gwibentet. Aeth y beic i lawr y staphur blwydd. Mer wedi y llw mor dauel a'i bedd. Llythredodd y Lord. Dyma lle'r oedd yr Hen Feician a gyl, pot un wedi ead ei cam ddi gar Huw. ~~Canodd~~ Canodd beic Huw a gyl. ~~Deffodd~~ Deffodd y Fyddin.

"Alun! Ble mae fy mair?" gwaeddodd Hwyl y bore nesaf.

"Ym... sais gwlad Dad. Nes fi rhai o'n y gwlad!"

"Ie! Nawr mae wedi diflannu. Wedi mynd!"

Mae argraff yn fan. Beth arnaf i i fynd i'r gwlad? Wyt ti'n siwr mai dim rhau o dy arbrofem stapalu yw Alun?"

"Ie, befffaith Siwr Dad. Ndi fynd i ddyrchu aundano fy naur, 'Thaugu'."

Rhuthrodd y bacynog deg oed i lawr y grisiau, ei frust mawr o walle yn fflopiar ar ei ben. Edrychodd o amgylch y gerbyr yna sylwedd ar ddyrchu. Llwybr oel o ddarnau bychan o fetel dryllid. Gwelodd Alun ei dad yn y tŷ yn ffônio gwlad. Tyrodd y Gun Stapalu 400 o'i bered, a ddechreuodd ddilyn y llwybr.

Dilynodd y llwybr nes cyhoeddodd yr Iard Sgrap. Yno, gwelodd bod y llwybr bach yn gorffen, a bod llwybr arferthol o brandwars metel dryllid a chadwynnau yn dechrau. Nid oedd Alun yn deall sut oedd y llwybrau wedi ffurfio. Aeth ymlaen, yn dilyn y llwybr mawr. Dawdd neb ni weld yn unwaith. Clywodd gan amhell gorchwifo yn y faldor. Ar ôl dilyn y llwybr am sbel, gwelodd ei brwn mawr coedwig dymhell. Edrychodd y coed fel gwibran tanau yn ymestyn i'r awyr.

Stopiodd pan glywodd sgrôch arall yn dda o gyfeiriad correg o'au i dde'r llwybr. Sgrôch gwichlyd, fel sŵn cant o ficiau dryllid yn barod am frest. Aeth tuag at y sgrôch.

"PŴŴ YŴ HŴŴ?" gofynnodd Blais duwfn. Edrychodd Alun i fyny a gwelodd gaur arferth wedi ei wneud o' danysion bac. Poeddi genddo llygaid llachar o oleudau breic a chag o gadwyni yn drispan o'au. Roedd Alun wedi ei barhysu ag o'n.

"Ym... Alun Phillips... ~~oedd~~ oedd."

"PHILLIPS? Wyt ti'n partner i'r Hwyl PHILLIPS?"

a drodd ni i gyd i mewn: BENTYRRAU DI-BWRPAS
D FETAL SGRAP?!!!? Sut wyf i'n meddwl mewn fainder
i gael eich bwrw i mewn i waliau, eich cywasgu, eich
crewsian, eich trô, eich trafylu i gefn y garej? Mae
angen dial, dial ar bawb sy'n raddol eu bod yn
gallu cymernd mantais ohonon ni! Ers y penng - farthing
cynaf, ~~ni~~ sydd wedi ein defnyddio NI!
CHI Ond, ond meddai Alun.

"Dim ond! Mwy ydy Bwrw y Beiciau, a rhyd
i'n chweld si fod yn amser y MLADD yn ôl!"

Mewn cilind, ran ofallai murud ofanogid y
Beiciau mwyaf araf, rhydlyd, nut aedd caud o ddarnau
Mwyd beiciau yn glawr ar ~~beiciau~~ Alun. Daeth môr o
ficiau ato yn gwisgoth gos Meddy Beid Alun yn gyllun
a thynodd y Gwr Stapanu 400 i'r baced. Sactodd
afon o staplau at ddeurs y beiciau ar radd peiranddnyll.
Gwrchiodd y beiciau mewn pen Arafogid y Blif o
ficiau. Foneodd Alun am Frawn y Beiciau, a aedd yn
staplo ato, wedi ei wfflioni gundnyll. Daeth afon arall
o staplau at peiriant. Ddiodd y staplau y Bwrw rhwng
ei llygaid.

"Aacargh!" bloddiodd mewn llais fel claw
Cwmpodd y Bwrw i'r llaw, a blifodd alaw ofanog fel
morbodd o waed du. Edrychodd y Bwrw i llygaid
Alun syddai fumpian'i fflactio'n was, a stordodd.

"Mellith ar bawb sy'n beicio."

Ers y diwmod fymng, mae Huw Phillips
wedi marw. Cwmpodd beic arno spry siop. Nid ydi Alun
wedi cyffwrdd â beic, ers y disgwyddiad - mae ef wedi
sefydlu elusen i helpu beiciau sy'n cael eu cam-drin.

Felly, cofnuch, os ydydych chi yn cael dornwain
yn ymrownd a beiciau, rhwydych chi bar ar Huw Phillips,
~~ar y~~ y dyn nad oedd yn poeri am ei ffic, ac yn
ei gam-drin Gwlich....

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ysgrifennu cwbl wreiddiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd.**
- **Stori grefftus wedi'i strwythuro'n drefnus o ran dilyniant golygfeydd ac yn cyrraedd uchafbwynt pan gwmpodd Brenin y Beiciau i'r llawr** 'a llifodd olew ohono fel moroedd o waed du . . . a sibrydodd, "Melltith ar bawb sy'n beicio . . ."
- **Dychymyg byw wrth ddelweddu**, e.e. 'Edrychodd Alun i fyny a gwelodd gawr anferth wedi ei wneud o olwynion beic. Roedd ganddo lygaid llachar o oleuadau beic, a cheg o gadwyni yn driplan olew.'
- **Dewis pwrpasol o eirfa ac ymadroddion ac amrywiaeth o nodweddion arddull**, e.e. defnydd o ferfau cryno i greu cyffro, e.e. 'Meddylodd Alun yn gyflym, a thynodd y Gwn Stapalu 400 o'i boced. Saethodd afon o staplau at deiars y beiciau ar radd peirianddryll. Gwichiodd y beiciau mewn poen. Arafwyd y llif o feiciau. Anelodd Alun am Frenin y Beiciau . . .' disgrifiadau effeithiol yn cyfoethogi'r naratif, 'Taflodd y beic i gornel y garej, a'i adael yn domen llipa, rhydlyd, yn gwichio cân drist i'w hun', '. . . mi roedd cawod o ddarnau rhydd beiciau yn glawio ar Alun. Daeth môr o feiciau ato yn gwichio'n gas.'
- **Dangos gafael dda ar ramadeg ac idiom naturiol Gymraeg.**

I gyrraedd lefel uwch disgwylid:

Rhywfaint mwy o gynildeb mewn rhannau o'r naratif.

13. Ffrind? (nodweddion o Lefel 8)

Ffrind?

Ymson 1 – Megan

O! Mei God! Fedra i wir ddim coelio hyn. Pwy fyddai'n meddwl y byddai hyn yn digwydd i mi? Tydi pethau fel hyn jyst ddim yn digwydd i mi o gwbl. A heddiw o bob diwrnod. Hwn ydy'r diwrnod pen-blwydd gora' rydw i erioed wedi'i gael. Fydden i byth yn credu y gallai pethau fynd yn ddim gwell i mi wedi i mi agor 'y'n anrhegion i bore 'ma. Cefais sioc o weld y ffôn symudol ddiwedddara – mewn pinc! – yn y bocs a'r sythwyr gwallt newydd. 'Ro'n i ar ben fy nigon wedyn pan agorais anrheg nain a taid – casgliad o ddillad newydd sbon, a'r rhan fwyaf ohonynt yn rhai "designer!"

Ond pan wnaeth Barry ollwng ei hun yn flêr (ond cŵl) wrth fy ymyl amser cinio heddiw a gofyn os yr awn i allan ag o, roeddwn i wedi cael cymaint o sioc nes i mi eistedd yno yn syllu arno'n geg agored fel pysgodyn aur am ychydig funudau. Mi ddeffrais i'n reit sydyn o fy mreuddwydion wrth i mi sylweddoli beth y gwnaeth o ofyn i mi. Gwenais arno fel clown a chytuno yn syth. Dw i'n dechrau difaru rŵan. Ella y dylswn i fod wedi bod ychydig yn llai brwdfrydig a chwarae'n "hard to get" fel ma nhw'n 'i ddeud yntê, ond ma' hi'n rhy hwyr rŵan.

Sgin i'm syniad be wisga i nos Sadwrn. Dw i 'erioed 'di bod ar ddêt o'r blaen. Fedra i ddim cyfleu pa mor nyrfys dw i o gwbl – a dim ond dydd Llun ydy hi! Fydd raid i mi ofyn i Elin ddod efo fi i siopa nos 'fory ar ôl 'rysgol, tydy'r dillad ges i gan nain ddim digon soffistigedig i fynd allan ar ddêt efo'r hogyn mwya' poblogaidd yn yr ysgol. Mi fydd raid i mi gael hyd i ryw ffrog ddel neu rw bath. Bydd rhaid gwneud argraff ar y dêt cynta' yn bydd.

Ymson 2 – Elin

Dw i erioed wedi bod mor flin efo neb. Erioed! Mi roedd hi'n gwybod yn iawn 'y mod i'n ei ffansio fo. Dw i wedi disgyn mewn cariad efo fo ers y diwrnod cyntaf i mi ei weld o ym mlwyddyn 7. Rydw i wastad wedi dweud mai lyf at ffyrst seit oedd o, yndê, ond roedd hi'n benderfynol mai gwneud lol 'roeddwn i. Wn i ddim sut y medra hi fod mor ddau wynebog, mor hunanol. Tydi hi erioed wedi edrych ddwywaith ar Barry, ond rŵan mae hi'n

glafoerio drosto fo i gyd ym mhob gwers, amsar egwyl, amsar cinio, ar y bys a phryd bynnag arall y mae hi'n digwydd i weld o.

Ma hi'n mynd ar ddêt efo fo nos Sadwrn – i "McDonalds". Fydd o "mor rhamantus" medda hi. Hy! Rhamantus wir. Ma hi'n hen bryd i'r hogan dyfu i fyny, a hynny'n reit sydyn neu fydd Barry yn 'i dympio hi'n syth. Er, ella mai dyna 'rydw i isio. Wedi'r cyfan, fi sydd yn'i licio fo go iawn. Mi ffoniodd hi fi gyna yn brolio'r cwbl, 'i bod hi 'di cal dêt efo'r hogyn dela' a mwyaf poblogaidd yn yr ysgol gyfan. Fetia i mai dim ond un peth y mae o isio ganddi'n diwedd, ac nad ydy o'n ei licio hi go iawn. Yr un peth y mae hogia'r chweched isio bob tro.

'Odd ganddi hi'r wyneb i ofyn i mi fynd efo hi ar y bys i dre i siopa am ddillad newydd b'nawn Sadwrn. Isio ffrog newydd oedd hi, medda hi. I fynd i "McDonalds"! Mi wneith hi ffitio i mewn yn berffaith. Mi wrthodais i'n syth gan wneud rhyw esgus tila fel fod hen yncl fy nhrydydd cyfnither yn dod draw. Mi bwdodd hi efo fi wedyn a rhoi'r ffôn i lawr. Dw i'n dyfaru gwneud hynny rwan. Ddylswn i fod wedi cytuno mynd, a dewis gwisg erchyll iddi i fynd. I ddeud y gwir ma' hynna'n syniad reit dda. Mi fffonia i hi'n syth i ddweud 'mod i wedi newid fy meddwl... ar ôl cael cawod, cael swper, gwneud fy ngwaith cartref, dysgu'r brawddegau Ffrangeg a mynd i fy ngwers biano. Efallai.

Ymson 3 – Barry

O 'rargol fawr! Pan gytunais i i'r her gan Dewi o fynd am ddêt efo Megan Parri do'n i'n disgwyl dim o hyn. Yr unig beth o'n i'n ei ddisgwyl oedd cael dêt distaw yn "McDonalds" efo hi nos Sadwrn ac ella cael yr hogia yn tynnu arna i ryw 'chydig ddydd Llun, ond dim llawar mwy. Do'n i'n bendant ddim yn disgwyl gorfod bod yn "Agony Aunt" a Jerry Springer yn y broses.

Mi ges i rywfaint o sioc, i fod yn onest, pan ddaeth Megan yn rhedeg ata i ac yn taflu'i hun arna i yn ddaagrau ac yn snot i gyd. Doedd gen i ddim syniad beth i'w wneud efo hetar smwddio ar dân. Ond doedd gen i ddim dewis ond gafal ynddi hi a trio i symud hi yn bellach i ffwrdd cyn i'r hogia ddechrau ei phryfocio a'i gwneud hi'n waeth.

O be' ddeallais i, rhwng yr higian crio a'r chwythu trwyn, roedd Elin wedi gwrthod mynd i siopa efo hi ddydd Sadwrn am ei bod hi'n mynd allan efo fi a hithan gw'bod yn iawn fod Elin yn fy ffansio i. I fod yn onest, dw i ddim yn deall pam fod angen yr holl ffys, ond be'r ydach chi'n ddisgwyl gan genod ond traffath... Ella fyddai'n well os y byddwn i wedi gofyn i Catrin Evans yn lle Megan Parri – ma' hi'n beth fach boeth. Ond dyna'r unig broblem, bach iawn ydy hi. Mi fydda' hi'n anodd iawn... Y, y! Beth bynnag mae hi'n rhy hwyr i newid fy meddwl neu mi fydda i'n 'i chael hi go iawn gan yr hogia a tydw i ddim eisiau colli fy enw da.

Ymson 4 – Megan

Wn i ddim sut y bues i mor ddi-feddwl. Ro'n i'n gwybod yn iawn fod Elin mewn cariad dros ei phen a'i chlustiau â Barry ers blynyddoedd ac mi es i a cherdded dros ei theimladau hi heb feddwl ddwywaith. Roedd 'na rywbeth tu mewn i mi yn dweud wrth i yr holl amser fod yna rywbeth yn bod, rhywbeth yn anghywir ond mi anwybyddais i nhw'n llwyr. Wn i ddim sut y gallwn i fod wedi bod mor ofnadwy o hunanol. Ond, dyna fo. Ma'r drwg wedi'i wneud rwan. Waeth i mi fynd nos Sadwrn ddim. Wedi'r cyfan. Fyddwn i ddim eisiau siomi Barry a chodi cywilydd arno fo. Mae ganddo fo enw da. Fo ydy hogyn mwya' poblogaidd a del yn yr ysgol – a mae o'n gw'bod hynny'n iawn 'fyd.

* * *

Rhyfedd. Y peth dwytha' ro'n i'n ei ddisgwyl rwan oedd tecst gan Elin yn cytuno i ddod i siopa wedi'r cyfan. Diolch byth nad ydy hi wedi dal dig yn rhy hir. Wn i ddim beth fyddwn i'n ei wneud hebddi. Dw i 'di bod fel iâr 'di colli 'i phen o gwmpas y tŷ heb neb i'w ffonio na thecstio. A does gen i ddim syniad o gwbl efo ffasiwn, ond Elin ar y llaw arall? Mae hi fel Duw ble mae steil yn y cwestiwn. Wel, mi fedra i gysgu'n dawel heno o wybod y bydda i mewn dwylo saff b'nawn Sadwrn.

Ymson 5 - Barry

Lle ar y ddaear ma'r hogan 'ma? Dw i 'di bod yn aros fatha llo glyb 'di colli'i fam yn fama ers dros hanner awr. Mae pobl yn dechrau sbïo'n llawn cydymdeimlad arna i wrth iddynt basio allan law yn llaw efo'u cariadon, a finna'n dal i edrych – ceisio edrych – yn fodlon ar fy mhen fy hun fel nad ydw i'n disgwyl am rywun. Byddwn i'n medru jyst cerdded o 'ma yn hamddenol braf rŵan hyn ond ma'n rhaid i mi aros yma am oleia' dwy awr, neu dydw i ddim wedi cyflawni'r her. Ac rydw i eisoes wedi sylwi fod yna "Renault Clio" bach coch, yn union yr un fath a un brawd Dewi, wedi'i barcio dros y ffordd a'r bwrdd yr ydw i'n eistedd arno. Cha' i ddim get awê efo hyn mor hawdd â hynny – ddim os ydy Dewi'n rhywbeth i'w wneud â'r peth.

Nefi wen! Ma' 'na ryw hogan newydd stagro mewn i'r adeilad mewn 'sgidiau "stilettoes" gwyrdd lliw leim, â sanau pinc yn cuddio'i fferau. Mae'r ffrog sydd ganddi yn ddigon i godi braw ar neb – un binc llachar efo smotiau gwyrdd yr un lliw a'r 'sgidiau drosti i gyd. S'gin i'm syniad lle y gwnaeth hi gael gafael ar y ffasiwn beth. Fedra i ddim dychmygu pwy fyddai yn meddwl am wisgo'r ffasiwn beth i barti gwisgo i fyny, heb sôn am i "McDonalds" ar nos Sadwrn. Mae pwy bynnag sydd wedi gwneud ei gwallt hi angen gweld seicolegydd yn reit sydyn os ydych chi'n gofyn i fi. Mae o wedi ei glymu'n ôl reit ar dop ei phen hi, nes ei fod o'n edrych fel plu ar ben cocatîl wedi cael sioc drydanol! Mae hi'n dechrau edrych o gwmpas fel petai hi'n chwilio am rywun. Ma' gen i wir biti dros pwy bynnag sy'n gorfod treulio'r noson efo hon. O, na! Mae hi'n nesau at fy mwrdd i. Dw i'n edrych o gwmpas i weld os oes yna rywun i weld yn ei disgwyl hi, ond mae pawb o fy nghwmpas i'w weld yn ddwfn mewn sgwrs efo rhywun. O damia! Dw i newydd sylweddoli! Megan ydy hi!!!

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Cyfres o ymsonau sy'n cynnal diddordeb y darlennydd o'r cychwyn cyntaf a naturioldeb yr arddull sgysiol yn gwbl addas**, e.e. 'O! Mei God! Fedra i wir ddim coelio hyn. Pwy fyddai'n meddwl y byddai hyn yn digwydd i mi? Tydi pethau fel hyn jyst ddim yn digwydd i mi o gwbl. A heddiw o bob diwrnod.'
- **Amlygu techneg llif yr ymwybod gan gyfleu a datblygu teimladau'r tri chymeriad yn glir a'u hymateb naturiol i'r dêt a drefnwyd**, e.e. 'Tydi hi erioed wedi edrych ddwywaith ar Barry, ond nwan mae hi'n glafoerio drosto fo i gyd ym mhob gwers, amsar egwyl, amsar cinio, ar y bys a phryd bynnag arall y mae hi'n digwydd i weld o.'
- **Adeiladwaith crefftus i'r ymsonau sy'n cyrraedd uchafbwynt pan fo Barry yn wynebu'i her** ac yn 'aros fatha llo glyb 'di colli'i fam . . . ers dros hanner awr.'
- **Dewis pwrpasol o eirfa ac ymadroddion ac amrywiaeth o nodweddion arddull**, e.e. disgrifiadau gwreiddiol – 'syllu arno'n geg agored fel pysgodyn aur', 'Dw i 'di bod fel iâr 'di colli'i phen o gwmpas y tŷ', 'edrych fel plu ar ben cocatîl wedi cael sioc drydanol', ymateb personol a chywair iaith addas, 'Nefi wen!', 'fel ma nhw'n 'i ddeud yntê', 'O 'rargol fawr!', brawddegau byrion, 'O damia! Dw i newydd sylweddoli! Megan ydy hi!!!'
- **Dangos gafaél dda ar ramadeg ac idiom naturiol Gymraeg wrth ysgrifennu'n dafodieithol.**

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Rhywfaint mwy o gynildeb mewn ambell ymson a chwynnu ambell wall.

14. Dros Ben Llestri (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Yn lled-erwedd ym mhên pellu'r dafarn yr oedd hi, yn ei chartra hi. Mi fentrais i gamu i'r byd estroen gan frynio tung ati. Edrychais i ddyfnderoedd ei llygaid gleision gan weld tonau o anobaith. Roedd y cyffro a'r bywyd a arferai fod ynddi wedi dirywio. Gafaelais yn dymn, dymn yn ei llaw a'i llusgo ar draws yr ystafell. Ond nid oedd hi am symud. Roedd hi'n gael i'r gornel dywyll a'r ddi-hangfa a ddewis o waed pob gwydriad.

"Mam," sibrydlais "plis, tyrd adra."

Edrychoedd yn ffiaidd arna i. Roedd llygaid pawb yn yr ystafell fechan wed'u heddio arna ni ein diwy. Tynnodd Mam yn galed ar ei sgaret a chwytha'r mwg llwyd-lan i ngwynch.

"Cad fi fod, Lois," meddai'n ddi-gynwrf. Stryflagoedd yn ôl at y gornel gan olwng ei chorff eiddif i dymchwel ar y gadair galed. Heb adael i'r ohygia drist a welwn fy nhenntio i ail-yngcino, bras-gamais allan o'r hen adeilad, i'r awyr iach.

Roedd y stori'n fel ar wefusau'r pentrefwyr fore trannoeth. Gallwn glywoc lleisiau'n llithro yn yr aer fain, acafol, drwy'r ffenestr gil-aggored.

"Ann yr aki wedi yfed ei hun yn wallgo! Y ferch wedi ceisio ei llusgo hi allan o'r dafarn. Pethu' wedi mynd i'r diawl yn y cartra. Y ferch yn gorlod gofalu amdani hi ei hun, a hithau yn ddim ond podair ar ddes!"

Oedd, roedd y gyw yn brifo a phob gar fel cyllell yn fy nhywam. Byddai eu tafodau gwenwyd yn brifo erbyn diwedd y dydd ar ôl lleadau'r stori. Ond roeddyn niw'n iawn, doedd neb yn ddall i'm mhoen.

Agorodd y drws, ac yna eai. Stryflagoedd Mam drwy ddrws y gegin. Roedd ei llygaid yn wag, fel pe bai'r holl ddiod wedi golchi pob emosiwn a theimlad o'i chorff. Syllais arni wrth iddi lachio ei bag ar y llawer a gisodd ar y gadair. Caedd ei llygaid yn dymn nes oedd ei wynch wedi crebachu'r bu tawelwch.

"Mam?" Nid oeddwn yn siwr os yr oedd hi wedi nghlywed i. Yn araf, agorodd ei llygaid i edrych yn ddiagwyliedig arna i. "Ti'n siwr ei fod o'n beth call dy fod di'n yfed fel hyn?"

Edrychoedd yn ffiaidd arna i eto, yn unig fel y gwnaeth hi yn y dafarn.

"Meindia dy fusas, Lois. Mi fyddi di 'run fath yn fy oed i."

Ceisais amwybyddu ei geiriau er eu bod yn chwarae mig yn fy meddwl. Bu tawelwch llethol eto. Roeddwn i'n awyddus i'w helpu hi, er ei bod hi'n rhy hwyt. Roedd diod bellach yn fargod iddi, a'r grym rhyngddynt yn anorchyggol.

"Ond Mam, dwi'n poeni amdana chdi, ti wedi mynd dros ben llestri."

Tawelwch "Pam dy fod di'n yfed fel...?"

"Lleddfu peen," torrodd ar fy nhraws "mae o'n lleddfu mhoen i Lois, ac ni fyddai stopio yfad yn brifo gormod."

Ystyriais hyn. Ond beth oedd yn gymaint o been yn ei bywyd... Y fi?

Doeddwn i ddim yn bodoli iddi bellach.

"Dwi'n mynd." Meddai'n sydyn, rhyw obaith newydd yn ei llygaid.

"I le?"

"Fyb." Brysodd drwy'r drws, fe'i dilynais.

"Mam, plis paid. Paid a mynd yno eto."

"Mi wna i fel yr ydwr i iais, Lois," meddai'n chwefw, "os na yr wyt ti iais dod hefo mi, ynde, a chditha wedi dechrau mynd yno. Mi godais di gymaint o gwilyddi arna i ddoe."

"C'wilyddi?" Codais fy llais. "A beth yr wt ti'n meddwl yr ydwr i'n ci deimlo pan yr wyt ti'n feddw o amgylch y lle ma, e?"

Trodd ati i, roedd hi'n gymdeirig.

"O leiaf mae gen i bwrpas! Ma' pobl yn fy nabod i! Ddhen fel chdi, Lois. Ti'n ddi-yetye, a dweud y gwir, does yna'm pwynt i chdi gario 'mlaen."

Fe aeth hi wedyn, a'i geiriau hi yn dal i atseinio yn fy mhenni, yn gadarn creithiau bywyd arnaf.

Roedd rhywbeth go heddychlon am sillrwd a sibrwd y tonnau wrth iddylt amadfa ar y lan. Roedd y sisal yn lleddfu rhyw boen a lenwa fy nghorff. Eoeddwn wedi cerdded tua'r traeth, wedi dilyn fy nhrwyn, yn denu awl par o lygaid ar y ffordd. Eistoddais ar y wal uchel wrth y môr a throedfeddi o dan fy nhraed roedd y tonnau yn curo'r creigiau. Eistoddais yno am rai eiliadau yn gwrando ar fy nghyfaill newydd yn sibrwd, sisal, sillrwd.

Yn denu.

Yn gwahodd.

Fedwrn i? Fedwrn i dafu fy hun dros yr ochr. Syml, yn doedd? Gadael i donnau'r môr fy nghludo i noddfa lle nad oedd poen, galat, gofid. Chymais fy swylo'n dynn o amgylch fy nghorff a siglo fy hun yn nôl, ymlaen, yn nôl, ymlaen...

— Fedwrn i?

Sylwebaeth

Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ymwybyddiaeth lwyr o hanfodion y ffurf gydag ysgrifennu treiddgar ac aeddfed yn cyflwyno sefyllfa sensitif yn afaelgar o'r cychwyn**, e.e. 'Yn lled-orwedd ym mhen pella'r dafarn yr oedd hi, yn ei chartra hi. Mi fentrais i gamu i'r byd estron gan frysio tuag ati. Edrychais i ddyfnderoedd ei llygaid gleision gan weld tonnau o anobaith.'
- **Cymeriadu cryf a chynnil gyda'r darlun o'r fam yn datblygu'n llawn emosiwn**, e.e. 'Agorodd y drws, ac yna cau. Stryffaglodd Mam drwy ddrws y gegin. Roedd ei llygaid yn wag, fel pe bai'r holl ddiod wedi golchi pob emosiwn a theimlad o'i chorff. Syllais arni wrth iddi luchio ei bag ar y llawr a eistedd ar y gadair. Caeodd ei llygaid yn dynn nes oedd ei wyneb wedi crebachu. Bu tawelwch.'
- **Datblygu sefyllfaoedd yn sensitif a chreu awyrgylch arbennig drwy ddefnydd naratif a deialog**, e.e. 'Roedd hi'n gaeth i'r gornel dywyll a'r ddihangfa ddeuai o waelod pob gwydriad.
"Mam," sibrydais "plis, tyrd adra."
Edrychodd yn ffiائد arna i. Roedd llygaid pawb yn yr ystafell fechan wed'u hoelio arna ni ein dwy. Tynnodd Mam yn galed ar ei sigaret a chwythu'r mwg llwyd-las i ngwyneb.
"Gad fi fod, Lois," meddai'n ddi-gynnwrf.'
- **Cyfoeth o adnoddau iaith ac aeddfedrwydd i drin a thrafod geiriau, y brawddegau'n glyfar a chynildeb y dweud yn dreiddgar iawn**, e.e. 'Roedd rhywbeth go heddychlon am siffrwd a sibrwd y tonnau wrth iddynt anadlu ar y lan. Roedd y sisial yn lleddfu rhyw boen a lenwa fy nghorff. Roeddwn wedi cerdded tua'r traeth, wedi dilyn fy nhrwyn, yn denu sawl par o lygaid ar y ffordd . . . Eisteddais yno am rai eiliadau yn gwranddo ar fy nghyfaill newydd yn sibrwd, sisial, siffrwd.
Yn denu.
Yn gwahodd.'
- **Clo awgrymog yn creu cyfanwaith creadigol, celfydd**, e.e. 'Fedrwn i? Fedrwn i daflu fy hun dros yr ochr. Syml, yn doedd? Gadael i donnau'r môr fy nghludo i noddfa lle nad oedd poen, galar, gofid. Clymais fy nwylo'n dynn o amgylch fy nghorff a siglo fu hun yn nôl, ymlaen, yn nôl, ymlaen . . . 'Fedrwn i?'

15. Dros Ben Llestri (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Dros Ben Llestri

"Un wy, dau fecyn a hanner pint o saim i fwdd wyth a thri chwarter pfa!"
Daeth y llaw o'r tu ôl i'r mynydd o leuni budur, gan beri i'r law llythro oddi ar
rai sbectol a disgyn gyda fflop anghysnes ar y llaw i ymuno â i berthanasau
oedd wedi cyrraedd yno o'i llaw ers rhai dyddiau. Daeth rŵn sio wrth i'r
lucan ddechrau cyntu yn y badell. Doedd hi ddim yn le rhy. I'n yng
nghyngin Pete, roedd hyd yn oed yr ager yn mynnu bath. Ei reol oedd, os y
lyddai i llygod mawr yn cwyno, yna buasai yn meddwl am llaw, oed gan fod
y llygod un ai yn y cawl nglu o dan aceri o law a saim toedfym ddim yn
debygol o gerio cynnal fefferendwm yn y gegin. Doeddwn innau chwaith
ddim mewn sefyllfa i gwyno, doedd cael fy enw ar y lwrdd 'Specials' drws
neaf i'r byrgyrr caw ddim yn apelio rhyw lawer gaf. Gwnebydd oeddwn i
yng nghafli hyd erwg 'Paffle Pete' erw oddas i le a oedd gyda digon o
mwmio gwaed i weiddi chi arwyn nru. Roedd y par yn wael, a'r cwydd yn
wath byth, ond bywoliarth oedd hi, ac roedd yn cadw'r blaidd o'r drws, ond
yn ôl pob sôn yr oedd 'Pete' wedi dal hwnnw a'i weithio i lewi i'r hantai gig
ni hlymshuedd yn ôl. Eto doedd dim diben i mi gwyno.

Mi oedd bywyd reu bras, roedd y bwyd ac ambell alwyn o saim yn
llenwi ein boliau a'n meddyliau. Roedd Gwion goet glec yn dal i fynd, yr un
mwr grbachlyd ac erioed. Cnoc baco oedd ei berthau o, ac yn ôl pob sôn wedi
gwirnod ffortiwn i phoerriad siop wnech Dewi Fws. Wedyn hi'n byw yn drws a
llywyddedd i brynu coes fabogari newydd. Ond ddygymodd rhon Gwion ar
amserau caletach ac felly yr oedd yntau erbyn hyn yn gwrthio i Pete. Do mi
gawson ni ddiagon o ciru melyn i wneud lemoned drws y tua amser y dolig, a
rhoddwyd haw cwnllangem yn lle y cyranta yn y minn petis. Daeth dardryff yn
hundi mewn i wneud sawgwr eisin.

Ond fe ddaeth hi'n haf, a ghoth haf mas i'w pryd yn dod, ac ar ôl y pryd
llaw ardlwybyr glendid bwyd. Mi oedd hi'n dro i mi cael ein harchwyllo eleni
gwaetha'r modd. Gwini ar un o'r bobl leol oeddwn i ar y pryd y fi a phedwar
arall. 'Twm Tatar' oedd ei enw, heryn o ddyn yn unson fel yr Wyddfa wedi
ei wneud o jeli. Yr unig beth yn gyllindan rhyngddo fo a staten oedd nag oedd
yr un o'r ddau yn symud rhyw lawer. Yr agosaf a ddaeth Twm erioed i datan
oedd un wedi ei ffrio mewn saim ac wedi ei gorchuddio a sôn coch. Hanner
mochyn ac ychydig dafwain o wnan oedd yn mynd a'i fryd heddiw, a dyma
Gfina a phedwar arall yn mynd a'i frecwast addo. Roedd Twm yn gwneud i Dai
Jones, Llanilar, edrych fel Kate Moss ar ddeiet. Pefirodd ei dibwy llygaid ddu
lach amaf yn eiddgar.

"Aww, dyma ni y beipdd wedi cyrraedd. Tynd a fo yn nes wan i mi gael clywad i
ogla' fo."

Llyfodd ei weflau yn awchus, a deiflodd ar ben y bwyd gan wneud y tynnau
rhyfedda. Ar hynny daeth sôn y gloch wrth i'r drws agor. Arth Gwion Goet
gloc yno, cyn gyswll ac y meirai o, roedd pry pren wedi dechrau ymgartnefu yn
ei goes. Dechreuodd ar ei awth arferol.

"Helo a chroeso i'r caffi gotau o lewi dwy lath, ble mas'r bwyd am bris
rhegyrood ond y llygaid ddu am ddim..."

"Sa i am brynu dim..."

"Clichechoiwd" poeodd Gwion Iaco wrth drand yr ymwehwr, poeriad yr un flunad yn fy mam i â Sian Cothi. Roedd yr ymwehwr fel pin mewn-espâr, sbwng yr eglidiau daon, y siwt a'r bet fowler, roedd o'n edrych fel petai Duw ei hun yn ei sdehnyddio i wnead ei gyfrifon.

"Rei! mae na' yn mynd i lawr" Ysgrifonodd ar ei glipfwrdd gyda beiro arian.

"Be dwad? Fedrai ddim ych dallt nach clywad chi! Y chi sydd fel arfer yn agwennu'r ordor, dim y cyrmar. Sosij fusai'r gorau i chi a wj, steddwech rwan yn fama", meddai gan sychu'r bwrdd hefo i lawer, gan greu traffordd drwy ganol y llanast oedd yno.

"Mi a i ordro yn eich lle chi?"

"Sgwela ma, so i cisiau 'sosej', fi angen gweld y gegjn da chi?"

Syllodd Gwion ar yr ymwelydd, ei wyneu chychiog blewog yn ceiso proseru yr hyn oedd yn mynd trwy ei feddwl, bron nad oeddi'n yn gallu clywed y gwacter yn ei ben yn atsemio dros sŵn y cyllyll a'r ffyr.

"Rei!" meddai'r ymwelydd.

"Mr Michael Minnice ydwi, ac trwy wedi dod i insbectio y safle yma?"

Edrychodd ar y to a oedd chwate teg yn liw coch parchus, ar ôl lladd y mochyn diwethaf.

"Insbectio, ddeudodd o? Mi bingith Pete o?" Roedd Gwion wedi cynhyrfu ac yn cychwyn glafocrio sudd baco dros eglidiau Mr Minnice.

"Ma na' yn mynd lawr" sgribl, sgribl pob gair yn ein gyrru ni o ddyfnach i'r well seimllyd yma. Henciodd Gwion i'r ystafell gerfa, rwyddfa Pete, gan foddwl ei ryboddio, ond yn anffodus doedd mahogani ddim yn both da iawn yn erbyn pryfid pen, ac fe aeth ei goes odano.

"Sa well i chi ddeud hefo fi?" Meddau fi gan dywys Mr Minnice drwy'r bwyty ac i'r gegin. Roedd yn gagrwrth pan welodd o gyflwr y lle, roeddwn i ofn i'r pryfed ddechrau mynd i mewn i'r geg dal pryfed o'r iawn ryw. Os nad oedd y ffenri gyda madarch coch yn ffynnu amyns ddim digon drwg, roedd y gath,

Cripiwr ar ben y bwrdd yn mwynhau ei hun wrth geisio cooi ei ffordd drwy statyn u gig wedi rhewi. Dychrynodd Cripiwr wrth weld dyn mae dachus a sgristodd oddi ar y bwrdd gan adael blewiasch orn ar ei ôl. Caeodd y geg yn glep, sgribl, sgribl, sgribl, nes oedd mwg yn codi oddi ar y clipfwrdd.

Penderfynais dlangos y hadell iddo fo

"Sda' chi ddim gril, yn y lle ma'?" Sgwltwch mae trwch o sŵm ar hon?"

"Wel trwyd wedi ffrio mae pawb cisiau o gwmpas y lle yma, does dim galw am ddim byd crand fel salad chi a bwydydd iach."

Sgribl, sgribl, roedd ei feiro yn cisias erbyn hyn.

Pwyntiodd at sosban yn y gomei

"Beth yw hwn?"

"Sypreis cyw iar"

"Beth yw'r sypreis?"

"Ddim cyw iar ydio, er mae yma blu yn llechu yma yn rwd"

"Pam, cyw iar' ac?"

"Mae o'n clwocian bob hyn a hyn, ac mae Gwion yn taeru ei fod o'n gorff! Ar hanner pwyty o facwa!"

Sgrïbl, sgrïbl, roedd yn amlwg bod hwn a'i fryd ar ein casu ni i lawr. Os na fustai o yn ofalus mewn powllan with ymyl clustiau yr 'inspector' diwethaf fyddai ei ddiwedd o. Ar hynny daeth Gwion i fewn, gyda tŷp setlo o awgylch ei goes yn cario archeb hwdin Twm mewn berfa.

"A ma' fo, y swp of ddy de!" Roedd hi'n amlwg ei fod am godi trwtol, y fo ni goes glac. "Sut mae Minnice-stron yn swio?"

Sgrïbl, sgrïbl

"Reit, wi mo'n gweld Pete"

"Chewch chi ddim, mae o'n brysur yn, yn gwneud ..." Mi on in sŷyc

"DIM", gwaeddodd Gwion

"Yn fama mae o, "Gan ei dynnu heibio Twm ac i'r ystafell gefn. Mi es i'nau ar ei ôl o hefyd a gwelais Pete yn eistedd ar gadair, sigle fel boccyll yn ei lawr, a bysedd cyflelyb.

"Mr Pete?"

"Pwy sy' gofyn?" Mi oedd ei lais o fel tractor gyda fflin.

"Y fi Mr Michael Minnice, Inspector a fi moyn casu y lle ma' lawr."

O diar mi, roedd storm ar y gorwel, un lawr flewog hefyd.

Cododd Pete yn chwre troedfedd a hanner o flew, blonng a tairn.

"Doe o ma', dwi'n cael tmdc" yn union fel ei gadair hefyd yn ôl pob gofwg.

"Dyna un o'ch troeddao chi, mae'r llestri ar gweithle yn fudur, eich staff yn ddigwilydd..." Cododd Pete ei law ac estynnodd lestr, o'r twmpath madarchilyd ar lawr.

"Dwi'n gweld gwynab fi yn fama"

"Dim ond am bod y sŷm yn shino"

"A ma' staff fi yn neis i fi..."

"Wel a bod yn deg so chi yn dŷyn hawdd ei drin."

"Doe allan! Y bygar neu mi fflin di"

"So' chin mynd dros ben llestri braidd?"

"Na chdi tydd yn mynd dros ben llestri, **DOS O' MA!! Y LLIPRYN BACH PWYSIG!!!**"

Mi oedd Pete yn gamryll ac yn chwifio'r sigle fel chuddyl o'i flaen. Gafaelodd yng ngwar Mr Minnice a'i dalu, fo a'i glipfodd dros y mynydd o lestri heibio Twm ac i'r sioc...

Diwrnod scimilyd arall a ddechras wythnos scimilyd arall ac roedd

Twm newydd stasio ei set am yr ail waith cyn setlo i lawr am ei fwyd.

Sglemiodd ei lygad durn arall i, ar pum person arall.

"Ase, dyna ni y briged wedi cyrraedd, tyd a fo yn net wan i mi gael clywad i ogla' fo' ebe Twm.

"Mmm swp reit dda a Minnice-stron hefyd, go dda hogiau"

Oedd mi oedd hi'n ddifyr iawn gweithio yn y gegin. Ond, rydw i wedi etel dyrchafiad rwan, yn y fladd-dŷ ydw i rwan a mae hi'n seiso ar yr haf.....

Sylwebaeth

Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ysgrifennu treiddgar, hynod wreiddiol, yn llawn hiwmor a ffraethineb wrth sôn am ymweliad archwiliwr glendid bwyd â chaffi budr a pheryglus** 'ble mae'r bwyd am bris rhesymol ond y lygaid ddu am ddim . . .'
- **Cymeriadau dychmygol, byw sy'n cydio ac yn datblygu gan ddefnyddio deialog lithrig, naturiol a thafodieithol**, e.e. "Reit mae na' yn mynd i lawr" Ysgrifennodd ar ei glipfwrdd gyda beiro arian.
"Be dwad? Fedrai ddim ych dallt nach clywad chi! Y ni sydd fel arfer yn sgwennu'r ordor, dim y cwsmar. Sosij fuasai'r gorau i chi a wŷ, steddych rwan yn fama," meddai gan sychu'r bwrdd hefo'i lawes, gan greu traffordd drwy ganol y llanast oedd yno.
"Mi a i ordro yn eich lle chi"
"Shgwla ma, so'i eisiau 'sosej', fi angen gweld y gegin da chi".
- **Creu sefyllfaoedd doniol sy'n codi chwilfrydedd a'u datblygu'n gydlynus**, e.e. 'Os nad oedd y llestri gyda madarch coch yn ffynnu arnynt ddim digon drwg, roedd y gath, Cripsiwr ar ben y bwrdd yn mwynhau ei hun wrth geisio cnoi ei ffordd drwy slabyn o gig wedi rhewi. Dychrynodd Cripsiwr wrth weld dyn mor daclus a sgrialodd oddi ar y bwrdd gan adael blewiach oren ar ei ôl. Caeodd y geg yn glep, sgribl, sgribl, nes oedd mwg yn codi oddi ar y clipfwrdd.'
- **Dawn dweud naturiol gyfoethog gyda chynildeb a hiwmor aeddfed wrth drin a thrafod geiriau**, e.e. 'Ei reol oedd, os y byddai'r llygod mawr yn cwyno, yna buasai yn meddwl am llau, ond gan bod y llygod un ai yn y cawl neu o dan aceri o faw a saim toeddynt ddim yn debygol o geisio cynnal refferendwm yn y gegin.'
- **Clo cynnil, crafog ac awgrymog yn creu cyfanwaith celfydd**, e.e. "Mmm sŵp reit dda a Minnice-stroni hefyd, go dda hogiau" Oedd mi oedd hi'n ddifyr iawn gweithio yn y gegin. Ond rydw i wedi cael dyrchafiad rwan, yn y lladd-dŷ ydw i rwan a mae hi'n nesau at yr haf.....'

4

Mynegi barn

16. Bwlio (nodweddion o Lefel 7)

Bwlio

Un math o fwlio yw'r arfer o alw enwau annymundol ar person. Yn fy marn i mae hynny yn gwbl annerbyniol oherwydd mae'n gallu brifo person i'r byw. Dywedaf hyn oherwydd fy mhrofiad personol i. Cefais fy mwlio am flwyddyn yn yr ysgol gynradd ac mi roedd y bwlio yn llafar y rhan fwyaf o'r amser, ac mi gefais i fy mriifo gan y geiriau cas hynny.

Ychydig o fisoedd yn ôl fe ddarlledwyd nifer o achosion o fwlio ar y rhaglen "Big Brother". Cafodd Shilpa Shetty ei bwlio gan Jade Goody oherwydd lliw ei croen a'i chefnidir. Credaf bod defnyddio hil person arall er mwyn ei bwlio yn anghywir ac yn gwneud i'r person sy'n dioddef deimlo'n israddol. Roedd Jade Goody yn defnyddio sylwadau hillol er mwyn achosi poen i Shilpa Shetty. Credaf yn gryf bod laith ac ymddygiad Jade Goody yn gwbl warthus, ac rwy'n beimlo nad oedd hi'n meddwl am yr hyn roedd hi'n ei ddweud, nac sut y byddai'r geiriau dychrynilyd yn effeithio Shilpa Shetty. Yr hyn roedd Jade Goody yn ei wneud oedd galw enwau ar Shilpa Shetty a dechrau cweryla gyda hi am ddim byd. Cafodd hwn effaith mawr ar Shilpa Shetty ac ar cyhoedd a oedd yn gwylio'r rhaglen. Er y derbyniodd Shilpa Shetty ymddiheuriad Jade Goody, mae effaith y bwlio a'r hillaeth yn dal i fodoli ac am y rheswm yma, gohirwyd rhaglen "Big Brother" am eidd.

Rhwy fis yn ôl pan gynhaliwyd ras Fformiwla Un yn Sbaen, bycharwyd Lewis Hamilton gan griw o bobl Sbaen oherwydd lliw ei groen. Credaf bod rhywbeth fel hyn yn erchyll, yn hillol ac yn annheimpladwy. Credaf yn gryf na ddylai'r pedwar person a oedd yn gyfrifol fod yn cael mynychu gweithgaredd cyhoeddus fel hyn byth eto. Mae Lewis Hamilton yn ddyn ifanc talentog o Brydain sy'n ddu ei groen, ond, yn fy marn i, does dim byd yn bod ar hynny gan fod talent enfawr ganddo yn y byd rasio, a dylai pobl ei werthfawrogi yn lle ei fychanu. Yr hyn a wnaeth y pedwar person oedd lliwio eu croen yn ddu a dangos crysau gyda'r geiriau "Lewis Hamilton's family". Credaf bod hyn yn afiach ac yn ddigwyddiad erchyll i fachgen mor dalentog. O ganlyniad i'r digwyddiad yma, efallai na chaiff Sbaen gynnal ras Fformiwla Un eto am nad ydynt yn ddigon parchus ac ystyriol at y cystadleuwyr. Anghyrtiaf

y chydig gyda'r penderfyniad yma am nad ydy'n deg costb'r wlad gyfan am weithredoedd y chydig o bobl yn unig.

Math arall o fwlio yw'r agwedd corfforol ohono e.e curo neu gicio person. Credaf yn gryf fod bwlio corfforol yn beth hollol afiach ac yn greulon am ei fod yn brifo person yn gorfforol ac yn seicolegol. Mewn cychgrawn darlennais am ferch yn cael ei bwlio gan grŵp o ferched eraill ac yn aml, roedd trais yn digwydd pan nad oedd gan y ferch unrhyw gymorth. Ond, pan oedd gan y ferch ffrind gyda hi, nid oedd y grŵp yn pigo arni am y rheswm syml fod ganddi gymorth. Gall bwlio corfforol yn aml iawn arwain at effeithiau emosiynol.

Mae bwlio emosiynol yn llawer caletach i sylwi arno. Mae hyn yn cynnwys mwy o siarad isel, slei neu ambell gic slei nawr ac yn y man. Does dim llawer o effeithiau corfforol gan y math yma o fwlio, ond mae'r effaith emosiynol yn ofnadwy o uchel ac yn mynd yn annioddefol. Yn y diwedd, gall y person sy'n dioddef ddechrau credu'r hyn mae'r bwli yn ei ddweud amdano ac fe all fynd yn isel ei ysbryd ac, yn erwedig, yn isel ei hyder, ac weithiau gall hyn arwain at hunan-laddiad. Credaf bod y math yma o fwlio, mewn ffordd, yn waeth na'r bwlio corfforol am nad yw'r athrawon yn medru ei weld yn digwydd. Hefyd, credaf yn gryf fod person sy'n galw enwau neu'n bwlio person yn emosiynol yn dioddef ansicrwydd am ei hun yna'n dechrau pigo ar bobl eraill a creu ansicrwydd ym meddwl y person hwnnw er mwyn gwneud i'w hun deimlo'n well.

Math arall o fwlio yw bwlio syber. Mae'r bwlio yma yn digwydd ar y we ar safleoedd fel 'Bebo', 'Facebook', 'MSN' neu ar y tecst. Yn fy mam I, dim ond pobl llwfr sy'n gwneud hyn gan nad oes ganddyn nhw'r dewrder i ddweud yr hyn maent yn ei ysgrifennu wrth y person wyneb wrth wyneb. Mae llawer o bobl yn dweud pethau cas am rywun ar y we, ond, pan maen nhw'n gweld y person hwnnw, maent yn ymddwyn fel nad oes dim byd wedi digwydd. Mae'r agwedd yma yn gwneud i'r person sy'n dioddef deimlo'n ddryshyd, yn isel ac yn grac. Yn fy mam I, mae'r ffordd mae'r bwli yn gwneud hyn yn greulon, yn ddryswch ac yn gas i'r person arall. Yr unig ffordd i stopio'r bwlio ar y we yw i ofyn i'r bwli pam ei fod yn gwneud yr hyn mae'n ei wneud a pam ei fod yn ymddwyn fel nad oes dim wedi digwydd. Credaf i y dylid trio datrys y broblem o fewn eich gilydd, ond os nad ydy hyn yn bosib, dylid mynd at rywun y gallwch ymddiried e.e athro, rhiant.

Teimlaf bod pob math o fwtio yn atfach, yn greulon ac yn annymunol i'r un sy'n dioddef. Mae rhai pobl yn dweud fod pobl sy'n bwlio eraill wedi cael eu bwlio yn gynt mewn bywyd. Ond, nid yw hyn wastad yn wir, fel rwy'n gwybod o brofiad personol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n bwlio eraill yn ansicr iawn o'u hunain mewn rhyw ffordd ac, yn fy mam i, fe ddylen niw drïo datrys eu problemau eu hunain cyn dechrau creu rhai i bobl eraill. Gan fod bwlio yn broblem fawr ymhob maes mewn bywyd, rwy'n credu dylid codi ymwybyddiaeth am effeithiau bwlio ar bobl ifanc yn erwedig gan fod amrywiaeth eang o bobl yn meddwl mai dyma'r rheswm y mae deunaw o bobl ifanc ym Mhen y Bont ar Ôgwr wedi cyflawni hunan-laddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y bobl ifanc yma i gyd rhwng un ar bymtheg a phump ar hugain mhwydd oed, felly mae hyn yn dangos i ni fel gwlad bod angen cymorth ar bobl ifanc yn dilyn effeithiau bwlio. Credaf yn gryf y gall y Uywodraeth, bobl cyffredin ac hyd yn oed bobl enwog dynnu ein sylw at y nifer o bobl sy'n cael eu bwlio mewn ysgolion, gweithfeydd ac ati ym Mhrydain ac ar draws y byd. Yn fy mam i, dylid trio rhoi stop ar yr holl ddioddef sy'n digwydd i bobl hollol ddiniwed o achos ansicrwydd pobl eraill cyn bod pethau yn mynd yn rhy bell.

Sylwebaeth

Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ysgrifennu hyderus mewn arddull briodol – y traethawd wedi ei saernio'n ofalus.**
- **Cynnal dadleuon gan gynnig tystiolaeth i gefnogi barn,** e.e. '... bychanwyd Lewis Hamilton gan griw o bobl Sbaen oherwydd lliw ei groen. Credaf bod rhywbeth fel hyn yn erchyll, yn hiliol ac yn annheimladwy. Credaf yn gryf na ddylai'r pedwar person a oedd yn gyfrifol fod yn cael mynychu gweithgaredd cyhoeddus fel hyn byth eto.'
- **Cyflwyno syniadau'n drefnus,** e.e. 'Math arall o fwlio yw'r agwedd corfforol ohono e.e. curo neu gicio person. Credaf yn gryf fod bwlio corfforol yn beth hollol . . . seicolegol. Mewn cylchgrawn darllenais am ferch yn cael ei bwlio gan grŵp o ferched eraill ac yn aml, roedd trais yn digwydd pan nad oedd gan y ferch unrhyw gymorth. Ond, pan oedd gan y ferch ffrind gyda hi, nid oedd y grŵp yn pigo arni am y rheswm syml fod ganddi gymorth. Gall bwlio corfforol yn aml iawn arwain at effeithiau emosiynol.'
- **Sillafu, paragraffu ac atalnodi yn gywir. Y gystrawen yn un naturiol Gymreig.**

I gyrraedd lefel uwch disgwyliad:

Mwy o ddatblygiad i'r dadleuon gan eu hymestyn ymhellach.

17. “Mae negeseuon tecst yn lladd y ddawn o sgwrsio” (nodweddion o Lefel 8)

“Mae negeseuon tecst yn lladd y ddawn o sgwrsio”

Bydd Mam byth a hefyd yn cwyno fy mod i'n defnyddio gormod ar fy ffôn i yrru tecsts i'm ffrindiau. Beth wnewch chi â Mamau dwedwch? Dw i'n siwr y byddai hi'n cwyno mwy fyth pe bawn i'n defnyddio ffôn y tŷ gan greu bil ffôn anferthol! Mae sawl ochr i'r ddadl hon ac mae'n bwysig i mi geisio deall y ddwy ochr cyn dod i gasgliad terfynol.

Pan mae bobl yn tecstio maent yn rhannu clecs a newyddion diddorol. Mae rhai pob yn rhy swil i siarad ar y ffôn a hyd yn oed yn fwy swil wrth siarad wyneb yn wyneb. Ond weithiau y rhai hynny yw'r rhai mwyaf ffraeth a hy ar y tecst. Ni allwch ddweud y cyfan ar y ffôn. Wyddoch chi byth pwy sy'n gwrando!

Wrth ddefnyddio ffôn symudol i yrru negeseuon byr mae yna lawer o fanteision. Mae'n llawer cyflymach i ateb cwestiwn syml drwy decstio. Erbyn y byddwch chi wedi deialu rhif, siarad â Mam eich ffrind a chael gwared ar ei brawd bach drygionus, rydych wedi treulio llawer mwy o amser na'r 15 eiliad mae'n gymryd i decstio. WIR!. Byddwch hefyd wedi gwario llawer mwy ar eich bil ffôn na'r 10 ceiniog mae'n ei gostio i decstio. Felly mae'r manteision economaidd i berson ifanc tlawd yn amlwg hefyd!

Mae ffôn symudol wedi dod yn angenrheidiol ym mywydau pobl heddiw. Mae'n ddrwg gen i gyfadde, ond mae fy mywyd i yn dibynnu ar y ffôn. Petawn i mewn damwain ac angen help brys, dim ond y ffôn symudol fyddai'n debygol o fod o help i mi. Mae llawer o bobl yn cwyno nad ydynt yn ddibynadwy. A dweud y gwir mae fel eu bod yn chwilio'n fanwl am wendid. Ond rhaid i mi gyfaddef, mae'r batri yn mynd yn fflat o bryd i'w gilydd a does byth arian ynddo pan mae angen!

Un o rinweddau arall negeseuon tecst yw eich bod yn medru dewis eu darllen a'u hateb ar amser sy'n gyfleus i chi a phwy sy'n dweud nad yw hi'n bosib sgwrsio drwy decstio. A dweud y gwir mae'n fwy tebygol bod rhai pobl yn sgwrsio mwy drwy decstio na thrwy siarad gan eu bod yn gallu gwneud dau beth ar unwaith e.e. hwfro a tecstio, coginio a thecstio, hyd yn oed gwaith cartref a thecstio (coeliwch fi, dw i'n gwybod o brofiad!). Gallwch chi hefyd ateb tecst mewn rhai sefyllfaoedd go anarferol er

enghraifft, pwy fyddai'n breuddwydio cael sgwrs â phishyn mwya'r ysgol a chithau yn y bath? Mae'n hawdd cadw'ch cyfrinachau i gyd wrth decstio. Mae'n rhaid i'r bobl sydd yn mynnu fod negeseuon tecst yn lladd y ddawn o sgwrsio ddechrau cyfaddef mai'r negeseuon bawd yw ffordd y genhedlaeth ifanc o sgwrsio a chymdeithasu. Un gair o gyngor sydd gen i iddynt, sef i beidio bod mor hen ffasiwn ac i edrych ar bethau pwysicach fel dyfodol eu plant a'r twll yn yr haen osôn!

Mae'r ffôn symudol wedi ei ddyfeisio i'n helpu ni. Addaswyd y peiriant cyfathrebu hwn gymaint o weithiau fel bod y teclynnau bron yn berffaith. Ond does dim ffasiwn beth â pherffaith: dim ffôn perffaith, dim bywyd perffaith, dim sgwrsio perffaith. Wyddoch chi fod y ffôn symudol cyntaf yn pwyso 13.5kg? Roedd y teclyn yn llenwi hanner y bwt! Dyfeisiwyd y ffôn symudol cyntaf gan ddyn o'r enw Martin Cooper deg ar hugain o flynyddoedd yn ôl, erbyn hyn mae yn 74 oed ac yn dal i ddyfeisio rhai gwell!! Mae'r ffôn symudol ysgafnaf heddiw yn pwyso cyn lleied â 106g! Yn ôl Llyfr Recordiau Guinness y person sy'n dal record y byd am decstio gyflymaf, ers mis Medi 2002, yw James Trusler, mae e'n medru teipio paragraff hir a chymhleth mewn 67 eiliad. Dywed Trusler ei fod wedi perffeithio'r ddawn hon o ganlyniad i anfon 500 tecst o'i ffôn bob wythnos. Ydych chi'n cael 500 o sgwrsiau bob wythnos? Os yw'r dechnoleg gyda ni, pam na ddylem ni ei defnyddio?

Ar y llaw arall, efallai gallai person gael y syniad anghywir am neges e.e. PAM NES T DDIM DEUD HELO WRTHAI?!? Gallai'r neges yma swnio'n fgygythiol os nad ydych yn nabod gyrrwr y neges yn ddigon da. Gall pobl gychwyn dadlau a ffraeo gyda'i gilydd oherwydd camddealltwriaeth. Ydych chi'n gallu rhoi eich teimladau i mewn i neges tecst? Oes posib rhoi emosiwn i mewn i'r neges? Go brin? Dydych chi ddim yn gallu dibynnu ar electroneg. Dydy o ddim digon dibynadwy. Yn y sefyllfaoedd gwaethaf: pan yn sownd ar ben mynydd, mae'n debyg na fydd signal i'w gael yn unman. Dw i'n cyfaddef nad ydy pobl sydd yn tecstio'i gilydd o bell, mor debygol o ffonio i gael sgwrs cyn amled os ydynt yn brysur yn tecstio'i gilydd bob munud. Ond ydych chi hefyd yn credu bod pobl sydd yn tecstio'i gilydd, ddim yn sgwrsio ar y stryd y diwrnod canlynol? Wrth yrru negeseuon i'w gilydd mae pobl yn dod yn fwy o ffrindiau ac mae mwy o ffrindiau yn golygu mwy o sgwrsio a chymdeithasu!!!

Yn bersonol rydw i'n teimlo fod y ddawn o sgwrsio yng nghalonau pawb. Dydy tecstio ddim yn mynd i effeithio ar allu person i sgwrsio â'i ffrindiau a'i deulu. Does dim bwys gen i beth mae bobl yn ceisio'i fynnu ond dydy tecstio DDIM yn cael ddrwg effaith ar fy sgwrsio i!!!! Rydw i'n byrhau geiriau mawr mewn tecsts bob tro ond dydy hynny ddim yn golygu fy mod yn eu byrhau wrth sgwrsio hefyd. Mae'n wir i ddweud fod y negeseuon yn gywilyddus o ran gramadeg ond mae'n rhaid cofio nad traethawd yw neges ffôn ond sgwrs fer hawdd rhwng ffrindiau yr un peth â siarad wyneb yn wyneb heblaw mai ffôn sydd yn eich wynebu ac nid wyneb eich cyfaill.

Hyderaf fy mod wedi dod i'r casgliad amlwg nad ydy negeseuon tecst yn effeithio ar ein gallu i sgwrsio. Onid sgwrsio yw tecstio beth bynnag?!

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Dawn dweud a hiwmor byrlymus sy'n cynnal diddordeb y darllenydd**, e.e. 'A dweud y gwir mae'n fwy tebygol bod rhai pobl yn sgwrsio mwy drwy decstio na thrwy siarad gan eu bod yn gallu gwneud dau beth ar unwaith e.e. hwfro a tecstio, coginio a thecstio, hyd yn oed gwaith cartref a thecstio (coeliwch fi, dw i'n gwybod o brofiad!). Gallwch chi hefyd ateb tecst mewn rhai sefyllfaoedd go anarferol er enghraifft, pwy fyddai'n breuddwydio cael sgwrs â phisyn mwya'r ysgol a chithau yn y bath?'
- **Yr arddull yn naturiol ac yn hamddenol braf**, e.e. 'Beth wnewch chi â Mamau dwedwch?'
- **Yn dangos aeddfedrwydd a gwreiddioldeb**, e.e. 'Pan mae pobl yn tecstio maent yn rhannu clecs a newyddion diddorol. Mae rhai pobl yn rhy swil i siarad ar y ffôn a hyd yn oed yn fwy swil wrth siarad wyneb yn wyneb. Ond weithiau y rhai hynny yw'r mwyaf ffraeth a hy ar y tecst. Ni allwch ddweud y cyfan ar y ffôn. Wyddoch chi byth pwy sy'n gwrando!'
- **Iaith gyfoethog a chywir gyda gafael dda ar ramadeg, sillafu a pharagraffu drwyddi draw.**
- **Adeiladu dadleuon gan gynnig tystiolaeth yn gyson**, e.e. 'Ond does dim ffasiwn beth â pherffaith . . . Wyddoch chi fod y ffôn symudol cyntaf yn pwyso 13.5 kg? Roedd y teclyn yn llenwi hanner y bwt! . . . James Trusler, mae e'n medru teipio paragraff hi a chymhleth mewn 67 eiliad. Dywed Trusler ei fod wedi perffeithio'r ddawn hon o ganlyniad i anfon 500 tecst o'i ffôn bob wythnos. Ydych chi'n cael 500 o sgysiau bob wythnos? Os yw'r dechnoleg gyda ni, pam na ddylem ni ei defnyddio?'

I gyrraedd lefel uwch disgwyliad:

Mwy o ddatblygiad i'r dadleuon gan eu hymestyn ymhellach.

18. Araith ar archfarchnadoedd (nodweddion o Lefel 8)

Araith Archfarchnadoedd

Gyfeillion, rwyf yma heddiw yn Ysgol Gyfun Mawr yr Yrfa i drafod y gosodiad 'Mae archfarchnadoedd mawr yn syntad ffôl.' Rwy'n siwr eich bod wedi clywed am y Tesco newydd yng Nghaerfyrddin ac mae'n siwr eich bod wedi siopa yno hefyd, ond a ydych chi'n sylweddoli effaith yr archfarchnad ar dref hynaf Cymru! Yn bersonol, rwy'n cytuno'n llwyr â'r gosodiad uchod ac yn credu fod archfarchnadoedd yn chwala cymunedau ac yn niwedlo'r amgylchedd.

Un o'r prif resymau rwyf yn erbyn archfarchnadoedd mawr yw eu bod yn gorfodi siopau bach y dref i gau gan eu bod yn cael trafferth i gystadlu â'r owmniau mawr megis Tesco ac Asda. Dwi'n siwr ei fod yn gyfleus fod pob peth dan haul ar gael o dan yr un to! ond, a ydych chi'n cael yr un cymorth gan wethlu'r archfarchnad â gweithlu mewn siop sy'n arbenigo yn y cynnyrch rydych am brynu! Weth gwrs nad ydych! Dwi'n sylweddoli efallai fod y rwyddau yn rhatach mewn archfarchnad ond nid ogyf yw popeth. Beth am ansawdd y cynnyrch a gwasanaeth owmneriaid! Mae'n siwr fod gan y siopau bach llawer o brofiad â chwimeriaid. Credaf fod siopau bach llawn cytal â'r archfarchnadoedd ond, yn ôl pob sôn, mae o leiaf pump siop yn cau bob tro y mae un archfarchnad enfawr yn agor gan fod yr archfarchnad yn diwyn eu owmneriaid ac o ganlyniad yn arwain at siopau bach yn cau. Dyma beth sy'n lladd y gymuned. Mae angen gwrthod pob cais am archfarchnad newydd gan eu bod yn dinistrio cymunedau cefn gwlad Cymru.

Yr ail reswm rwy'n credu fod archfarchnadoedd yn syntad ffôl yw llygrodd aer. Ydych chi'n gwybod sawl milltr y mae eich cinio yn teithio cyn cyrraedd eich stumog! Tua 9,000 o filltiroedd! Dychmygwch sawl milltr bydd eich bwyd yn teithio mewn blwyddyn! Ymhell dros dair miliwn, i.e. tair miliwn o filltiroedd! Meddyliwch faint o rwyon a mwg sy'n cael ei gynhyrchu! Mae loriau o naw archfarchnad yn teithio 670 miliwn milltr y flwyddyn sy' bron yn bedair gwaith i'r lleud ac yn ôl ... bob dydd! Nid loriau'n unig sydd ar fal, ond ni hefyd. Mae un o bob deg deg siwrne car yn mynd i archfarchnadoedd ac amcangyfrif fod y

carbon deuocsid a gynhyrchir gan bobl yn tethio i'r archfarchnadoedd yn hafal â'r cyfaint o nwy a gynhyrchir gan lorïau bwyd y Deyrnas Unedig gyfan. Fel y gwyddoch, mae'n siwr mae'r holl nwyon a gynhyrchir yn gwaethygu sefyllfa'r byd ynglyn â gynhesu byd eang. Os byddai pawb yn ymdrechu i brynu nwy o fwydydd lleol, bydd leihad sylweddol yn y nwyon a gynhyrchir a fydd yn arafu'r broses o gynhesu byd eang. Yn fy mam i, dylid gorfodi archfarchnadoedd i brynu yn lleol er mwyn achub y byd rhag cynhesu byd eang.

Y pwynt olaf hoffwn i drafod yw sbwriel a gwastraff. Mae bron pob cynnyrch rydych yn prynu mewn archfarchnad a rhyw fath o bacediad di-angen o'i amgylch sy'n cael ei luchio i'r bin sbwriel. A oes unrhyw un ohonoch yn sylweddoli lle mae'r gwastraff hyn i gyd yn mynd? Mae'n cael ei gladdu mewn twll enfawr yn y ddaear. Mae hyn yn anharddu ein planod gwerthfawr. Mae oarter o bob bin sbwriel yn becynnu a 70% ohonynt yn becynnau bwyd. Os byddwn yn siopa mewn marchnad neu siop annibynnol, byddwn yn medru torri lawr cymaint â 75% o'n gwastraff dyddiol. Yn osgystal â hyn, gallwn ailgylchu i leihau ein gwastraff dyddiol. Mae'n ddigon rhwydd erbyn hyn i ailgylchu pob fath o ddeunyddiau erai megis cardfwrdd, plastig a gwyr dsiolch i'r bocys glas. Hyd yn oed os nad ydych wedi derbyn bocsglas, dim ond pïo draw i'r 'Man Ailgylchu' sydd angen. Ond, dim ond pecynnau bwyd yn unig sy'n wastraff, yn ôl pob sôn, mae archfarchnadoedd yn gwrthod 50% o ffwythau llystau oherwydd dim digon o liw, maint anghywir, siap afreolaidd, neu deisiau ar y cytirch. Mae'r ffwythau yma yncael eu gwastraffu ac yn cael eu taffu i bentwedi-bwys. Ymdrechwch i brynu mewn marchnadoedd a siopau annibynnol i osgoi gwastraff sy'n sbwyllo harddwch y ddaear. Rhaid i ni wneud rhywbeth cyn ei fod yn rhy hwyr!

Mae'n amlwg felly, bod archfarchnadoedd yn syniad ffôl gan eu bod yn difethu cymunedau clâs ac yn amharu ar ein amgylchyd. Cefnogwch fy safbwynt drwy siopa mewn marchnadoedd lleol yn lle'r angghenfilod o archfarchnadoedd sy'n llyncu a bwyta eich arian a siopau annibynnol fel bara. Gwnewch ein byd yn iachach drwy brynu'n lleol!

Sylwebaeth

Lefel 8 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Defnydd hyderus iawn o ffurf, e.e. defnyddir y modd gorchmynnol, cwestiynau rhethregol, ailadrodd ac ebychnodau i bwrpas, cyflwyno syniadau'n drefnus a chydlynus**, e.e. 'Un o'r prif resymau . . . ' Yr ail reswm rwy'n credu . . . ' 'Y pwynt olaf hoffwn i drafod yw . . . '
- **Cynnig tystiolaeth fanwl yn gyson**, e.e. 'Mae cwarter o bob bin sbwriel yn becynnu a 70% ohonynt yn becynnau bwyd. Os byddwn yn siopa mewn marchnad neu siop anibynnol, byddwn yn medru torri lawr cymaint â 75% o'n gwastraff dyddiol. Yn ogystal â hyn, gallwn ailgylchu i leihau ein gwastraff dyddiol. Mae'n ddigon rhwydd erbyn hyn i ailgylchu pob fath o ddeunyddiau crai megis cardfwrdd, plastig a gwydr diolch i'r bocsys glas. Hyd yn oed os nad ydych wedi derbyn bocsglas, dim ond picio draw i'r 'Man Ailgylchu' sydd angen.'
- **Clo grymus a pherswadiol a'r iaith yn gyfoethog drwyddi draw**, e.e. 'Mae'n amlwg felly, bod archfarchnadoedd yn syniad ffôl gan eu bod yn difetha cymunedau clas ac yn amharu ar ein amgylchfyd. Cefnogwch fy safbwynt drwy siopa mewn marchnadoedd lleol yn lle'r angghenfilod o archfarchnadoedd sy'n llyncu a bwyta eich arian a siopau annibynnol fel bara. Gwnewch eich byd yn iachach drwy brynu'n lleol!'

I gyrraedd lefel uwch disgwyliid:

Mwy o ddyfnder i'r dadleuon gan eu hymestyn ymhellach.

19. Llythyr yn ymateb i raglen deledu ar hawliau anifeiliaid (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Ysgol Gyfun Llantraeth
74 Heol y Fro
Cefneirug
Llanegwarn
SA13 7JU

Mr Gruff Roberts
BBC Cymru
Caerdydd
CF5 2YQ

12fed o Ionawr, 2006

Annwyl Mr Gruff Roberts

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r raglen radio 'Galw Gruff' a glywyd ar y radio yr wythnos diwethaf. Roedd y raglen yn gwahodd pobl i ffonio i mewn i rannu eu barn ar un o dri testun, sef pobl ifanc, hawliau anifeiliaid a gwersi addysg iechyd. Os cofiwch, derbyniwyd galwad ffôn gan Sara Tomos am ei barn hithau ar hawliau anifeiliaid. Ei geiriau hi oedd, 'Dydy hawliau anifeiliaid ddim yn bwysig. Pobl ddylai ddod yn gyntaf bob tro.' Anghytunaf â hi ac yn y llythyr yma hoffwn esbonio pam fy mod yn erbyn ei barn mor gryf.

Un rheswm dros anghytuno gyda hi yw oherwydd bod ei geiriau'n awgrymu mai iawn ydyw i achosi poen o anifeiliaid er mwyn i fenywod y boblogaeth gael gwisgo colur. Yn fy marn i nid yw hyn yn iawn gan mai ni sydd yn gwisgo'r colur ond yr anifeiliaid sy'n dioddef. Felly pam fod pobl yn gwisgo colur? Byddai llawer yn dweud fod colur yn gwneud iddynt edrych yn brydferth ac yn ddeniadol. Credaf dylai'r bobl a fyddai'n dweud hynny feddwl am eu geiriau'n ofalus, oherwydd maent yn dweud ei fod yn dderbyniol i anifeiliaid diniwed orfod dioddef er mwyn iddyn nhw gael edrych yn brydferth ac yn ddeniadol. Yn wir, os nad ydynt yn marw, bydd yr anifeiliaid yn cael eu defnyddio mewn arbrofion eraill, hyd nes eu bod nhw wedi marw, neu wedi eu hanafu'n rhy ddifrifol i arbrofi arno eto. Weithiau, cânt eu gollwng yn ôl i'r gwyllt, wedi eu niweidio'n ofnadwy, lle byddant yn marw naill ai o'u hanafiadau neu o ganlyniad i'w hamgylchiadau dieithr, e.e. anifeiliaid eraill, oerfel a phrinder o fwyd a dŵr. Dywed rhai fod llawer mwy yn cael eu lladd am fwyd

na mewn labordai, felly nid oes gwahaniaeth fod un neu ddau yn marw mewn arbrofion. Fodd bynnag, byddwn i yn dweud fod gwahaniaeth mawr rhwng bwyta i gadw'n fyw a gwisgo colur i fynd allan. Beth bynnag, mae bwyta anifail yn union yr un peth â theigr yn lladd a bwyta carw yn y gwyllt – dyna yw bywyd.

Yr ail rheswm sydd gennyf yn erbyn barn Sara Tomos yw fod digon o golur sydd heb ei arbrofi ar anifeiliaid i gael. Un enghraifft o hyn yw 'The Body Shop' – maent yn gwerthu amrywiaeth dda o golur a nwyddau ymolchi sydd heb eu harbrofi ar anifeiliaid. Ymateb eraill i hyn yw y gallent gael alergedd i'r fath golur ac efallai y cânt smotiau neu farciau ar eu hwyneb. Ond ni chredaf fod hyn yn esgus derbyniol oherwydd nid oes rhaid gwisgo colur, felly peidiwch. Rwy'n ymwybodol y byddai rhai yn gwrthod gadael y tŷ heb wisgo colur ond os nag oes neb arall yn ei wisgo bydd pobl yn fwy bodlon.

Daeth ffasiwn diweddaraf y sêr â chrin dipyn o bryder i gymdeithasau hawliau anifeiliaid, wrth i fwy a mwy o bobl ddechrau dilyn eu harwyr a gwisgo cotiau ffwr go iawn. Gwisgai llawer o bobl gotiau ffwr go iawn yn hytrach na rhai ffug, a phan holwyd nhw pam cafwyd atebion megis 'maent yn ffasiynol', 'mae un iawn yn well na un ffug' ac 'os talu gwell talu am un iawn'. Ond a ydych wir eisiau cot ffwr neu ydych yn dilyn pawb arall? Oni fyddai'n well i sefyll allan o'r dyrfa a gwisgo rhywbeth gwahanol, rhywbeth yr ydych wir eisiau? Mae yna ddigon o ddillad ffasiynol eraill ar gael, a gyda amrywiaeth mor eang mae yna rywbeth i blesio pawb. Anghytunaf ag unrhyw un sy'n dweud fod cot ffwr yr un peth â siaced wlân neu esgidiau lledr. Oherwydd cneifio defaid am wlân a wnawn, nid eu lladd, a rydym yn lladd buwch am fwyd, wedyn defnyddio'i chroen am ledr, nid ei lladd am ei chroen.

Credaf y dylen ni geisio canfod ffyrdd gwell o arbrofi a datblygu meddyginiaeth gan fod un anifail yn marw bob deuddeg eiliad mewn labordai arbrofi, ym Mhrydain yn unig. Derbyniaf y ffaith fod angen meddyginiaeth ar gyfer tostrwydd gan ei fod yn fater o fyw neu farw i rai pobl ac nid yw'r un peth â arbrofi rhywbeth diangen fel colur. Er fy mod yn fwy parod i'w dderbyn, hoffwn weld mwy yn cael eu wneud i ddatblygu ffyrdd newydd o arbrofi. Rydym yn byw mewn oes fodern, lle mae gan bawb y dechnoleg

fwyaf diweddar o'u hamgylch, ac mae ein Llywodraeth yn gwastraffu llawer iawn o'u harian yn creu arfau i ladd pobl ac yn hyfforddi milwyr i'w defnyddio. Oni fyddai'n well petai'r arian yn cael ei defnyddio'n gallach er mwyn cyfuno technoleg oes fodern a gwaith i ganfod ffyrdd arall o wella tostrwydd fel cancr. A gyda amser ac amynedd, mae'n siŵr y byddwn yn medru canfod ffyrdd mwy effeithiol a chyflym i wella dioddefwyr tostrwydd difrifol, a bydd y gwaith a'r arian yn talu'n ôl yn y tymor hir. Barn rhai ar hyn yw bod arbrofi ar anifeiliaid wedi gweithio tan heddiw felly pam na wnawn gario ymlaen i arbrofi yn y modd yma. Anghytunaf gan fod technoleg o hyd yn newid a chofiwch, nid un anifail yn unig sy'n marw wrth arbrofi, ond cannoedd – yn dibynnu ar ba mor hir mae'n cymeryd i arbrofi'r feddyginiaeth a faint o arbrofion sydd angen eu gwneud.

Rheswm arall dros anghytuno â Sara Tomos ynglŷn â hawliau anifeiliaid yw oherwydd bod mwy a mwy o anifeiliaid anwes yn cael eu hachub o gyflwr difrifol gan yr 'RSPCA' bob blwyddyn, gan eu bod wedi cael eu cam-drin gan eu perchnogion.

Ond pobl sy'n dewis cadw anifeiliaid anwes felly dylen nhw fod yn gyfrifol am ofalu'n gywir amdanynt. Dywed nifer nad ydynt yn sylweddoli pan yn prynu anifail anwes faint o waith a chyfrifoldeb ydyw a faint o amser ac arian mae'n cymryd i ofalu am anifail anwes. Yng Nghymru'n unig, mae dros £40 miliwn o bunnoedd yn cael ei wario ar fwyd i anifeiliaid anwes yn flynyddol. Ar y llaw arall, dylai unrhyw un sy'n golygu prynu anifail anwes, yn enwedig am y tro cyntaf, fod yn ddigon call i ystyried y gost, y cyfrifoldeb a'r gwaith a ddaw gyda bod yn berchen ar anifail anwes. Dadl rhai perchnogion yn y gorffennol oedd eu bod eisiau anifail anwes ac yna, ar ôl i gyfnod o amser fynd heibio, wedi blino ar eu hanifail anwes. Dydy hyn ddim yn rheswm o gwbl i beidio gofalu am eich anifail anwes yn gywir, ond eto mae'n rheswm a glywyd gan yr 'RSPCA' sawl gwaith yn ormod, yn enwedig wedi'r Nadolig. Pam ddylai anifail anwes orfod dioddef oherwydd diffyg gofal ar ran y perchnog? A thro nesa yr ydych y bwriadu gofyn am anifail anwes i Nadolig, ci newydd efallai, ystyriwch y gost, y gwaith a'r cyfrifoldeb a hefyd, cofiwch y dyfyniad Saesneg, sydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, 'Mae ci yn para am fywyd, nid yn unig fel arheg Nadolig'.

Yn fy marn i mae anifeiliaid yn haeddu'r un parch â phobl gan fod ganddyn nhw deimladau hefyd. Dydyn ni ddim yn hoff o gael ein trin yn wael ac felly ni ddylen drin anifeiliaid yn wael.

Cymdogion i'n rhywogaeth ni ydyw anifeiliaid ac yn ôl y Beibl, rheol aur y Cristion yw 'Câr dy gymydog fel ti dy hun'. Dywedaf i fod yn rhaid meddwl am eraill, gan gynnwys anifeiliaid, ond anghytuno'n llwyr mae eraill. Efallai ni fyddai gwellhad i sawl dostrwydd difrifol gennym oni bai ein bod ni wedi defnyddio anifeiliaid i'w canfod; dyna beth y byddech yn disgwyl i'r rhai sy'n anghytuno â mi i ddweud. Yn fy nghred i dylen ni adael llonydd i'r anifeiliaid er mwyn iddynt gael mwynhau y bywydau byr sydd ganddyn nhw. Yn wahanol i mi, tybia rhai ei fod yn iawn defnyddio anifeiliaid oherwydd eu bod yn atgenhedlu'n gyflym ac felly bydd o hyd digonedd ohonynt yn y byd. Wrth gwrs, dim esgus yw hwn – ni allwch drin anifeiliaid yn wael oherwydd fod digon ohonynt yn y byd. Felly pam na allwn ni gyd fod y cymeriad unigryw yr ydym – gan wisgo y dillad yr ydym eisiau ac nid y cotiau ffwr ffasiynol, gan ystyried cyn cael anifail anwes os ydyw'n syniad da ac nid cael ci oherwydd fod gen eich ffrind gi. Gallwn hefyd ddefnyddio colur sydd heb ei arbrofi ar anifeiliaid neu fynd heb yn gyfan gwbl, er mwyn gwneud bywydau nifer o anifeiliaid yn well. A thrwy wneud hyn fe fyddwn yn dangos parch at ein cymdogion ac yn medru teimlo'n brydferth ar y tu mewn ynghyd â'r tu allan.

A daw hynny â'r llythyr i ben. Hoffwn ddiolch i chi am gymeryd yr amser i ddarllen fy llythyr a gobeithiaf fy mod wedi llwyddo i'ch perswadio i gredu mai fy marn i sydd yn gywir. Ydych yn meddwl y byddai'n bosibl i chi ddarllen y llythyr yma allan ar y radio, er mwyn rhannu fy marn gyda gwrandawyr eraill? Diolch eto,

Yr eiddoch yn gywir,
J.L. Richards
(Jade Richards)

Sylwebaeth

Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Drwyddi draw mae'r ysgrifennu yn dreiddgar a chynnil.**
- **Defnydd deheuig o ffurf y llythyr ffurfiol – fe'i strwythurwyd yn ofalus iawn.**
- **Datblygu a chynnal syniadau a dadleuon yn rhesymegol ac yn eglur wrth ystyried yr wrthddadl,** e.e. 'Credaf y dylen ni geisio canfod ffyrdd gwell o arbrofi a datblygu meddyginiaeth gan fod un anifail yn marw bob deuddeg eiliad mewn labordai arbrofi, ym Mhrydain yn unig. Derbyniaf y ffaith fod angen meddyginiaeth ar gyfer tostrwydd . . . hoffwn weld mwy yn cael eu wneud i ddatblygu ffyrdd newydd o arbrofi. Rydym yn byw mewn oes fodern . . . ac mae ein Llywodraeth yn gwastraffu llawer iawn o'u harian yn creu arfau i ladd pobl ac yn hyfforddi milwyr i'w defnyddio. Oni fyddai'n well petai'r arian yn cael ei defnyddio'n gallach er mwyn cyfuno technoleg oes fodern a gwaith i ganfod ffyrdd arall o wella tostrwydd fel cancr. A gyda amser ac amynedd . . . byddwn yn medru canfod ffyrdd mwy effeithiol a chyflym i wella dioddefwyr tostrwydd difrifol, a bydd y gwaith a'r arian yn talu'n ôl yn y tymor hir.'
- **Paragraffau wedi eu strwythuro'n gelfydd.**
- **Aeddfedrwydd o ran cynnwys a'r iaith yn gyfoethog,** e.e. 'Cymdogion i'n rhywogaeth ni ydyw anifeiliaid ac yn ôl y Beibl, rheol aur y Cristion yw 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.'

20. Llythyr yn ymateb i raglen deledu (nodweddion o Berfformiad Eithriadol)

Cywirdeb gwleidyddol

Mr Cadeirydd ac Annwyl Gyfeillion,

Hoffwn i ddechrau heddiw drwy ofyn i chi sawl un ohonoch chi sydd wedi cael eich galw yn hiliol yn homoffobig neu'n rhywiaethol o achos rhyw sylw diniwed a wnaethoch ar ryw adeg? Dwi'n sicr ein bod ni i gyd wedi sylwi wrth edrych ar y newyddion bod pethau wedi newid yn radical dros y deugain mlynedd ddiwethaf. Heddiw mae unrhyw un sy'n lleisio ei farn am ymfudiad yn 'hiliol', unrhyw ddyn sy'n codi oddi ar ei sedd yn y bws er mwyn gwneud lle i hen wraig oedrannus, yn 'oedraniaethol' neu yn 'rhywiaethol'. Dyma ffrindiau, yw ôl effeithiau cywirdeb gwleidyddol sydd wedi mynd yn rhy bell a dyma yr hoffwn i ei drafod gyda chwi heddiw.

Yn oes ein cyndadau mi fyddech yn gweithio drwy'r flwyddyn er mwyn cynilo digon o fwyd ac arian i fod yn gyfforddus drwy'r Gaeaf. Mi fyddech yn ail adrodd y broses yma nifer o weithiau nes eich bod yn medru byw eich blynyddoedd olaf mewn heddwch. Wrth wario'n ddi-hid, heb drafferthu i weithio, byddai'r gaeafau yn oer a henoed yn ddiflas. Yn fy marn i mae'r dyn sy'n gwneud ymdrech i weithio yn haeddu bywyd gwell na'r diogyn, ond erbyn heddiw mae cymdeithas(h.y. cywirdeb gwleidyddol) wedi penderfynu y dylai'r diogyn gael trueni, y dylem ni dosturio wrtho. Nid yn unig hynny – mae llywodraeth y genhedlaeth hon , y genhedlaeth 'newydd, fodern, amrywiol; yma yn ôl David Cameron, yn disgwyl i ni gynnal y diogyn gyda'n arian ein hunain.

Ystyriwch am eiliad eich bywyd chi. Mae'n siŵr eich bod wedi gweithio yn yr ysgol gan wneud cyn lleied o ffwdan ag yn bosib. Rydych yn gadael y coleg yn barod i weithio ac wedi nifer o flynyddoedd yn y gweithle a thalu trethi niferus drwy eich bywyd, rydych yn barod am ymddeoliad pleserus. Nawr, cymharwch hyn gyda bywyd rhywun sydd wedi symud i fyw i'r deyrnas Unedig yn yr ugain mlynedd ddiwethaf.

Yn yr ysgol mae iechyd a Gofal mor llym, ni fyddwch yn mynd ar drip heb oedolyn yn dal eich llaw drwy'r holl brofiad, os ydych yn cael eich gwahardd o'r ysgol am gario cylllell rhaid mynd â'r ysgol i'r llys gan ddweud bod eich credoau crefyddol yn cael eu dirmygu.

Ar ôl gadael ysgol mae'r gwaith yn rhy galed felly mae salwch 'rhyfedd' yn datblygu sydd yn ei gwneud hi'n amhosibl i chi wneud unrhyw fath o waith. O achos hyn mae gweddill y gymuned yn talu eich trethi, ac erbyn eich ymneilltuad mae gennych ddigon o arian i fforddio ail dŷ yn ne Ffrainc ac er gwaethaf eich salwch rydych wedi llwyddo mynd ar sawl trip dramor a gyrru am filltiroedd bob wythnos i fynd i siopa yn y ddinas gyfagos. Mae'n anodd credu mai dyma realiti'r sefyllfa ond heb amheuaeth dyna yw bywyd yn y Deyrnas Unedig y dyddiau yma.

Y gwirionedd yw bod ein bywydau ni i gyd yn cael eu rheoli gan gywirdeb gwleidyddol. Gall unrhyw sylw sy'n cael ei wneud heddiw gael ei gymryd fel sarhad ar berson neu grŵp o bobl arbennig. Mae hiwmor Prydain wedi cael ei effeithio yn ofnadwy. Mae'r ynys a oedd unwaith yn enwog am ei digrifwch nawr yn cael ei gwneud yn destun sbort gan weddill y byd oherwydd ei hagwedd or-sensitif am bopeth.

Pan fyddai rhywun yn cwestiynu ugain mlynedd yn ôl fod ymfudiad dilyffethair yn angenrheidiol, roedd yn 'lleisio ei farn'. Mae'r person yma heddiw yn cael ei alw yn Brydeiniwr bach penboeth. Dewch bawb. Dewch i daflu galwadau o 'hiliwr' ato a galw am ei waed. Peidiwch â meddwl bod fy nychymyg wedi mynd yn rhy bell, fy mod yn gorliwio'r ffeithiau er mwyn cryfhau fy nadl. Na. Yn ddiweddar, fe ddiswyddodd David Cameron – arweinydd y blaid Geidwadol Patrick Mercer (aelod seneddol Newark a Retford) am ddweud y gwir. Nododd ef fod galw enwau hiliol yn y fyddin yn gwbl naturiol – yn rhan annatod o fywyd. Mae'n wir – mae pobl yn cael eu poenydio am gael gwallt coch, croen tywyll, bod yn dew – dyna yw'r drefn. Roedd yr ymddiswyddiad yn arwydd pendant bod y wlad yn gadael i bobl or-sensitif reoli'r Deyrnas Unedig gan waredu popeth sy'n gwneud Prydain yn Brydain.

Yn ddiweddar, mae cadwyn caffi Starbucks wedi ei gondemnio am gynnwys coffi du ar eu seigiau. Mae'r cwestiwn diniwed ' Hoffech chi goffi du?' o hyn ymlaen yn annerbyniol rhag ofn iddo dramgwyddo'r gymdeithas Affro-Brydeinig. Mae hyn yn gwbl afresymol yn fy marn i. Pa fath o bobl fyddai'n gweld ' coffi du' fel unrhyw beth ond gofyniad syml am 'goffi du'? Pam stopio yn y fan yna? Beth am newid 'te sinsir' i 'de gyda sinsir, y perllys nid

y lliw'. Peidiwch â gofyn am 'goffi gwyn' - ' coffi heb laeth' amdani felly ar fwydlenni pob caffi! Cred rhai bod gan bobl hawl perffaith o newid pethau ar fwydlen os yw'n tramgwyddo teimpladau eraill. Does dim synnwyr gwario arian ar anfon gweithwyr Starbucks ar gyrsiau 'Newspeak'. Felly ble ar y ddaear y dechreuodd y polisi gwallgof a gwarthus hwn o wneud pob un i ddilyn rheolau mor ddibwynt.

Yn ddiweddar mae rheini Cristnogion a Mwslim wedi uno gyda'i gilydd er mwyn trio gwahardd deddf newydd sydd yn dod i rym ddiwedd y flwyddyn hon. Wrth i chi glywed hyn rwy'n sicr eich bod yn meddwl pa mor braf yw'r ffaith bod y ddwy grefydd wrthwynebus hon wedi dod at ei gilydd mewn un maes o'r diwedd. Ond ffrindiau, pan ddysgwch beth yw'r ddeddf, mi fydd pob meddylfryd am undod yn gwibio allan o'ch pennau. Mae'r adran addysg yn Lloegr wedi penderfynu printio llyfrau plant sy'n sôn am gyfun rywioldeb er mwyn datblygu'r Ddeddf cyfun rywioldeb mewn ysgolion. Mae'r llyfrau yn cynnwys ' Brenin a Brenin' sy'n sôn am dywysog sy'n gwrthod tair tywysoges cyn cwmpo mewn cariad gyda thywysog arall. Yn sgil hyn, mae un ysgol gynradd yn Llundain yn paratoi eu disgyblion am sioe opera fyddant yn ei pherfformio adeg y Nadolig o'r enw 'The Sissy Duckling' sy'n sôn am hwyaden sy'n hoffi coginiom glanhau a chelf. Mae'n rhaid i mi eich holi chi – faint ohonoch chi fyddai'n hapus i'ch plant chi ddarllen llyfrau fel hyn? Mae staff yr ysgol hon yn amlwg wedi mynd o'u co' yn gorfodi disgyblion i berfformio'r ddrama hon.

Fyddech chi'n eistedd gyda'ch plentyn ar eich côl a dechrau darllen stori o'r math yma iddynt? Mi fydd rhai yn fy nghondemnio i mewn eiliad, rwy'n deall hynny. Mi fydd rhai yn ebychu yn syth a dweud nad ydynt erioed wedi gweld y fath ymddygiad homoffobig. Yn bersonol, does gen i ddim byd yn erbyn cyfun rywioldeb. Roeddwn yn falch o weld priodasau cyfun rywioldeb yn dod yn realiti yn 2006. Ond yn amlwg mae ochr beryglus ofnadwy i hyn. Fedrwn ni ddim gadael i'n plant gael eu dinoethi i bidoffeil wrth iddynt gael eu haddysgu yn yr ysgol bod dau ddyn yn cyffwrdd â'i gilydd yn beth iawn. Duw a'n gwaredo os ydym yn mynd i aberthu diogelwch ein plant er mwyn i bawb aros yn hapus.

Dadl arall yr hoffwn ei roi ger eich bron yw'r ffaith fod troseddwy'r yn mwynhau cyfleusterau gwell na phobl sy'n talu £1,500 i aros

yn y Ritz yn nosweithiol. Erbyn heddiw rydym yn byw mewn byd ble, os ydyn yn dod o hyd i leidr yn ein tŷ yng nghanol y nos, mae'n well i ni ei helpu i gario ein heiddo i'r drws rhag ofn iddo syrthio a niweidio ei hun a'n herlyn ni am ddifrod meddyliol! Ai dyma'r math o gymdeithas yr hoffech chi fyw ynddo?

Mae'r llywodraeth wedi ein gwthio a'n gwthio ni ac mae pobl Prydain wedi cael digon. Mae 1.3 miliwn o Brydeinwyr wedi symud i Awstralia er mwyn dianc oddi wrth y gymdeithas gywir wleidyddol yn barod a miloedd arall hefyd wedi eu gwasgaru ar draws y byd i gael dianc.

Wel mae'n bryd dweud NA. Paham taw ni ddylai ddiodef oherwydd gorsensitifrwydd rhai? Pam ddylem ni aberthu ein ffordd o fyw i'r ychydig sydd ond wedi byw yma ers nifer fach o flynyddoedd? Pam y dylai pobl Brydeinig adael eu gwlad er mwyn cael rhyddid? Mae'r gweinidog ymfudiad Liam Burne wedi addo y bydd yna gyfieithyddion ar gael ym mhob cymuned ym Mhrydain erbyn diwedd 2008. Fy ymateb i? Mae pob Prydeinwyr yn medru siarad Saesneg yn barod. Oherwydd taw Saesneg yw prif iaith y Deyrnas Unedig does dim angen cyfieithyddion ar unrhyw gymuned. Os ydy'r bobl yma sy'n newid ein ffordd o fyw gyda chywirdeb gwleidyddol yn rhy ddiog i ddysgu iaith eu gwlad newydd, gallant fynd yn ôl i ble bynnag y daethant. A ydych chi'n meddwl, ffrindiau, petai un ohonom yn ymfudo i India, Tseina, Rwsia neu unrhyw wlad yn y byd, y byddant yn darparu cyfieithyddion? Ydych chi'n meddwl y byddai gwledydd fel Irac a Phacistan yn codi eglwysi a chapeli o gwmpas eu trefi er mwyn plesio'r haid o Gristnogion sydd wedi symud i'r ardal? Na.

'Mr Cadeirydd/ffrindiau annwyl. Meddyliwch pam bod 40% o bobl wedi stopio pleidleisio? Pa bynnag blaid sy'n rhedeg y wlad, does dim byd yn digwydd i wella'r sefyllfa? Pam fod gan dri phrif barti gwleidyddol y wlad hon fwy neu lai'r un polisiau? Yr ateb a gewch i bob cwestiwn – cywirdeb gwleidyddol. Felly gyfeillion, ydych chi'n mynd i dderbyn y telerau gwirion sydd wedi dod i Brydain? Amddiffynnwch eich hawliau. Nid bod yn hiliol, yn rhywogaethol, yn homoffobig yw lleisio eich barn. Bod yn rhydd, yn ddynol – dyna yw lleisio barn. Diolch.'

Sylwebaeth

Perfformiad Eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

- **Ysgrifennu treiddgar ac aeddfed sy'n cynnal diddordeb y darllenydd.**
- **Defnydd meistrolgar o ffurf yr araith a'r defnydd o ddychan yn arbennig o drawiadol**, e.e. 'Ar ôl gadael ysgol mae'r gwaith yn rhy galed felly mae salwch 'rhyfedd' yn datblygu sydd yn ei gwneud hi'n amhosibl i chi wneud unrhyw fath o waith. O achos hyn mae gweddill y gymuned yn talu eich trethi, ac erbyn eich ymneilltuad mae gennych ddigon o arian i fforddio ail dŷ yn ne Ffrainc ac er gwaethaf eich salwch rydych wedi llwyddo mynd ar sawl trip dramor a gyrru am filltiroedd bob wythnos i fynd i siopa yn y ddinas gyfagos. Mae'n anodd credu mai dyma realiti'r sefyllfa ond heb amheuaeth dyna yw bywyd yn y Deyrnas Unedig y dyddiau yma.'
- **Datblygu a chynnal syniadau a dadleuon yn rhesymegol ac yn eglur**, e.e. y ddadl am Starbucks.
- **Yn dangos aeddfedrwydd a chyfoeth iaith.**
- **Clo arbennig o bwrpasol gan adeiladu at uchafbwynt**, e.e. 'Mr Cadeirydd/ffrindiau annwyl. Meddyliwch pam bod 40% o bobl wedi stopio pleidleisio? Pa bynnag blaid sy'n rhedeg y wlad, does dim byd yn digwydd i wella'r sefyllfa? Pam fod gan dri phrif barti gwleidyddol y wlad hon fwy neu lai'r un polisiau? Yr ateb a gewch i bob cwestiwn – cywirdeb gwleidyddol. Felly gyfeillion, ydych chi'n mynd i dderbyn y telerau gwirion sydd wedi dod i Brydain? Amddiffynnwch eich hawliau. Nid bod yn hiliol, yn rhywogaethol, yn homoffobig yw lleisio eich barn. Bod yn rhydd, yn ddynol – dyna yw lleisio barn. Diolch.'

